sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

# Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020-21

## Gan gynnwys asesiad o berfformiad ar gyfer cyfnod y Siarter hyd yma: 2017-2021




**Cefnogi darlledu yn y DU**

Cyhoeddwyd 25 Tachwedd 2021

# Cynnwys

Trosolwg ..... 2

Ein rhaglen waith ..... 13

Ein hasesiad perfformiad ..... 17

Perfformiad cyffredinol y BBC ..... 21

Diben Cyhoeddus 1: newyddion a materion cyfoes ..... 25

Diben Cyhoeddus 2: dysgu ..... 35

Diben Cyhoeddus 3: allbwn a gwasanaethau creadigol, o safon uchel a nodedig ..... 46

Diben Cyhoeddus 4: adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol y DU ..... 57

Diben Cyhoeddus 5: adlewyrchu'r DU i'r byd ..... 69

Effaith y BBC ar gystadleuaeth ..... 74

Safonau o ran cynnwys ..... 85

Trosolwg o'n dyletswyddau ..... 97

# Trosolwg

## Cyflwyniad

Dyma ein pedwerydd adroddiad blynyddol ar y BBC ers i ni fynd yn rheoleiddiwr allanol cyntaf y BBC yn 2017. Wrth i ni nesáu at hanner ffordd trwy'r Siarter, rydym yn edrych yn ôl i asesu sut mae'r BBC wedi cyflwyno ar ei chylch gwaith o hysbysu, addysgu a diddanu'r cyhoedd a chefnogi'r economi greadigol ledled y DU.

Rydym yn gyfrifol am ddwyn y BBC i gyfrif ar ran cynulleidfaoedd drwy ddarparu rheoleiddio teg, cadarn ac annibynnol. Mae ein cyfrifoldebau'n cynnwys tri maes allweddol: goruchwylio perfformiad y BBC o ran cyflawni ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus; diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol; a sicrhau safonau o ran cynnwys yn rhaglennu'r BBC. Nid yw penderfyniadau ynghylch amserlennu rhaglenni unigol a materion golygyddol o fewn ein cylch gwaith.

Mae Bwrdd y BBC yn gyfrifol am lywodraethu cyffredinol, ac am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus fel y nodir yn y Siarter Frenhinol. Mae'n pennu cyfeiriad strategol a chylch gwaith creadigol trosgynnol y BBC, yn asesu ei berfformiad ac yn dwyn rheolaeth y BBC i gyfrif.

## Ynghylch yr adroddiad hwn

**Mae'r adroddiad hwn yn bwydo i mewn i'n hadolygiad parhaus o reoleiddio'r BBC.** Yn yr haf lansiwyd adolygiad gennym i ystyried a yw ein rheoleiddio'n parhau'n addas i'r diben wrth ddwyn y BBC i gyfrif dros wylwyr a gwrandawyr wrth i ni nesáu at hanner ffordd trwy'r Siarter (sydd mewn grym rhwng 2017 a 2027). Mae tair elfen allweddol i'n hadolygiad:

1. **Asesiad o berfformiad y BBC dros gyfnod y Siarter hyd yma:** yn yr adroddiad hwn, rydym yn disgrifio ein hasesiad o sut mae'r BBC yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd ac yn crynhoi'r themâu allweddol rydym wedi'u nodi ar draws ein holl feysydd cyfrifoldeb ers i ni ymgymryd â rheoleiddio'r BBC.
2. **Adroddiad i Lywodraeth y DU ar reoleiddio'r BBC:** mae hyn yn cymryd ymatebion i'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd gennym ym mis Gorffennaf i ystyriaeth ac yn cynnwys argymhellion i'w hystyried yn adolygiad hanner ffordd trwy'r Siarter Lywodraeth y DU ei hun o'r BBC. Byddwn hefyd yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig y bwriadwn eu gwneud i'n prosesau rheoleiddio ein hunain. Caiff hyn ei gyhoeddi yn ngwanwyn 2022.
3. **Trwydded Weithredu wedi'i diweddaru**: fel a nodir yn *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*, mae angen penodol am ddiweddaru Trwydded Weithredu'r BBC ar gyfer yr oes ddigidol. Byddwn yn ymgynghori ar gynigion i ddiweddaru'r drwydded yng ngwanwyn 2022, gyda thrwydded newydd yn weithredol erbyn mis Ebrill 2023.

Yn ogystal ag asesu perfformiad y BBC dros gyfnod y Siarter hyd yma, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys ein hasesiad o berfformiad y BBC ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021. Bob blwyddyn mae'n rhaid i ni gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi sut rydym wedi cyflawni ein rôl, fel y nodir yng Nghytundeb Siarter a Fframwaith y BBC. Rydym yn adolygu sut mae'r BBC wedi cyflawni yn erbyn ei gofynion rheoleiddio eleni ac yn amlygu agweddau penodol ar berfformiad y BBC.

Ar draws ein holl waith, rydym yn cael ein cyfeirio gan safbwyntiau cynulleidfaoedd a'r diwydiant. Rydym yn siarad yn rheolaidd â chynulleidfaoedd a rhanddeiliaid ym mhob rhan o'r DU ac yn adolygu ein hymchwil er mwyn sicrhau ein bod yn clywed gan ystod amrywiol o leisiau.

**Ein canfyddiadau allweddol: 2017 – 2021**

## Yn gryno

Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa trwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, nodedig ac uchel eu hansawdd sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.

**Ar y cyfan, mae'r BBC wedi cyflawni ei chylch gwaith ers 2017. Mae'n parhau i fod yn boblogaidd gyda chynulleidfaoedd ac wedi ymaddasu'n gyflym i'r pandemig Covid-19,** ond rydym wedi nodi sawl thema hirsefydlog o'n gwaith hyd yma:

**Mae cyflawni didueddrwydd dyladwy yn parhau i fod yn her gymhleth i'r BBC**

- Mae gan y BBC gofnod da o gydymffurfio â rheolau darlledu a fwriedir i sicrhau bod rhaglennu'n ddyladwy ddiduedd. Er hynny, pan ofynnwn i gynulleidfaoedd am newyddion y BBC, er eu bod yn ei raddio'n uchel am ddibynadwyedd a chywirdeb, maent yn gyson yn graddio'r BBC yn llai ffafriol am ddidueddrwydd.
- Dyma un o brif flaenoriaethau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ac rydym yn croesawu'r camau gweithredu arfaethedig a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y BBC. Mae'n rhaid asesu'r rhain yn drylwyr ac adrodd arnynt yn dryloyw er mwyn cynnal ymddiriedaeth cynulleidfaoedd.

**Mae'n rhaid i'r BBC barhau i esblygu i fod yn berthnasol i bob cynulleidfa**

- Rydym wedi gweld yn gyson fod gan rai grwpiau cynulleidfa foddhad is â'r BBC, megis cynulleidfaoedd anabl, y rhai yn yr Alban a'r rhai o gefndiroedd llai cefnog.[1]
- Mae'r BBC yn cymryd camau i wasanaethu cynulleidfaoedd llai bodlon yn well ac i feithrin cysylltiadau cryfach â chynulleidfaoedd iau. Bydd angen iddi ddwyn ei hun i gyfrif yn gadarn wrth gyflwyno'r mentrau hyn.
- Mae angen i'r BBC wella'r ffordd y mae'n cynrychioli ac yn portreadu grwpiau llai bodlon a rhaid iddi sicrhau bod ei gweithlu'n fwy cynrychioliadol o bobl o wahanol gefndiroedd. Mae'r rhain yn hanfodol i lwyddiant hirdymor y BBC.

[1] Pennir grŵp economaidd-gymdeithasol gan sawl ffactor gan gynnwys incwm a swydd. Yn gyffredinol, mae'r grwpiau uchaf, A a B, yn fwy tebygol o fod yn gefnog, mae'r grwpiau C1 a C2 yn y canol ac mae'r grwpiau isaf, D ac E, yn llai tebygol o fod yn rhai cefnog.

**Mae'n rhaid i gynnwys unigryw a gwreiddiol o'r DU barhau i fod yn flaenoriaeth i'r BBC**

- Mae'r BBC yn cynnig yr ystod ehangaf o genres ac yn buddsoddi'n helaeth yn sector creadigol y DU. Mae'r cynnwys unigryw a gwreiddiol hwn yn y DU wrth wraidd y ffordd y mae'r BBC yn apelio at bob cynulleidfa ac yn cyflawni ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus.
- Wrth iddi fynd ar drywydd ei strategaeth i ganolbwyntio ar gynnwys tra dylanwadol, yng ngoleuni cystadleuaeth gynyddol i gynulleidfaoedd a phwysau cyllidebol, mae angen i'r BBC gynnal ei hymrwymiad i gynnwys gwreiddiol o'r DU.

**Dylid ymgorffori tryloywder ymhellach yn nulliau gweithio y BBC**

- O ystyried pwysigrwydd y BBC i lawer o bobl yn y DU, rydym wedi galw'n gyson am i'r BBC fod yn fwy tryloyw. Er enghraifft: yn y ffordd y mae'n esbonio ei phenderfyniadau i'r cyhoedd, sut y mae'n ymgysylltu â diwydiant ar newidiadau arfaethedig i'w wasanaethau, ac wrth adrodd.
- Rydym wedi gweld rhai gwelliannau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae rhagor i'w wneud: mae'n hanfodol bod y BBC yn atebol drwy nodi'n glir sut y bydd yn gweithredu ei strategaethau, mesur eu llwyddiant ac yn adrodd ar eu heffeithiolrwydd.

## Canfyddiadau allweddol yn fanwl

### Ar y cyfan mae'r BBC wedi cyflawni ei chylch gwaith dros gyfnod y Siarter hyd yma

**Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa trwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, nodedig ac uchel eu hansawdd sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.** Bob blwyddyn dros gyfnod y Siarter hyd yma rydym wedi nod bod y BBC ar y cyfan wedi cyflawni ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus. Mae'n parhau i gyrraedd y rhan fwyaf o boblogaeth y DU bob wythnos ac i ddarparu maint arwyddocaol o newyddion a materion cyfoes dibynadwy, ystod eang o gynnwys addysg a dysgu, a chynnwys nodedig a chreadigol o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd ar draws ei wasanaethau prif ffrwd ac arbenigol. Bob blwyddyn ers 2017, mae boddhad cynulleidfaoedd â'r BBC wedi aros yn gymharol uchel, gan gymharu'n dda â darparwyr cynnwys eraill.

**Mae'r defnydd cyffredinol o'r BBC wedi parhau'n gryf.** Er bod nifer y bobl sy'n gwylio ac yn gwrando ar wasanaethau teledu a radio darlledu traddodiadol wedi bod yn dirywio'n raddol[2], yn 2021 defnyddiodd bron i naw o bob deg oedolyn wasanaethau'r BBC bob wythnos**.** Mae hyn yn disgyn i wyth o bob deg oedolyn 15-24 oed.[3]

[2] Yn 2017, gwyliodd 90% o unigolion deledu llinol o'i gymharu ag 84% yn 2020 (BARB). Mae'r gostyngiad mewn radio darlledu wedi bod yn fwy graddol a thros gyfnod hirach, er yn fwy serth ymhlith pobl ifanc 15-24 oed: yn 2010, gwrandawodd 89% o bobl ifanc 15-24 oed ar y radio bob wythnos o'i gymharu ag 82% yn 2020 (RAJAR).
[3]IPA TouchPoints

**Ymaddasodd y BBC yn gyflym yn ystod y pandemig Covid-19 i gyflawni dros gynulleidfaoedd.** Fel pob darlledwr, bu'n rhaid i'r BBC newid sut y mae wedi gwneud ei chynnwys a darparu ei wasanaethau oherwydd yr effaith ar staffio a dulliau gweithio (e.e. gwneud rhaglenni fel *The One Show* mewn ffordd sy'n ddiogel rhag Covid). Ymaddasodd y BBC hefyd yr hyn a gynhyrchodd wrth ymateb i amgylchiadau'r pandemig. Yn benodol, fe ddarparodd amrywiaeth eang o gynnwys addysgol i gefnogi rhieni a phlant pan gaewyd ysgolion.

---

**"Camodd y BBC i'r adwy o ddifri, gan ddarparu rhaglenni addysgol ar gyfer plant ysgol a myfyrwyr yn ystod y cyfnodau clo mawr a'r adegau yr oedd ysgolion ar gau a gwnaeth eu hymateb a faint yr amser yr oeddent ar yr awyr argraff fawr arnaf."** [4]

***– (Dyn, 25-34 oed, aelwyd DE, de-orllewin Lloegr)***

---

**Ar adeg pan fo Covid-19 wedi atgyfnerthu'r angen am wybodaeth ddibynadwy a chywir, y BBC yw'r ffynhonnell newyddion bwysicaf i gynulleidfaoedd o hyd.** Mae newyddion wrth wraidd Cenhadaeth y BBC ac mae'n fewnbwn hanfodol i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU, gan helpu cynulleidfaoedd i gyfrannu at gymdeithas wybodus a democrataidd. Cynyddodd y BBC ei hallbwn newyddion eleni ac mae mwy o bobl wedi defnyddio newyddion y BBC ar deledu ac ar-lein, ar draws pob grŵp oedran, gan gynnwys pobl ifanc. Dyma'r ffynhonnell newyddion a ddefnyddir fwyaf ledled y DU er gwaethaf yr amrywiaeth eang o ffynonellau eraill sydd ar gael.

## Mae cyflawni didueddrwydd dyladwy yn parhau i fod yn her gymhleth i'r BBC

**Mae cynulleidfaoedd yn parhau i fod yn llai ffafriol am ddidueddrwydd y BBC, ond gall eu barn gael ei llunio gan amrywiaeth o ffactorau y tu hwnt i raglennu.** Bob blwyddyn ers 2017 mae cynulleidfaoedd wedi sgorio'r BBC yn uchel am ymddiriedaeth a chywirdeb mewn allbwn newyddion. Er hynny, mae ein hymchwil i gynulleidfaoedd hefyd yn dangos bod y canfyddiad o ddidueddrwydd yn parhau i fod yn faes lle mae cynulleidfaoedd yn llai ffafriol am y BBC. Mewn ymchwil a gyflawnwyd ar gyfer ein Hadolygiad Newyddion 2019, gwelsom fod rhai cynulleidfaoedd yn tueddu i seilio eu canfyddiadau o ddidueddrwydd y BBC ar yr hyn y maent yn ei feddwl am y BBC yn fwy cyffredinol. Er enghraifft, yn ein hymchwil ansoddol, clywsom fod brand y BBC, ei mecanwaith ariannu a'i phortread yn y cyfryngau ehangach yn dylanwadu ar safbwyntiau. Nodwn hefyd fod rhai grwpiau cynulleidfa yn llai bodlon â'r BBC yn fwy cyffredinol, gan gynnwys y rhai mewn aelwydydd DE a chynulleidfaoedd yn yr Alban. Bydd angen i'r BBC ystyried y ffactorau hyn ochr yn ochr â'i Gynllun Gweithredu Didueddrwydd a Safonau Golygyddol – gweler isod.

---

[4] Ymchwil Covid-19 y BBC Ofcom

**Nid yw rheolau darlledu yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC na darlledwyr eraill fod yn gwbl niwtral ar bob mater o fewn newyddion a materion cyfoes, ond mae'n rhaid iddynt fod yn ddyladwy ddiduedd.** Mae hyn yn golygu peidio â ffafrio un ochr dros y llall a rhoi amser digonol a phriodol i amrywiaeth o safbwyntiau, gan ddibynnu ar y pwnc neu natur y rhaglen. Gall yr ymagwedd at ddidueddrwydd dyladwy amrywio gan ddibynnu ar y gwasanaeth a disgwyliadau tebygol y gynulleidfa. Mae cyd-destun bob amser yn bwysig. Mewn cyferbyniad â darlledwyr eraill, mae'r broses BBC First yn golygu bod cwynion am ddidueddrwydd y BBC yn cael eu trin i ddechrau gan y BBC, a dim ond os yw'r achwynydd yn anfodlon â phenderfyniad terfynol y BBC y byddant yn dod i Ofcom. Mae amrywiaeth o ffyrdd o dan y system BBC First i safonau didueddrwydd dyladwy ar wasanaethau'r BBC gael eu gorfodi. Er enghraifft, yn ystod cyfnod y Siarter, mae Uned Cwynion Gweithredol y BBC wedi cynnal cwynion neu eu cynnal yn rhannol mewn 22 o achosion (allan o gyfanswm o 112) pan ganfu nad oedd y safon briodol o ddidueddrwydd dyladwy wedi'i chymhwyso. Yn erbyn y cefndir hwn, yn yr un cyfnod, nid yw Ofcom wedi ystyried ei bod yn angenrheidiol nac yn gymesur i lansio unrhyw ymchwiliadau ein hunain o dan ein rheolau didueddrwydd dyladwy. Fodd bynnag, ar rai achlysuron, er nad ydym wedi agor ymchwiliad llawn, rydym wedi cyhoeddi ein rhesymu yn esbonio pam, ac rydym hefyd wedi rhoi arweiniad pwysig i'r BBC i'w helpu i gydymffurfio â'r rheolau didueddrwydd dyladwy.

**Rydym yn croesawu pwynt gweithredu'r BBC i wella canfyddiadau cynulleidfaoedd o'i didueddrwydd.** Eleni, cyflwynodd y BBC ganllawiau, hyfforddiant a rheolau didueddrwydd mewnol newydd ar ymgysylltu allanol.  At hynny, wrth ymateb i Adolygiad Serota o brosesau golygyddol, llywodraethu a diwylliant y BBC, cyhoeddodd y BBC Gynllun Gweithredu ar ddidueddrwydd a safonau golygyddol. Rydym yn croesawu ymrwymiad y BBC i wella atebolrwydd ac olrhain cynnydd wrth gyflawni pob cam gweithredu yn y cynllun.  Bydd yn hollbwysig i'r BBC ddwyn ei hun i gyfrif yn drylwyr o ran sut y mae'n cyflawni'r camau y mae wedi'u nodi a'i bod yn adrodd yn dryloyw ar gynnydd. O ystyried y bwlch sydd i'w weld rhwng agweddau cynulleidfaoedd ar ddidueddrwydd y BBC a'i chofnod da o gydymffurfio â'r rheolau darlledu ar ddidueddrwydd dyladwy, mae'n bwysig i'r BBC ddod o hyd i ffyrdd creadigol a diddorol o gyflwyno – a dangos - i gynulleidfaoedd ei hymrwymiad i fod yn ddiduedd, a'i hymagwedd ato, er mwyn cadw ymddiriedaeth.

**Byddwn yn diweddaru rhan allweddol o'r ymchwil a gyflawnwyd gennym fel rhan o'n Hadolygiad Newyddion 2019.** Byddwn yn siarad â chynulleidfaoedd o amrywiaeth eang o gefndiroedd i ddeall y dylanwadau presennol ar eu canfyddiadau o ddidueddrwydd y BBC o ystyried cymhlethdod y mater hwn. Rydym yn bwriadu cyhoeddi hyn ochr yn ochr â'n hadroddiad i Lywodraeth y DU ar reoleiddio'r BBC yng ngwanwyn 2022.

## Mae diwydiant cyfryngau'r DU yn wynebu ei her fwyaf: mae'n rhaid i'r BBC barhau i esblygu er mwyn bod yn berthnasol i bob cynulleidfa

**Hyd yn oed ers 2017, bu twf enfawr yn y dewis o wasanaethau a chynnwys, datblygiadau mewn technoleg a newidiadau sylweddol mewn ymddygiadau cynulleidfaoedd.** Ochr yn ochr â chynnwys darlledu traddodiadol a gwasanaethau fideo-ar-alw am ddim (e.e. All4), mae defnyddwyr yn cael cynnwys o ystod eang o wasanaethau fideo-ar-alw tanysgrifio (SVoD) fel Netflix ac Amazon Prime, yn ogystal â llwyfannau rhannu fideos fel YouTube. Mae nifer yr aelwydydd yn y DU sydd â mynediad i o leiaf un gwasanaeth SVoD bron wedi dyblu: o 33% yn 2017 i 65% yn 2021.[5] Fel y nodwyd gennym yn ein datganiad *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr,* mae'r newid cyflym hwn yn y diwydiant yn ei gwneud yn anoddach i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSB) a darlledwyr radio gystadlu am gynulleidfaoedd.

**Mae'r angen am newid wedi'i gymhlethu gan bwysau ariannol sy'n debygol o barhau yn ail hanner cyfnod y Siarter.** Mae cyfanswm incwm y BBC wedi gostwng 4.5% mewn termau real ers 2017/18[6] er bod ffi'r drwydded yn rhoi sefydlogrwydd ariannol cymharol i'r BBC. Daeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i'r casgliad yn ei hadroddiad ar reolaeth ariannol strategol y BBC fod y BBC yn wynebu heriau ariannol sylweddol, a bod angen iddi barhau i wneud arbedion ar yr un pryd â buddsoddi mewn technoleg a mynd i'r afael â diffyg cyflymder sylfaenol wrth weithredu newid.

**Strategaeth esblygol y BBC i gystadlu am gynulleidfaoedd yw canolbwyntio ar gynnwys unigryw tra dylanwadol.** Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi dweud bod y BBC, yn y gorffennol, wedi taenu ei hun yn rhy denau yn ei ymgais i ymdopi â chystadleuaeth gynyddol. Dywedodd mai rôl y BBC yw *"cynnig gwerth eithriadol i bob cynulleidfa drwy gynhyrchu cynnwys 'rhaid ei gael' mwy amrywiol y maent yn teimlo sydd ar eu cyfer nhw."*[7] Gall hyn olygu cynhyrchu llai o oriau o gynnwys yn y pen draw ac mae'r BBC wedi herio ei hun i nodi'r hyn y byddai'n rhoi'r gorau i'w wneud pe bai'n cynhyrchu dim ond 80% o'i oriau presennol.[8]

**Mae'r BBC eisoes yn llwyddo i ddod â chynulleidfaoedd ynghyd yn llu, er enghraifft drwy ddrama, newyddion a digwyddiadau byw o ansawdd uchel.** Er enghraifft, roedd gan y gyfres ddiweddaraf *o Line Of Duty* y cyfraddau gwylio uchaf erioed: denodd y bennod olaf gynulleidfa gyfartalog o 16.4 miliwn o bobl.[9] Mae digwyddiadau byw fel Euros 2020 ac adloniant fel *Strictly Come Dancing* yn dod â gwylwyr at ei gilydd yn rheolaidd am brofiad a rennir. Mae mwy o bobl nag erioed wedi bod yn gwylio BBC iPlayer eleni, gyda cheisiadau i fyny 28% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.[10]

---

[5] Arolwg Sefydliadau BARB Ch2 ym mhob blwyddyn.
[6] Dadansoddiad Ofcom o Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC.
[7] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2020/21.
[8] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2020/21.
[9] Gwylio cyfunol BARB hyd at 28 diwrnod ar setiau teledu a dyfeisiau eraill.
[10] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2020/21.

**Fodd bynnag, cytunwn â barn y Cyfarwyddwr Cyffredinol nad yw'r BBC yn cyflwyno'n gyfartal i bob cynulleidfa.** Ers 2017, rydym wedi gweld yn gyson fod gan rai grwpiau cynulleidfa foddhad is â'r BBC, megis cynulleidfaoedd anabl, y rhai yn Yr Alban a'r rhai mewn aelwydydd DE. Noda ein hymchwil fod cynulleidfaoedd mewn aelwydydd DE yn gwneud defnydd arwyddocaol o lai o'r BBC yn gyffredinol, ynghyd â phobl ifanc 16-24 oed a phobl anabl dros 65 oed.[11]

**Mae'r BBC yn ceisio meithrin cysylltiadau cryfach â chynulleidfaoedd ifainc.** Rydym wedi nodi bod pobl ifanc yn tueddu i fod ag argraff gadarnhaol o'r gynnwys y maent yn ei ddefnyddio gan y BBC. Ers 2017, gan ymateb i ddirywiad mewn cyrraedd y grŵp oedran hwn, mae'r BBC wedi ehangu ei wasanaethau ar-lein: yn 2019 fe wnaethom gymeradwyo ei chynllun i gynyddu argaeledd cynnwys drwy ddatblygu BBC iPlayer y tu hwnt i wasanaeth dal i fyny 30 diwrnod. Lansiodd y BBC ei wasanaeth sain ar-lein, BBC Sounds,[12] yn 2018 fel rhan o'i strategaeth i fodloni ymddygiadau sain newidiol, yn enwedig ymhlith cynulleidfaoedd iau, ac mae'r gwasanaeth hwn wedi tyfu mewn poblogrwydd. Fodd bynnag, yn ôl data'r BBC, mae llai na thraean o'i ddefnyddwyr o dan 35 oed ac nid yw'r gyfran hon wedi tyfu.[13] Heddiw rydym hefyd wedi cytuno y dylai'r BBC allu ail-lansio BBC Three fel sianel deledu i helpu'r BBC i wasanaethu pobl ifanc. Yn gyffredinol, ar draws teledu, radio ac ar-lein, mae'r BBC yn cyrraedd tua'r un nifer o bobl ifanc 16-24 oed bob wythnos â Netflix (7 o bob 10). Mae BBC iPlayer ar ei ben ei hun yn cyrraedd tua 32% o'r grŵp oedran hwn.[14]

**Mae gwella sut mae cynulleidfaoedd yn teimlo y cânt eu cynrychioli a'u portreadu gan y BBC yn hanfodol i'w lwyddiant.** Os nad yw cynulleidfaoedd yn gweld pobl fel eu hunain ar y sgrin, neu bobl o ble maent yn byw, maent yn llai tebygol o uniaethu â'r BBC a'i defnyddio'n rheolaidd. Mae'n ddyletswydd ar y BBC i wasanaethu, adlewyrchu a chynrychioli pobl ledled y DU, ac yn 2018 bu i ni gynnal adolygiad manwl i ddeall sut roedd teledu'r BBC yn gwneud hyn. Ar gyfer yr adolygiad, bu i ni siarad yn helaeth â gwylwyr a phobl sy'n gweithio y tu ôl i'r camera: ymhlith pethau eraill, gwelsom fod rhai pobl yn teimlo'n llai gweladwy ar y teledu. Mae'r materion hyn yn parhau, yn enwedig ar gyfer cynulleidfaoedd yn Yr Alban, cynulleidfaoedd anabl a'r rhai mewn aelwydydd DE. Rydym eisoes wedi gofyn i'r BBC am gynllun clir, sy'n nodi sut y bydd yn gwasanaethu'r cynulleidfaoedd llai bodlon hyn yn well; rydym yn croesawu'r manylder ychwanegol y mae'r BBC wedi'u rhoi i ni eleni.

**Mae'r BBC yn cymryd camau i wella canfyddiadau ymhlith cynulleidfaoedd llai bodlon.** Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi rhoi gwerth sylweddol ar wella amrywiaeth economaidd-gymdeithasol gweithlu'r BBC i wasanaethu cynulleidfaoedd yn well. Mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod yn parhau i gomisiynu mwy o gynnwys teledu sy'n anelu at wasanaethu cynulleidfaoedd o amrywiaeth o gefndiroedd, a'i fod yn adnewyddu ei ffocws i recriwtio carfan lawer ehangach o ddoniau o amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol ac o ogledd Lloegr, i gyflwyno sioeau. Mae hefyd wedi nodi mentrau eraill, megis ymrwymiad ariannol gwerth £112m i wneud cynnwys amrywiol. Gallai strategaeth y BBC ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau, a nodir yn ei chynllun pum mlynedd, Across the UK, wneud cryn dipyn i wella cyrhaeddiad a chanfyddiadau ymhlith cynulleidfaoedd y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr. Bydd angen i'r BBC ddwyn ei hun i gyfrif yn drylwyr wrth gyflwyno'r mentrau hyn.

---

[11] Traciwr Perfformiad y BBC Ofcom 2020/21

[12] Disodlwyd BBC iPlayer Radio – gwasanaeth sain ar-lein blaenorol y BBC - gan BBC Sounds.

[13] Data'r BBC: AT Internet. Mae hyn yn gysylltiedig â'r cyfrifon lle mae manylion oedran wedi'u darparu i'r BBC.

[14] Traciwr Perfformiad Ofcom y BBC 2020/21.

**Fodd bynnag, fel darlledwyr eraill, mae mwy i'r BBC ei wneud o hyd i sicrhau bod ei gweithlu'n cynrychioli pobl o wahanol gefndiroedd.** Gall gweithlu amrywiol helpu i sicrhau bod y BBC yn parhau'n berthnasol i gynulleidfaoedd yn y DU, ar adeg pan na fu cystadleuaeth am eu sylw erioed yn fwy ffyrnig. Dylai cynulleidfaoedd gael eu cynrychioli'n briodol gan y rhai sy'n ffurfio'r diwydiant. Yn 2021, yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan y BBC i Ofcom, roedd dwywaith gynifer o bobl a oedd yn gweithio i wasanaethau cyhoeddus BBC UK wedi mynd i ysgolion preifat â chyfartaledd y DU (14% o gymharu â 7%) ac â rhieni mewn galwedigaethau proffesiynol pan oeddent yn 14 oed (61% o gymharu â 33%). Mae'r tueddiadau'n debyg i'r diwydiant darlledu yn gyffredinol, yn seiliedig ar y data cyfyngedig sydd gennym[15] Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi dweud bod y BBC yn gweithio ar darged gweithlu economaidd-gymdeithasol, a byddwn yn parhau i fonitro ymagwedd y BBC yn y maes hwn. Adroddodd y BBC iddi gyrraedd rhai o'i thargedau gweithlu ar gyfer 2016-2020, ond nid fu iddi gyrraedd ei thargedau cynrychiolaeth ar gyfer menywod, ar lefelau staff cyfan ac arweinyddiaeth, nac ychwaith o ran cynrychiolaeth cydweithwyr o leiafrifoedd ethnig mewn rolau arweinyddiaeth.

**Bydd angen hefyd i'r BBC ystyried ymagwedd fwy uchelgeisiol ac agored at ymdrin â phartneriaethau strategol gwirioneddol.** Yn ein hargymhellion *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* i Lywodraeth y DU, bu i ni nodi nifer o ffyrdd y gallai partneriaethau gefnogi trawsnewidiad parhaus y sector. Er enghraifft, bu i ni ddweud y gallai partneriaethau strategol gyda sefydliadau ar-lein helpu darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus presennol i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach. Nodwn fod y BBC eisoes yn cymryd rhan mewn llawer o bartneriaethau, yn enwedig gyda'r sector addysg. Mae hefyd wedi adnewyddu ac ehangu ei phartneriaeth hirdymor gyda Sky yn ddiweddar, a fydd yn sicrhau bod cynnwys a gwasanaethau'r BBC yn amlwg ar lwyfannau Sky. Mae'r BBC wedi penodi Cyfarwyddwr Partneriaethau newydd, sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, gan gydnabod y cyfle a'r potensial yn y ffordd y mae'r BBC yn ymdrin â phartneriaethau, ac yn ceisio gwella trosolwg strategol.

## Mae'n rhaid i gynnwys unigryw a gwreiddiol o'r DU sy'n adlewyrchu bywydau a materion cynulleidfaoedd y DU barhau i fod yn flaenoriaeth i'r BBC

**Mae ehangder y cynnwys a ddarperir gan y BBC yn ysgogydd pwysig i'w natur unigryw.** Ar hyn o bryd mae'r BBC yn cynnig ystod ehangach o genres nag unrhyw ddarparwr cynnwys arall. Mae hyn yn bwysig am ei fod yn galluogi'r BBC i gyrraedd amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd; dangosir bod gwahanol grwpiau cynulleidfa yn uniaethu â genres penodol. Efallai fod gan y fath raglennu gynulleidfaoedd llai ond mae'r rhai sy'n ei wylio neu'n gwrando arno yn ei werthfawrogi'n fawr. Wrth fynd ar drywydd ei strategaeth, bydd angen i'r BBC gydbwyso gwerth cynnwys tra dylanwadol ac amrywiaeth eang o gynnwys i gynnal ei harlwy nodedig ar gyfer pob cynulleidfa.

[15] Fel yr esboniwyd ar dudalennau 13, 32 a 33 Adolygiad pum mlynedd: Amrywiaeth a chyfle cyfartal mewn darlledu yn y DU (ofcom.org.uk), mae diffyg gwybodaeth am gefndir economaidd-gymdeithasol o hyd. Mae gennym ddata gweladwy (ar o leiaf un mesur o gefndir economaidd-gymdeithasol) ar gyfer 39% yn unig o gyflogeion radio, a 44% o gyflogeion teledu. Dim ond 12 o ddarlledwyr sy'n darparu'r wybodaeth hon.

**Mae cynnwys gwreiddiol o'r DU yn gonglfaen i'r ffordd y mae'r BBC yn cyflawni ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus.** Fel rhan o *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*, cytunodd rhanddeiliaid â'n hasesiad: er mwyn sicrhau y diwallir anghenion pob cynulleidfa, mae'n hanfodol bod y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus (PSM) yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys o ansawdd uchel o'r DU. Mae angen i'r cynnwys hwn gwmpasu pob genre ac apelio at gynulleidfaoedd sydd â diddordebau amrywiol, er mwyn sicrhau ei fod yn darparu rhywbeth i bawb.

> ***"Wn i ddim ble y byddwn i os nad oedd gennyf deledu (PSB) nawr... mae i'w weld yn rhoi hwb i forâl, ymdeimlad o normalrwydd. Rwy'n meddwl gyda Netflix, gallaf gyrraedd pwynt lle rwy'n cael llond bol, mae rhai darnau ohono ychydig yn rhy Americanaidd a dim ond cymaint o hynny y gallaf ei oddef." [16]-– (Menyw, 25-39 oed, Belfast)***

Mae buddsoddi mewn cynnwys gwreiddiol yn y DU gan y BBC yn hanfodol o ran sicrhau naws unigryw, yn enwedig wrth ddarparu genres sydd mewn perygl fel y celfyddydau, cerddoriaeth a chomedi, sy'n llai tebygol o gael eu darparu gan eraill, a lle mae gwariant y BBC wedi gostwng yn gyflymach na mewn genres eraill.

**Mae gan y BBC ran bwysig i'w chwarae yn sector creadigol y DU hefyd;** mae ei gyfraniad at wariant darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar raglennu gwreiddiol a gynhyrchir yn allanol wedi codi bob blwyddyn dros gyfnod y Siarter, o 35% yn 2017 i 44% yn 2020. Mae'r BBC yn gweithio gydag ystod eang o gynhyrchwyr: 340 yn 2020. Rydym yn credu bod gan y BBC rôl arbennig o bwysig i'w chwarae yn y gwledydd a'r rhanbarthau. O dan y Drwydded Weithredu newydd a gyflwynwyd gennym yn 2017, bu i ni bennu rheolau a fynnodd i'r BBC wario'n fras yr un maint ar raglenni y pen, a gwneud yn fras yr un maint o gomisiynau y pen, ym mhob un o bedair gwlad y DU. Bu'r flwyddyn hon yn unigryw o ganlyniad i effaith Covid-19, gan olygu bod y BBC heb gyflawni ei holl ofynion yn y gwledydd am y tro cyntaf. Bydd hyn yn destun adolygiad agos gennym wrth i'r sector ymadfer yn sgil y pandemig.

**Mae cyfanswm gwariant y BBC ar gynnwys teledu gwreiddiol wedi bod yn dirywio dros y tymor hir**, **gan ostwng o £1.6bn yn 2010 i £1.2bn yn 2019**, er bod nifer yr oriau o gynnwys bob blwyddyn wedi aros yn gymharol sefydlog. Dwysawyd y gostyngiad hwn gan Covid-19, pan ostyngodd gwariant ar allbwn gwreiddiol a ddarlledwyd am y tro cyntaf 15.9% yn 2020. Ochr yn ochr â chomisiynau gwreiddiol, gall y BBC ddefnyddio cynnwys a gaffaelir i apelio at wahanol gynulleidfaoedd ac i ddenu rhai newydd. Er hynny, byddem yn pryderu pe bai caffaeliadau'n chwarae rôl rhy fawr yng nghymysgedd cynnwys cyffredinol y BBC: credwn ei bod yn bwysig i'r BBC gadw at ei ymrwymiad i ganolbwyntio ar gynnwys gwreiddiol o'r DU ar gyfer pob cynulleidfa. Yn ein gwaith o adolygu'r Drwydded Weithredu byddwn yn ystyried sut i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn parhau i elwa o arlwy eang o gynnwys gwreiddiol.

[16] Ymchwil ansoddol *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*

## Dylai penderfyniadau tryloyw, adrodd, atebolrwydd ac ymgysylltu â diwydiant gael eu hymgorffori ymhellach yn nulliau gweithio y BBC

**O ystyried y sefyllfa werthfawr sydd gan y BBC i lawer o bobl ledled y DU, dylai fod yn fwy agored i esbonio'n gyhoeddus y penderfyniadau y mae'n eu gwneud sy'n effeithio ar gynulleidfaoedd a diwydiant y DU.** Mae tryloywder yn hanfodol er mwyn cynnal ymddiriedaeth a chefnogaeth y cyhoedd yn y BBC. Ers 2017 rydym wedi codi hyn fel maes allweddol lle gallai'r BBC wella. Mae tryloywder yn gysylltiedig â llu o weithgareddau, megis sut mae'r BBC yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddeall effaith bosib ei newidiadau arfaethedig ar y farchnad, sut mae'n esbonio ei chynlluniau a'i hadroddiadau ar ei pherfformiad, a sut mae'n esbonio ei phenderfyniadau ar safonau o ran cynnwys ac yn datrys cwynion.

---

***“Fel sefydliad a ariennir yn gyhoeddus mewn cymdeithas sy'n gynyddol agored, mae'n rhaid i'r BBC barhau i chwilio am gyfleoedd i wella tryloywder ymhellach.” – Adolygiad Serota***

---

**Mae gwelliannau wedi bod ers 2017 yn y ffordd y mae'r BBC yn adrodd ar ei chynlluniau a'i strategaeth i gyflawni'r Dibenion Cyhoeddus,** yn ei hymrwymiadau cyhoeddus yng Nghynllun Blynyddol y BBC, ac yn ei Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol sy'n cysylltu'n ôl â blaenoriaethau strategol y Cyfarwyddwr Cyffredinol a gyhoeddwyd y llynedd. Rydym hefyd wedi gweld gwelliannau mewn adrodd ar BBC iPlayer a BBC Sounds. Fodd bynnag, mae rhagor i'w wneud i ymwreiddio cyfraniad y gwasanaethau hyn at y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus yn llawn yn adroddiadau perfformiad y BBC. Nid yw mesur darpariaeth ar-lein yn effeithiol yn fater sy'n unigryw i'r BBC ac rydym yn ystyried dulliau mesur ar gyfer y system PSM yn y dyfodol, gan ddilyn ein datganiad *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*.

**Mae tryloywder o ran ymdrin â chwynion wedi gwella fesul cam ers 2017 ond mae mwy i'w wneud o hyd i gynnal hyder y cyhoedd ym mhrosesau gwneud penderfyniadau golygyddol y BBC**: dyma un o gasgliadau Adolygiad Serota hefyd. Gan ddilyn ymyriad gan Ofcom, mae'r BBC bellach yn cyhoeddi manylion ei holl benderfyniadau a gynhelir, a gynhelir yn rhannol ac a ddatrysir yng ngham olaf ei Fframwaith Cwynion. Er hynny, yn 2020/21 ni chyhoeddodd y BBC unrhyw benderfyniadau 'nas cynhelir' a wnaed gan yr Uned Cwynion Gweithredol o dan ein Penderfyniadau Cwynion.[17] O ystyried pwysigrwydd yr anghenraid i'r BBC fod mor dryloyw â phosib wrth esbonio ei benderfyniadau ar safonau golygyddol i gynulleidfaoedd, byddwn yn trafod gyda'r BBC pam y bu i hyn ddigwydd. Nodwn i Adolygiad Serota argymell y dylai'r BBC gyhoeddi, gyda rhesymu digonol, canfyddiadau unrhyw ymchwiliadau i achosion difrifol o dorri Canllawiau Golygyddol y BBC. Mae'n argymell hefyd y caiff Fframwaith Cwynion y BBC ei ddiweddaru i ddarparu tryloywder ynghylch rôl gyffredinol y Cyfarwyddwr Cyffredinol mewn ymchwiliadau i safonau golygyddol ac i esbonio sut mae'r BBC yn ymdrin â chwynion wedi'u hwyluso ynghylch cynnwys darlledu neu gyhoeddedig pan fo'n rhaid gwneud penderfyniad yn gyflym. Fel rhan o'n hadolygiad parhaus o reoleiddio'r BBC, byddwn yn ymgysylltu â'r BBC ar y diwygiad diweddaraf o'n Penderfyniadau Cwynion i gynyddu tryloywder y

[17] Mae Penderfyniadau Cwynion Ofcom yn amlinellu'r gofynion ar gyfer adrodd a chyhoeddi gwybodaeth am y ffordd y mae'r BBC yn ymdrin â chwynion yng nghamau 1 a 2 Fframwaith Cwynion y BBC.

BBC ymhellach yn y maes hwn ac i esbonio ei phenderfyniadau terfynol ynghylch cwynion yn llawnach i gynulleidfaoedd, yn enwedig ym maes didueddrwydd dyladwy.

**Mae ymgysylltiad y BBC â diwydiant ar newidiadau arfaethedig i'w wasanaethau yn parhau i fod yn gymysg.** Er ein bod yn parhau i glywed gan randdeiliaid nad yw cynlluniau'r BBC yn cynnwys digon o fanylder (er enghraifft, y rhai mewn perthynas â datblygu BBC Sounds), bu rhai enghreifftiau cadarnhaol o'r BBC yn cyfathrebu'n rhagweithiol â diwydiant, yn enwedig ar ei strategaeth addysg ac yn fwy diweddar drwy gyhoeddi ei strategaeth Across the UK. Trwy gyhoeddi ei ddyheadau ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau yn gynnar, mae'r BBC yn galluogi sefydliadau efallai yr effeithir arnynt i ymateb gydag unrhyw faterion neu bryderon cyn rhoi nhw ar waith. Dylai'r BBC wneud mwy o hyn a sicrhau ei bod yn darparu digon o wybodaeth i alluogi rhanddeiliaid i ddeall yr effaith bosib ar gystadleuaeth mewn cam cynnar. Mae hyn yn debygol o'i gwneud yn ofynnol iddi ddarparu mwy o wybodaeth am ei newidiadau arfaethedig nag y gallai gweithredwyr masnachol eu datgelu ynglŷn â'u strategaethau eu hunain.

**Mae'n hanfodol bod y BBC yn dwyn ei hun i gyfrif drwy brosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau trylwyr a thrwy nodi'n glir sut y bydd yn gweithredu ei strategaethau a'i mentrau, yn mesur eu llwyddiant ac yn adrodd ar eu heffeithiau.** Mae'n bwysig i'r BBC ddadansoddi ei pherfformiad ei hun, sicrhau ei bod yn cynnal y safonau golygyddol uchaf, a deall yr effaith y mae'n ei chael ar gystadleuaeth. Nid yw'n anochel y bydd y camau y mae'r BBC yn eu cymryd yn sicrhau gwelliannau i gynulleidfaoedd. Mae'n bosib na fydd rhai mentrau'n gweithio neu efallai na fyddant yn cael yr effaith a fwriedir.  Mae'n rhaid i'r BBC olrhain yn drylwyr ei chynnydd o ran cyflwyno ei chynlluniau yn erbyn metrigau a ddiffinnir yn glir. (e.e. ar amrywiaeth, cynhwysiad, ledled y DU, cynnwys tra dylanwadol a newidiadau i wasanaethau). Dyma'r unig ffordd y bydd y BBC yn gwybod a yw ei strategaethau'n gweithio, neu a oes angen eu hailystyried.

**Bydd tryloywder yn ffocws allweddol i'n gwaith ar adolygu rheoleiddio'r BBC ar draws cystadleuaeth, safonau o ran cynnwys a newidiadau i'r Drwydded Weithredu.** Mae mwy o dryloywder o ran sut mae'r BBC yn amlinellu ei chynlluniau i ddarparu ei wasanaethau, yn ystyried ei effaith bosib ar gystadleuaeth ac yn adrodd ar ei pherfformiad yn feysydd allweddol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os yw'r Drwydded Weithredu nesaf yn rhoi mwy o gyfle i'r BBC benderfynu sut i gyflawni ei rhwymedigaethau trwydded.[18] Credwn y bydd yn bwysig i'r BBC ddilyn cylch adrodd clir a strwythuredig sy'n caniatáu i randdeiliaid a chynulleidfaoedd ddeall strategaeth a chynlluniau gweithredu'r BBC a sut mae'r BBC yn perfformio yn eu herbyn. Rydym yn gweithio gyda'r BBC i ddeall ystod lawn y data perfformiad y mae'n ei gywain a'r ffordd orau o ddefnyddio hyn i ddangos ei pherfformiad a'i dwyn i gyfrif o dan drwydded newydd.

[18] Bu i ni ymgynghori ar ein hymagwedd ym mis Gorffennaf 2021, gan nodi dechrau ein hadolygiad o reoleiddio'r BBC.

# Ein rhaglen waith

Yn yr adran hon rydym yn esbonio sut mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â'n rhaglen waith gyffredinol ar gyfer y BBC, gan gynnwys ein hadolygiad parhaus o reoleiddio'r BBC wrth i ni nesáu at hanner ffordd trwy'r Siarter.


Rydym hefyd yn crynhoi ein penderfyniadau ar BBC Sounds a BBC Three sy'n cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

## Mae'r adroddiad hwn yn ystyried perfformiad y BBC dros gyfnod y Siarter hyd yma

Wrth i ni nesáu at ganol cyfnod Siarter presennol y BBC (sy'n rhedeg tan 2027), mae'n rhaid i ni roi cyngor i'r Llywodraeth y DU ar gyfer ei hadolygiad hanner ffordd trwy'r Siarter.[19] Rydym yn bwriadu defnyddio'r cyfle hwn i adeiladu ar gasgliadau *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*, ac ystyried ein gwaith rheoleiddio ar y BBC dros pob maes cyfrifoldeb dros y pedair blynedd diwethaf, i sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben o ran dal y BBC i gyfrif ar ran gwylwyr a gwrandawyr. Fel y nodir yn *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*, mae angen penodol i ddiweddaru Trwydded Weithredu'r BBC. Byddwn hefyd yn ystyried a oes angen i ni ddiweddaru agweddau eraill ar ein gwaith rheoleiddio ar gyfer gweddill cyfnod y Siarter.

Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at ein hadolygiad o reoleiddio'r BBC, drwy edrych yn ôl dros gyfnod y Siarter hyd yma i asesu i ba raddau mae'r BBC wedi cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus ers mis Ebrill 2017. Rydym hefyd yn ystyried sut mae'r BBC wedi ymateb i'r pryderon rydym wedi'u codi, gan nodi lle mae gwelliannau wedi cael eu gwneud a lle mae mwy o waith i'r BBC ei wneud. Byddwn yn mynd ar drywydd materion penodol yn fanylach fel rhan o'n hadolygiad parhaus o reoleiddio'r BBC.

**Ffigur 1: Trosolwg o'n rhaglen waith ar y BBC**




[19] Mae'r Siarter hefyd yn datgan y dylai'r 'Adolygiad Cyfnodol' gael ei gynnal "mewn da bryd" i gyfrannu at adolygiad hanner ffordd trwy'r Siarter Llywodraeth y DU, y mae'n rhaid i Lywodraeth y DU ei gynnal rhwng 2022 a 2024. Erthyglau 51(2) a 57 y Siarter.

## Y diweddaraf am ein hadolygiad o reoleiddio

Roeddem wedi ymgynghori ynghylch dull gweithredu ar gyfer ein hadolygiad o reoleiddio'r BBC ym mis Gorffennaf 2021. Fe wnaethom nodi sut roeddem yn bwriadu adolygu ein rôl rheoleiddio ar draws ein gwaith ar berfformiad, cystadleuaeth a safonau o ran cynnwys ac fe wnaethom nodi'r themâu trawsbynciol allweddol – tryloywder ac ymgysylltu, gwerthu cyhoeddus ac amrywiaeth – y byddem yn eu hystyried fel rhan o'n hadolygiad.

Daeth ein hymgynghoriad i ben ym mis Medi 2021, ac rydym nawr yn ystyried y pwyntiau a godwyd gan yr ymatebwyr. Yn gyffredinol, roeddent yn croesawu cwmpas ein hadolygiad ac yn teimlo ein bod wedi nodi'r meysydd a'r themâu allweddol cywir i edrych arnynt. Rydym wedi darparu crynodeb lefel uchel o ymatebion rhanddeiliaid ar feysydd gwaith penodol isod, a byddwn yn rhoi rhagor o fanylion yn ein hadroddiad ar reoleiddio'r BBC y flwyddyn nesaf. Byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion i'n hymgynghoriad maes o law. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r BBC a rhanddeiliaid eraill dros y misoedd nesaf wrth i ni ddatblygu ein safbwyntiau ar y materion rydym wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad, ein hargymhellion i Lywodraeth y DU a'n cynigion ar gyfer Trwydded Weithredu newydd.

Yn ddiweddar, rydym wedi comisiynu rhagor o ymchwil i sut mae anghenion cynulleidfaoedd, a'u disgwyliadau o'r BBC, wedi newid, o ystyried yr amrywiaeth enfawr o ddewis sydd ar gael yn awr. Byddwn yn defnyddio hyn fel sail i'n gwaith yn y maes hwn, gan ddarparu cyd-destun pwysig ar gyfer asesiadau'r BBC yn y dyfodol a bydd yn caniatáu i ni sicrhau bod ein canfyddiadau wedi'u gwreiddio yn yr hyn sy'n bwysig i gynulleidfaoedd.

### Perfformiad – ein hadolygiad o'r Drwydded Weithredu

Fel rhan o'n hadolygiad o reoleiddio'r BBC rydym yn ystyried sut dylai Trwydded Weithredu'r BBC esblygu i adlewyrchu arferion a disgwyliadau cynulleidfaoedd, ac er mwyn i'r BBC allu cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus ar draws ei wasanaethau darlledu ac ar-alw. Roedd ein hymgynghoriad yn nodi ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer gwneud hyn, gan gynnwys cynigion y dylai'r Drwydded Weithredu ehangu i gynnwys gwasanaethau ar-lein y BBC (fel BBC iPlayer a BBC Sounds) yn fwy cynhwysfawr. Roeddem hefyd wedi dweud y dylai'r BBC gael y cyfle i benderfynu ar y ffordd orau o gyflawni rhwymedigaethau ei drwydded ar draws ei lwyfannau a'i wasanaethau. Roeddem yn glir bod angen mwy o dryloywder a mwy o adrodd effeithiol gan y BBC, pan fydd yn nodi ei gynlluniau a phan fydd yn adrodd ar ei berfformiad. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn nodi'r angen i ddiweddaru ein dull o fesur perfformiad.

Roedd rhanddeiliaid yn cytuno y dylai'r drwydded esblygu a chefnogi ein cynigion i ymgorffori gwasanaethau ar-alw'r BBC yn llawn. Roeddent yn cytuno bod angen i'r BBC fod yn fwy tryloyw ynghylch ei weithgareddau. Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu a fyddai modd dal y BBC i gyfrif drwy ofynion ansoddol ac yn awgrymu y byddai effaith niweidiol ar rai cynulleidfaoedd pe bai rhai cwotâu'n cael eu dileu. Cynigiwyd hefyd y byddai'n bosibl i BBC heb gwotâu fod yn llai unigryw ac y gallai hynny effeithio'n negyddol ar gystadleuaeth.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid dros y misoedd nesaf wrth i ni ddatblygu ein safbwyntiau ar y materion rydym wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad a'n cynigion ar gyfer trwydded newydd. Bydd cyfle arall i randdeiliaid a'r BBC roi sylwadau ar ein cynigion manwl ar gyfer y

Drwydded Weithredu yng ngwanwyn 2022, ac rydym yn bwriadu cael trwydded newydd erbyn mis Ebrill 2023.

### Adolygu sut rydym yn rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth

Yn y gorffennol, wrth gynnal asesiadau cystadleuaeth, rydym wedi mynegi pryderon nad yw'r BBC bob amser wedi ymgysylltu'n llawn â'r diwydiant ynghylch ei gynlluniau nac wedi dangos sut mae wedi ystyried pryderon rhanddeiliaid. Yn ein hymgynghoriad, fe wnaethom nodi ein cynllun i ystyried a oedd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r prosesau cystadleuaeth presennol o ystyried ein profiad ni a phrofiad rhanddeiliaid dros y pedair blynedd diwethaf.

Mewn ymateb i'n hymgynghoriad, roedd llawer yn dadlau nad yw'r BBC yn ddigon tryloyw wrth bennu cynlluniau i newid ei wasanaethau ac nad yw'n ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid nac yn ystyried eu pryderon. Roedd rhai rhanddeiliaid hefyd yn dadlau nad yw'r drefn reoleiddio bresennol yn darparu digon o oruchwyliaeth ar newidiadau i wasanaethau'r BBC. Roedd rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y BBC, o'r farn y gellid gwneud y broses bresennol yn fwy effeithlon.

### Adolygu sut rydym yn diogelu cynulleidfaoedd ac yn cynnal safonau o ran cynnwys

Rydym yn nodi ein cynllun i adolygu a yw'r broses gwynion BBC yn Gyntaf yn parhau i gyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd. Mae BBC yn Gyntaf yn broses unigryw sydd wedi'i chynllunio i gwrdd â heriau penodol rheoleiddio'r BBC. Mae'n caniatáu i'r BBC ystyried a datrys cwynion am gynulleidfaoedd cyn iddynt gyrraedd Ofcom, proses nad yw'n berthnasol i ddarlledwyr eraill rydym yn eu rheoleiddio.

Mewn ymateb i'n hymgynghoriad, roedd llawer o randdeiliaid, gan gynnwys y BBC, wedi cefnogi ein dull o adolygu'r system BBC yn Gyntaf. Cododd rhai rhanddeiliaid bwyntiau penodol ynghylch effeithiolrwydd y system.

## Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, rydym hefyd wedi cyhoeddi ein penderfyniadau ar BBC Three a BBC Sounds

### Sianel deledu BBC Three

Eleni, fe wnaethom gynnal asesiad cystadleuaeth o gynnig y BBC i ail-lansio BBC Three fel sianel ddarlledu, fel rhan o'i strategaeth i ymgysylltu'n well â chynulleidfaoedd iau. Ar ôl ymgynghori, rydym wedi penderfynu y dylid caniatáu i'r BBC fwrw ymlaen â'r cynnig. Er mwyn sicrhau bod y cynigion yn cyfrannu at gyflawni Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC, bydd BBC Three yn rhwym wrth amodau Trwydded Weithredu newydd.[20]

Ochr yn ochr â'r broses hon, roeddem wedi ystyried pa lefel sylfaenol briodol o amlygrwydd y dylid ei rhoi i BBC Three ar y cyfeiryddion rhaglenni electronig trwyddedig (EPGs). Gwnaethom asesu effaith bosibl y penderfyniad hwn ar ddarparwyr EPG a darlledwyr eraill ac rydym wedi penderfynu y

[20] Sef: o adeg lansio'r gwasanaeth rhaid i'r sianel ddarparu cynnwys newyddion bob diwrnod o'r wythnos, darparu amrywiaeth o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ac a fydd yn apelio at bobl 16-34 oed ar draws amrywiaeth o genres, a bod yn rhaid i 75% o'i horiau darlledu fod yn rhaglenni gwreiddiol o'r DU.

dylai BBC Three gael amlygrwydd sylfaenol yn slot 24. Bydd y darparwyr yn cael hyd at 18 mis i roi ein penderfyniad ar waith.

## Lleoliad marchnad a dylanwad BBC Sounds

Ar ôl ymgynghori'n gynharach eleni, rydym wedi dod i'r casgliad nad oes gennym ni sail resymol dros gredu bod BBC Sounds yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Felly, ni fyddwn yn cynnal adolygiad cystadleuaeth o BBC Sounds. Ceir tystiolaeth gref sy'n dangos: bod radio masnachol wedi bod yn fwy llwyddiannus na BBC Sounds o ran denu gwrandawyr ar-lein; bod gwrandawyr BBC Sounds yn tueddu i ddefnyddio nifer o lwyfannau; a bod gan sector podlediadau'r DU amrywiaeth eang o gynnwys nad yw'n dod gan y BBC er mwyn i gynhyrchwyr allu cynhyrchu refeniw masnachol.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gan y BBC safle cryf yn sector radio a sain y DU. Mae hi'n bwysig felly bod y BBC yn ystyried yn ofalus sut gallai newidiadau pellach yn y maes hwn, gan gynnwys i BBC Sounds, effeithio ar gystadleuaeth. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro newidiadau o'r fath.

# Ein hasesiad perfformiad

Yn yr adran hon rydym yn rhoi trosolwg byr o ddatblygiadau allweddol yn y farchnad ac yn crynhoi perfformiad cyffredinol y BBC dros gyfnod y Siarter. Mae'r defnydd cyffredinol o'r BBC yn dal yn gryf er gwaethaf mwy o gystadleuaeth am sylw cynulleidfaoedd gan ddarparwyr ar-lein.

## Sut rydym yn cynnal ein hasesiad

Gan ddefnyddio'r fframwaith mesur a gyhoeddwyd gennym yn 2017, rydym yn asesu perfformiad y BBC er mwyn rhoi darlun cyffredinol o i ba raddau mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, y tu hwnt i'r amodau rheoleiddio yn y Drwydded Weithredu.

Rydym yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer ein sylfaen dystiolaeth, gan gynnwys ffynonellau yn y diwydiant fel BARB, ffynonellau trydydd parti, data a gawn gan y BBC a'r ymchwil rydym yn ei gomisiynu ein hunain.

Mae pob rhan o gymdeithas wedi teimlo effeithiau'r cyfnod clo ac mae'n rhoi cyd-destun pwysig ar gyfer ein hasesiad eleni. Roedd hyn hefyd wedi effeithio ar ymchwil i'r farchnad gan fod dulliau wyneb yn wyneb o ymgysylltu â chynulleidfaoedd wedi dod i ben. Cafodd hyn effaith uniongyrchol ar sut roeddem wedi gallu cynnal ein hasesiad: roedd y corff mesur cynulleidfaoedd swyddogol ar gyfer y diwydiant radio, RAJAR, wedi gohirio ei waith maes ar ddechrau'r cyfnod clo, felly doedd dim data wedi'i gyhoeddi am radio'r BBC ar gael. Mae newidiadau i'r ffordd rydym yn cynnal ein hymchwil ein hunain hefyd wedi cyfyngu ar ein gallu i wneud cymariaethau dros amser.

Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, rydym hefyd wedi cyhoeddi adroddiad perfformiad rhyngweithiol, sy'n darparu llawer iawn o ddata ar gyfer ein hasesiad, ar gyfer pob llwyfan ac ar draws Dibenion Cyhoeddus 1 - 4. Gellir tywys y defnyddiwr gam wrth gam drwy bob un o'r mesurau neu ddewis y Diben neu'r llwyfan sydd o ddiddordeb penodol. Mae'r adroddiad rhyngweithiol hefyd yn cynnwys manylion y ffynonellau y cyfeiriwn atynt yn ein hasesiad.

Eleni, am y tro cyntaf, mae ein hadroddiad yn cynnwys adolygiad byr o berfformiad y BBC World Service o ran cyfrannu at y Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus. Mae'r BBC World Service yn cyflawni'r Pumed Diben Cyhoeddus yn bennaf.[21] Nid yw Ofcom yn rheoleiddio'r BBC World Service, felly nid yw hyn fel arfer yn cael ei gynnwys yn ein hadroddiad blynyddol ar y BBC. Fodd bynnag, fel rhan o'n hasesiad o berfformiad dros gyfnod y Siarter, rydym wedi'i ystyried yn adran Diben Cyhoeddus 5 yr adroddiad hwn.[22]

[21] Er mwyn adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd: Dylai'r BBC sicrhau darpariaeth newyddion o safon uchel i gynulleidfaoedd rhyngwladol, sy'n seiliedig ar werthoedd Prydeinig o ran cywirdeb, didueddrwydd a thegwch. Dylai ei wasanaethau rhyngwladol roi'r Deyrnas Unedig yng nghyd-destun y byd, gan wella dealltwriaeth pobl o'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol, gan gynnwys y gwledydd a'r rhanbarthau lle bo hynny'n briodol. Dylai sicrhau ei fod yn cynhyrchu allbwn a gwasanaethau y bydd pobl yn eu mwynhau yn y Deyrnas Unedig ac ym mhedwar ban byd.

[22] Cytundeb y BBC, cymal 35(7).

## Datblygiadau allweddol yn y farchnad

Yn ogystal ag ystyried cystadleuaeth yn y sector, mae'n bwysig ein bod yn deall yr amgylchedd y mae'r BBC yn gweithredu ynddo, o ran tueddiadau cynulleidfaoedd yn gyffredinol ac arferion sy'n newid. Mae'r rhain yn ffactorau cyd-destunol pwysig rydym yn eu hystyried yn ein hasesiad o berfformiad y BBC.

### Mae cynulleidfaoedd nawr yn disgwyl cynnwys ar-alw a digidol

Mae'r dirwedd cyfryngau wedi newid yn gyflym ers dechrau cyfnod presennol y Siarter, gyda chynulleidfaoedd yn disgwyl rhagor o gynnwys pan fydd arnynt ei eisiau ac ar y ddyfais o'u dewis. Fel y nodwyd yn ein datganiad diweddar ar ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus (datganiad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus), yn ogystal â ffynonellau cyfryngau traddodiadol, mae ystod eang o wasanaethau eraill, o gyfryngau cymdeithasol i lwyfannau gemau ar-lein, yn cystadlu fwyfwy am sylw cynulleidfaoedd. Mae bron pob oedolyn sydd ar-lein (97%) wedi defnyddio gwasanaethau rhannu fideos fel YouTube[23] ac mae'r gwasanaethau hyn yn parhau i ddod yn fwy poblogaidd yn gyflym. Mae mwy o wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD) ar gael, fel Disney+. Yn 2017, roedd 29% o oedolion wedi gwylio gwasanaethau SVoD bob wythnos; erbyn hanner cyntaf 2021 roedd hyn bron wedi dyblu i 55%.[24] Mae disgwyl i'r newidiadau hyn mewn tueddiadau cynulleidfaoedd barhau.

### Eleni, mae'r pandemig Covid-19 wedi cyflymu'r tueddiadau presennol mewn gwylio ar-lein

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r cyfnod clo wedi newid ymddygiad cyfryngau cynulleidfaoedd, gan eu bod wedi chwilio am gynnwys i gadw eu hunain a'u teuluoedd yn brysur. Roedd y rheidrwydd i 'aros gartref' wedi dylanwadu'n sylweddol ar sut roedd cynulleidfaoedd yn defnyddio'r cyfryngau: roedd dod â chymudo i ben bron yn gyfan gwbl wedi effeithio ar wrando arferol ar y radio; roedd mwy o amser gartref yn golygu bod cynulleidfaoedd yn chwilio am gynnwys newydd a hyd yn oed yn tanysgrifio o'r newydd i wasanaethau; roedd cynyrchiadau naill ai'n cael eu hatal neu roedd effaith sylweddol arnynt gan fod angen i ddarlledwyr ddiogelu eu staff ac yna ddod o hyd i ffyrdd arloesol o ddal ati i gynhyrchu.

Fel y nodwyd yn Cyfryngau'r Genedl, mae maint y cynnwys clywedol sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredinol wedi cynyddu ar draws bron i bob math o wylio fideo o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ar y cyfan, yr amser cyfartalog a dreuliwyd yn gwylio teledu a ddarlledir yn 2020 oedd 3 awr a 12 munud y pen. Roedd hyn naw munud (5%) yn uwch na'r amser cyfartalog a dreuliwyd yn 2019, yn gwrthdroi'r duedd am i lawr a welwyd dros y degawd diwethaf ac yn cael ei sbarduno'n llwyr gan wylwyr dros 45 oed. Nid oedd y pandemig wedi newid lefelau gwylio teledu wedi'i ddarlledu ar gyfer pobl dan 45 oed a oedd yn gwylio llai nag yn 2019.[25] Mae gwylio SVoDs ar gyfartaledd bron wedi dyblu i amcangyfrif o 1 awr 5 munud y dydd y pen, wrth i'r nifer sy'n gwylio gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr ('BVoD'), fel BBC iPlayer, ITV Hub ac All 4, gynyddu 9% i amcangyfrif o 12 munud y pen y diwrnod yn 2020.[26]

---

[23] Adroddiad Ofcom Profiad defnyddwyr o niwed ar-lein posibl mewn llwyfannau rhannu fideos.
[24] IPA TouchPoints.
[25] BARB.
[26] Amcangyfrifon Ofcom wedi'u modelu o ddata BARB, Comscore ac IPA TouchPoints. Mae'r amcangyfrifon yn gyfartaledd y pen o'r boblogaeth teledu ac ar-lein, nid defnyddwyr. Mae rhagor o fanylion ar gael ar dudalennau 7 - 8 Cyfryngau'r Genedl 2021.

Mae'r her i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys y BBC, yn amlwg o ymchwil, sy'n awgrymu bod dwy ran o bump o'r rheini sy'n defnyddio gwasanaethau SVoD yn dweud eu bod yn gallu rhagweld 'peidio â gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu o gwbl' bum mlynedd o heddiw.[27] Nid yw llawer o'r cynulleidfaoedd roeddem wedi siarad â nhw yn ystyried bod gwasanaethau SVoD yn debyg i wasanaethau dal i fyny darlledwyr fel BBC iPlayer; yn hytrach, mae SVoDs yn cael eu hystyried fel ystod ehangach o gynnwys, ac fel ffynonellau cynnwys newydd, yn ogystal â chael swyddogaethau gwell gan gynnwys chwilio ac argymhellion. I'r gwrthwyneb, mae gwasanaethau darlledwyr yn cael eu hystyried yn gyffredinol fel gwasanaethau dal i fyny ar gyfer cynnwys sy'n cael ei golli ar sianeli teledu traddodiadol.[28]

## Mae gwrando ar-lein yn cynyddu

Fel rhan o'n datganiad ynghylch safle BBC Sounds yn y farchnad a'i effaith ar y farchnad a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, rydym yn rhoi trosolwg manwl o sut mae'r farchnad sain wedi esblygu. At ei gilydd, mae gostyngiad graddol wedi bod yn y nifer sy'n gwrando ar y radio, sy'n cael ei sbarduno'n benodol gan ostyngiad yn y nifer sy'n gwrando ar radio'r BBC ac ar orsafoedd masnachol lleol. Mae gorsafoedd masnachol cenedlaethol wedi mynd yn groes i'r duedd hon ac mae'n ymddangos eu bod wedi elwa o'r cynnydd yn nifer y gorsafoedd ers 2016. Bu cynnydd yn y nifer sy'n gwrando ar sail ar-lein, ond mae hyn wedi cael ei sbarduno gan wasanaethau ffrydio cerddoriaeth; mae'r newid o wrando ar radio traddodiadol wedi bod yn arafach i newid i lwyfannau ar-lein. Ar ddechrau cyfnod y Siarter, roedd 26% o oedolion yn gwrando ar wasanaeth ffrydio bob wythnos, gan godi i 45% ar ddechrau 2021.[29]

## Mae cwmnïau 'technoleg mawr' byd-eang wedi cynyddu'r gystadleuaeth yn y farchnad cynnwys

Fel rydym yn ei nodi yn ein datganiad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, mae gan y cwmnïau byd-eang mawr sydd nawr yn cystadlu â darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU lawer mwy o adnoddau ariannol, sy'n golygu eu bod yn gallu buddsoddi'n helaeth yn eu llwyfannau ac mewn cynnwys newydd. Mae Netflix wedi dweud ei fod yn bwriadu gwario dros $17 biliwn ar gynnwys yn 2021.[30] Ym mis Tachwedd 2020, roedd Netflix wedi cyllidebu ar gyfer gwariant o £750m ar gynnwys yn y DU yn unig, cynnydd o 50% ar y flwyddyn flaenorol, gan wneud y DU yn ail farchnad fwyaf iddo ar ôl yr Unol Daleithiau. Er bod hyn yn newyddion gwych i gynulleidfaoedd y DU ac i economi ehangach y DU, mae'n her sylweddol i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Ers 2010 mae cyllidebau cynnwys darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus wedi bod dan bwysau (roedd gwariant uniongyrchol ar raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf wedi disgyn o £3.3 biliwn yn 2010 i ychydig dan £2.8 biliwn yn 2019) ac maen nhw wedi defnyddio mwy a mwy o ffynonellau trydydd parti.[31] Roedd cyfanswm gwariant y BBC ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf wedi disgyn £0.4bn rhwng 2010 a 2019 i £1.4bn.

---

[27] Ampere Analysis Consumer, oedran: ar-lein 18-64, Ch1 2021, DU. Sylfaen: 1,633, y rheini sy'n defnyddio SVoD.
[28] Ymchwil Covid-19 BBC Ofcom.
[29] IPA TouchPoints.
[30] Netflix, Ebrill 2021. Llythyr enillion chwarter cyntaf i gyfranddalwyr.
[31] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr. Mae'r ffigurau'n cael eu mynegi ym mhrisiau 2020 ac maent yn cynnwys gwariant uniongyrchol ar raglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer rhaglenni rhwydwaith a rhaglenni'r gwledydd a'r rhanbarthau. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys unrhyw gyfraniadau trydydd parti.

Mae'r newidiadau hyn mewn ymddygiad yn y cyfryngau a sut mae cynulleidfaoedd yn defnyddio'r cyfryngau'n tynnu sylw at yr heriau mae'r BBC yn dal i'w hwynebu wrth ddenu a chynnal sylw cynulleidfaoedd heddiw, yn enwedig ymysg pobl iau.


### Mae'r BBC yn wynebu pwysau cyllido sy'n debygol o barhau yn ail hanner cyfnod y Siarter

Er bod ffi'r drwydded yn rhoi sefydlogrwydd ariannol cymharol i'r BBC, mae cyfanswm ei incwm wedi gostwng 4.5% mewn termau real[32] ers 2017/18.[33] Cafodd y gostyngiad hwn mewn incwm ei sbarduno gan ostyngiad yng nghyfanswm refeniw ffi'r drwydded, o £4.01bn i £3.75bn. Roedd dau brif reswm dros y gostyngiad hwn. O ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am drwyddedau teledu i bobl dros 75 oed i'r BBC, mae cyfran ohonynt (tua 30%) bellach yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan y BBC, arweiniodd hyn at golli refeniw; ac mae nifer y trwyddedau teledu sy'n cael eu gwerthu (gan gynnwys i bobl dros 75 oed) wedi gostwng 3.9%, o 26.2 miliwn i 25.2 miliwn. Mae'r BBC hefyd yn cynhyrchu incwm nad yw'n deillio o ffi'r drwydded, yn bennaf o'i weithgareddau masnachol yn BBC Studios. Mae BBC Studios wedi datgan mai ei darged yw creu £1.2bn o enillion i'r BBC yn ystod pum mlynedd gyntaf y cyfnod Siarter presennol (hyd at 2021/22). Yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2020/21, dywedodd y BBC fod BBC Studios ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed hwn yn 2021/22. Yn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar reolaeth ariannol strategol y BBC, daeth i'r casgliad bod y BBC yn wynebu heriau ariannol mawr, a bod angen iddo barhau i wneud arbedion ar yr un pryd â buddsoddi mewn technoleg a rhoi sylw i ddiffyg cyflymder sylfaenol wrth weithredu newid.

### Mae'r BBC wedi datblygu ei wasanaethau mewn ymateb i newidiadau ehangach


Ers i Ofcom ddod yn rheoleiddiwr allanol cyntaf yn 2017, mae llawer o ddatblygiadau wedi bod ar draws y BBC, llawer ohonynt yn effeithio'n uniongyrchol ar y rheini sy'n talu ffi'r drwydded mewn ymateb i'r newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd rydym wedi'u disgrifio.

**Ffigur 2: Datblygiadau nodedig y BBC yn ystod cyfnod y Siarter**




[32] Yn nhermau mis Mawrth 2021.
[33] Dadansoddiad Ofcom o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC.

# Perfformiad cyffredinol y BBC




---

34 Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Traciwr Perfformiad y BBC Ofcom 2020/21; Ofcom/Gwariant y BBC (heb gynnwys y gwledydd a'r rhanbarthau, CPI gan ddefnyddio prisiau 2020); amcangyfrifon Ofcom drwy ddefnyddio BARB (gan gynnwys Dovetail ac anllinol), data 4 sgrin BBC iPlayer, RAJAR, IPA TouchPoints (gan gynnwys ar gyfer modelu radio o RAJAR blaenorol yn 2020), Comscore.

## Mae’r BBC yn dal i gyrraedd y rhan fwyaf o oedolion: Mae 87% ohonynt yn defnyddio rhywfaint o gynnwys y BBC bob wythnos

Mae hyn yn amrywio yn ôl demograffeg; mae pobl ifanc yn llai tebygol o ddefnyddio’r BBC bob wythnos, yn enwedig y rheini ar aelwydydd economaidd-gymdeithasol is.[35][36] Mae’r gostyngiad yng nghyrhaeddiad wythnosol teledu’r BBC wedi arafu, gyda 71% o unigolion ar gyfartaledd yn gwylio bob wythnos yn 2020 o’i gymharu â 72% yn y flwyddyn flaenorol.[37] Mae BBC ar-lein (gwefannau ac apiau’r BBC) wedi gweld cynnydd mawr yn nifer ei ddefnyddwyr dros y flwyddyn ddiwethaf gyda chyrhaeddiad wythnosol cyfartalog o 63% erbyn chwarter cyntaf 2021, i fyny o 55% 12 mis yn gynharach.[38] Er nad oes ffigur mesur swyddogol ar gael ar gyfer y diwydiant radio ar draws 2020/21,[39] mae’r arwyddion o waith ymchwil arall yn dangos bod y nifer sy’n gwrando ar y radio yn gostwng oherwydd bod llai o bobl yn cymudo yn ystod y cyfnodau clo, er bod rhywfaint o gynnydd yn y nifer sy’n gwrando ar radio ar-lein, gan gynnwys BBC Sounds.[40]

## Mae’r amser sy’n cael ei dreulio gyda’r BBC wedi aros yn sefydlog dros y flwyddyn ddiwethaf, yn rhannol oherwydd mwy o wylio BBC iPlayer

Er bod yr amser sy’n cael ei dreulio gyda’r BBC wedi bod yn lleihau’n raddol ers 2017, mae’r cyfnodau clo a osodwyd a bod mwy o bobl wedi aros gartref yn 2020 wedi atal y duedd hon dros dro o leiaf. Yn benodol, dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld mwy o amser yn cael ei dreulio yn gwylio teledu’r BBC, gan gynnwys BBC iPlayer, a gwefan ac apiau’r BBC hefyd. Yn gyffredinol, ar draws teledu, radio ac ar-lein, mae’r BBC yn cyrraedd tua’r un faint o bobl ifanc 16-24 oed bob wythnos â Netflix (7 o bob 10). Mae BBC iPlayer yn unig yn cyrraedd 32% o'r grŵp oedran hwn.[41] Mae apêl Netflix i bobl ifanc hyd yn oed yn gliriach pan fyddwn yn edrych ar blant 11-16 oed, gyda 74% ohonynt yn defnyddio’r BBC bob wythnos o’i gymharu â 77% sy’n defnyddio Netflix.[42]

Roedd y cynnydd yn lefelau gwylio BBC iPlayer (dros 4 munud) rhwng 2017 a 2020 yn cynrychioli mwy na hanner y gostyngiad a welwyd mewn gwylio teledu sy’n cael ei ddarlledu gan y BBC (-6 munud). Ond roedd 2020 yn flwyddyn anarferol o ran gwylio; er enghraifft, roedd gwylio teledu’r BBC wedi cynyddu wrth i bobl chwilio am newyddion am y pandemig. Fodd bynnag, mae defnyddio teledu’r BBC hyd yma yn 2021 yn is na 2020: mae hyn yn awgrymu ei bod yn debygol y bydd y patrwm blaenorol o ostyngiad mwy amlwg yn lefelau gwylio teledu’r BBC, sydd ond yn cael ei wrthbwyso’n rhannol gan BBC iPlayer. Ar gyfer gwylwyr 16-34 oed, mae’r cynnydd yn lefelau gwylio BBC iPlayer rhwng 2017 a 2020 yn cyfrif am chwech o’r naw munud gwylio dyddiol sy’n cael eu colli ar deledu llinol y BBC.[43]

---

35 Penderfynir ar grŵp economaidd-gymdeithasol yn sgil nifer o ffactorau gan gynnwys incwm a galwedigaeth. Yn gyffredinol, mae’r grwpiau uchaf, sef A a B, yn fwy tebygol o fod yn gefnog, mae'r grwpiau C1 ac C2 yn y canol, ac mae’r grwpiau isaf, sef D ac E, yn llai tebygol o fod yn gefnog.

36 IPA TouchPoints.

37 BARB. Meini prawf cyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol, unigolion 4+.

38 Ymchwil y BBC: Compass gan Ipsos MORI.

39 Oherwydd y pandemig a’r cyfyngiadau cysylltiedig, gohiriodd corff mesur cynulleidfaoedd y diwydiant radio, RAJAR, ei waith maes o ddiwedd Ch1 2020.

40 Mae ymchwil arall yn cynnwys IPA TouchPoints, ymchwil Ofcom ar gyfer Cyfryngau'r Genedl, ymchwil Covid-19 Ofcom i’r BBC

41 Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2020/21.

42 Traciwr Ofcom o Bobl Ifanc yn eu Harddegau y BBC 2020/21.

43 Amcangyfrifon Ofcom drwy ddefnyddio BARB (gan gynnwys Dovetail ac anllinol), data sgriniau BBC iPlayer 4, RAJAR, IPA TouchPoints (ar gyfer modelu radio o RAJAR blaenorol yn 2020), wedi’i fesur fel BBC yn Comscore (ar gyfer gwefannau a YouTube).

### Mae tua un oedolyn o bob pump yn y DU yn defnyddio BBC Sounds bob wythnos, yn bennaf i wrando ar radio byw

Gwnaethom gomisiynu ein harolwg sain ein hunain yn gynharach eleni i ddeall lle mae BBC Sounds yn y farchnad sain, ac rydym hefyd wedi defnyddio data a ddarperir gan y BBC. Ym mis Mawrth 2021, dywedodd 18% o oedolion ar-lein yn y DU eu bod yn defnyddio BBC Sounds bob wythnos.[44] Mae'n cael ei ddefnyddio gan amlaf i wrando ar radio byw, er bod BBC Sounds hefyd yn un o'r tair prif ffynhonnell ar gyfer gwrando ar bodlediadau, ar ôl YouTube a Spotify: Mae data'r BBC yn dangos bod 56% o'r gwrando ar BBC Sounds yn wrando ar radio byw a bod 44% yn wrando ar-alw (gan gynnwys ffrydio cerddoriaeth, podlediadau a radio dal i fyny).[45] Fodd bynnag, er bod BBC Sounds yn rhan o strategaeth gyffredinol y BBC i fodloni ymddygiadau sy'n newid o ran sain, yn enwedig ymysg pobl ifanc, er bod mwy o'r grŵp oedran hwn yn ei ddefnyddio, dim ond 27% o'r rheini sydd â chyfrif BBC Sounds sydd o dan 35 oed, i lawr o 29% ar yr un adeg y llynedd.[46]

### At ei gilydd, mae cynulleidfaoedd yn ffafrio'r BBC, yn enwedig o ran ei ddarpariaeth o gynnwys newyddion ac addysgol dibynadwy pan roedd y pandemig ar ei anterth

Ar y cyfan, mae gan 58% o oedolion yn y DU argraff ffafriol gadarnhaol o'r BBC. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio yn ôl demograffeg, gyda'r rheini mewn aelwydydd DE a'r rheini yn yr Alban yn llai tebygol o lawer o roi sgôr gyffredinol gadarnhaol i'r BBC.[47]

Dywedodd tri o bob deg o wylwyr teledu'r BBC y gwnaethom siarad â nhw yn ein gwaith ymchwil eu bod bellach yn gwylio mwy ar deledu'r BBC, o'i gymharu â chyn dechrau'r cyfnod clo cenedlaethol cyntaf. Dywedodd llawer eu bod yn troi at y BBC fel prif ffynhonnell newyddion, gan ei ystyried yn ffynhonnell ddibynadwy ar gyfer gwybodaeth am y pandemig. Fodd bynnag, roedden nhw hefyd yn dweud eu bod yn troi at wasanaethau SVoD i ddod o hyd i gynnwys newydd.[48]

> ***Mae fy argraff gyffredinol o'r BBC wedi gwella ychydig dros y misoedd diwethaf, yn bennaf oherwydd pa mor gyfrifol roedd wedi darlledu am ddigwyddiadau hollbwysig. Mae ansawdd y rhaglenni'n dal o safon fyd-eang gan roi sylw i bynciau dylanwadol sy'n siapio'r dyfodol.***[49]
> *(Dyn, 35-44, aelwyd C1C2, De Lloegr)*

[44] Arolwg Sain Ofcom 2021. Cynhaliwyd yr arolwg drwy gyfweliadau ar-lein.
[45] Ar sail chwarae wythnosol cyfartalog ar draws Ionawr-Mawrth 2021.
[46] Data mewnol y BBC. Mae hyn yn ymwneud â'r cyfrifon lle mae manylion oedran wedi cael eu darparu i'r BBC. Mae hyn yn cyd-fynd â'n harolwg sain a ganfu fod 32% o ddefnyddwyr wythnosol BBC Sounds rhwng 16 a 34 oed.
[47] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2020/21.
[48] Ymchwil Covid-19 BBC Ofcom.
[49] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2020/21.




## Mae'r BBC yn gyfrannwr allweddol at economi greadigol y DU, sy'n cynrychioli tua hanner y gwariant ar raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf bob blwyddyn yn gyson

ein datganiad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, roeddem wedi nodi bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU yn parhau i fod yn ganolog i economi greadigol y DU, yn enwedig ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau. Nhw yw'r comisiynwyr cynnwys mwyaf o bob cwr o'r DU o hyd. Cyn Covid-19, roedd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gwario tua £3bn ar raglenni newydd mewn amrywiaeth eang o genres a gydag amrywiaeth eang o gynhyrchwyr. Ymysg y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, mae'r BBC mewn sefyllfa unigryw ac mae'n cael ei ariannu i gynnal rhaglenni gwreiddiol ac amrywiol sy'n cael eu gwneud yn y DU ar gyfer y DU.

## Fodd bynnag, mae cyfanswm gwariant y BBC ar gynnwys ar gyfer ei wasanaethau teledu wedi bod yn gostwng ers tro

Yn 2019/20 roedd gwariant y BBC ar gynnwys teledu 28% yn is mewn termau real o'i gymharu â 2010/11, ac yna bu gostyngiad pellach o 13% o un flwyddyn i'r llall yn 2020/21 oherwydd Covid-19.[50] Dros gyfnod y Siarter, mae cyfran y gwariant ar gynnwys ar gyfer radio ac ar-lein wedi cynyddu. Mae hyn wedi cael ei sbarduno'n benodol gan wariant ar gynnwys ar-lein,[51] sydd wedi bod yn cynyddu ers 2012/13, gan gyrraedd 11% o gyfanswm y gwariant ar gynnwys yn 2020/21 (o'i gymharu â 4% yn 2012/13), wrth i'r BBC barhau i ehangu ei wasanaethau BBC iPlayer a BBC Sounds.

O gymharu â 2017, roedd gwariant ar gynnwys gwreiddiol o'r DU a oedd yn cael ei ddangos am y tro cyntaf yn 2019 wedi gostwng ychydig (mewn termau real) o 1.2%, ac yna wedi gostwng 15.9% i £1.01bn yn 2020, wrth i'r pandemig darfu ar gynyrchiadau ar draws y rhan fwyaf o genres rhaglenni.[52]

Roedd yr oriau o gynnwys teledu gwreiddiol o'r DU a oedd yn cael ei ddangos am y tro cyntaf wedi aros ar tua 22,000 rhwng 2017 a 2019 ond bu gostyngiad o 5.4% yn 2020 o ganlyniad i Covid-19. Ar wahân i gynnydd mewn rhaglenni newyddion, sydd, oherwydd ei natur, yn cynnwys y rhan fwyaf o oriau gwreiddiol y BBC sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf (75% yn 2020, i fyny o 71% yn 2017), mae'r gymysgedd genres wedi aros yn gymharol gyson.[53]

---

[50] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Mae'r newidiadau canrannol mewn termau real gan ddefnyddio prisiau 2020.
[51] Mae cynnwys ar-lein yn cynnwys gwariant sy'n gysylltiedig â chynnyrch ar-lein y BBC ar gyfrifiadur, teledu wedi'i gysylltu, ffôn symudol a dyfais tabled. Mae hyn yn cynnwys newyddion, chwaraeon a'r tywydd, gwasanaethau plant, Gwybodaeth a Dysgu, ac IP (protocol rhyngrwyd) a ddarperir gan wasanaethau teledu a radio.
[52] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.[53] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[53] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.

# Diben Cyhoeddus 1: newyddion a materion cyfoes

Yn yr adran hon rydym yn adolygu perfformiad y BBC ers dechrau cyfnod y Siarter ac yn asesu sut mae'r BBC wedi cyflawni Diben 1 yn 2020/21. Y BBC yw'r ffynhonnell newyddion sy'n cael ei defnyddio amlaf yn y DU ac mae cynulleidfaoedd yn ymddiried ynddi am ei chywirdeb. Y prif fater rydym yn ei nodi bob blwyddyn yw'r her y mae'r BBC yn ei hwynebu o ran gwella canfyddiadau cynulleidfaoedd o'i ddidueddrwydd.

***Mae'r Siarter Frenhinol yn datgan:*** *Dylai'r BBC ddarparu rhaglenni newyddion, materion cyfoes a ffeithiol sy'n ddigon cywir a diduedd er mwyn gwella dealltwriaeth pobl o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a'r byd ehangach. Dylai'r cynnwys arddel y safonau golygyddol uchaf. Dylai gynnig cynnwys a dadansoddiad manwl ac amrywiol, nad ydynt ar gael yn helaeth gan ddarparwyr newyddion eraill y Deyrnas Unedig, drwy ddefnyddio newyddiadurwyr a chyflwynwyr o'r radd flaenaf, a hybu rhyddid mynegiant, er mwyn i'r holl gynulleidfaoedd allu ymgysylltu'n llawn â materion pwysig yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol, yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd, yn ogystal â chyfrannu at y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion gwybodus.*


## Sut rydym yn cynnal ein hasesiad

Mae newyddion wrth galon Cenhadaeth y BBC ac mae'n rhan hanfodol o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU, gan ei fod yn helpu cynulleidfaoedd i gyfrannu at gymdeithas wybodus a democrataidd. Er mwyn sicrhau bod y BBC yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd, mae gennym ofynion newyddion penodol yn y Drwydded Weithredu ar draws ei holl wasanaethau.

Er mwyn gwneud ein hasesiad perfformiad ehangach, rydym yn siarad â chynulleidfaoedd ar draws y DU i ddeall eu barn am allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC, gan ofyn amrywiaeth o gwestiynau, yn cynnwys rhai ynglŷn â chywirdeb, ymddiriedaeth a didueddrwydd.[54] Rydym yn edrych ar fetrigau eraill, gan gynnwys oriau a gwariant ar gynnwys, yn ogystal â faint a pha fath o bobl sy'n defnyddio newyddion y BBC, ac ar ba lwyfannau. Rydym hefyd yn defnyddio ffynonellau allanol fel Sefydliad Reuters ar gyfer Astudio Newyddiaduraeth.

Mae rhai o'r metrigau allweddol rydym yn eu defnyddio i gyfeirio ein hasesiad ar y diben hwn i'w gweld ar y dudalen ganlynol. Mae'r holl ddata ategol rydym yn eu defnyddio fel sail i'n hasesiad ar gael yn yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol atodol: cyfeiriwch at yr adran Diben 1.

[54] Mae Covid-19 wedi effeithio ar ein harolwg blynyddol o sut mae pobl yn cael gafael ar newyddion gan nad ydym wedi gallu cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb yn 2020/21. Mae'r newidiadau yn y fethodoleg yn golygu nad oes modd gwneud cymariaethau cyffredinol ag arolygon blaenorol. Fodd bynnag, er mwyn gallu gwneud rhai cymariaethau, mae'r sampl ar-lein o eleni a'r llynedd wedi cael ei gymharu ar gyfer rhai metrigau yn yr arolwg o sut mae pobl yn cael gafael ar newyddion. Tynnir sylw at y rhain yn yr adran.




---

55 Ffynonellau a ddefnyddiwyd yn y dangosfwrdd: Arolwg Ofcom o sut mae pobl yn cael gafael ar newyddion 2021 a 2020 (samplau ar-lein yn unig - nid oes modd cymharu'r data ag adroddiadau blaenorol). At ddibenion y graffig, mae'r cylchedd i gyd yr un maint, felly nid yw maint pob cylch yn gynrychioliadol o ddefnyddwyr rheolaidd pob ffynhonnell; (Sylfaenau: teledu-2165, radio-1082 gwefan/ap-1004); Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Mae data'n cael ei drosi i CPI gan ddefnyddio prisiau 2020 ac mae'n cynnwys rhaglenni gwledydd a rhanbarthau; BARB; Ymchwil y BBC: Compass gan Ipsos MORI. Mae'r saethau yn dangos gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng 2021 a 2020.

## Cyd-destun ein hasesiad

Yn ystod cyfnod y Siarter, yn 2019, fe wnaethom gynnal adolygiad manwl o newyddion a materion cyfoes y BBC (Adolygiad Newyddion) a wnaeth asesu pa mor dda roedd y BBC yn cyflawni Diben 1 ar gyfer cynulleidfaoedd. Gwnaethom hyn oherwydd ein bod eisiau deall mwy am y rhesymau pam roedd cynulleidfaoedd yn rhoi sgôr is i'r BBC ar agweddau fel ei ddyfnder o ran dadansoddi a'i ddidueddrwydd dyladwy. Y prif ganfyddiadau ac argymhellion oedd:

- Rhaid i'r BBC barhau i roi'r flaenoriaeth uchaf i ddarparu newyddion cywir;
- dylai fod gan y BBC fwy o hyder yn sut mae'n sicrhau didueddrwydd dyladwy;
- dylai'r BBC gynrychioli'r DU i gyd yn well gyda chynnwys newyddion a materion cyfoes go iawn sy'n teimlo'n berthnasol ac yn ddifyr i bawb;
- dylai'r BBC gyhoeddi'r camau mae'n eu cymryd, yn enwedig o ran ei gynnwys ar-lein i helpu pob cynulleidfa – yn enwedig pobl iau – i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas; ac
- roeddem wedi dweud y byddem yn adolygu perfformiad y BBC o ran sut mae'n cysylltu â ffynonellau ar-lein y tu allan i'r BBC.[56]

Rydym yn rhoi sylwadau ar gynnydd y BBC o gymharu â'r camau gweithredu hyn yn ein hasesiad.[57]

Ym mis Tachwedd 2020, fe wnaeth Bwrdd y BBC benodi'r Arglwydd Dyson i arwain yr ymchwiliad i amgylchiadau'r cyfweliad *Panorama* gyda Diana, Tywysoges Cymru, yn 1995 a gynhaliwyd gan Martin Bashir. Mewn ymateb i'r adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mai eleni, dywedodd Tim Davie "*mae'n amlwg na wnaeth y broses o sicrhau'r cyfweliad gyrraedd y lefel y mae gan gynulleidfaoedd hawl i'w disgwyl."* Yng Nghyfrifon ac Adroddiad Blynyddol y BBC eleni, ymddiheurodd y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol am y methiannau hyn a chadarnhau eu bod yn *"adolygu effeithiolrwydd eu llywodraethiant a'u polisïau golygyddol yn fanwl".* Fe wnaeth Adolygiad Serota, a gyhoeddwyd ym mis Hydref eleni, edrych ar arferion golygyddol, llywodraethu a diwylliant y BBC a chynnig argymhellion i helpu gwneuthurwyr cynnwys ac arwain at welliannau. Daeth i'r casgliad: *"os yw'r BBC eisiau cynnal ymddiriedaeth cynulleidfaoedd, rhaid iddo osod y meincnod ar gyfer rhagoriaeth olygyddol ar draws y byd".* Rydym yn rhoi rhagor o sylwadau ar ganfyddiadau Adolygiad Serota yn adran Safonau o ran Cynnwys yr adroddiad hwn.

Mae Covid-19 wedi cyfeirio'r agenda newyddion ac mae wedi effeithio ar sut mae newyddion wedi cael ei ddarparu a'i ddefnyddio dros y flwyddyn ddiwethaf. Tanlinellwyd pwysigrwydd newyddion gan y data a'r polisïau a adroddwyd a'u heffaith uniongyrchol ar fywydau beunyddiol pobl. Mae hyn yn anochel wedi miniogi'r ffocws ar rôl y BBC fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus dibynadwy, a chraffu cyhoeddus ohono, yn benodol ar y ffordd mae'n darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd.

[56] Fe wnaethom ddweud fod y BBC wedi rhoi sylw i'r argymhelliad hwn yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC ar gyfer 2019/20 ac fe wnaethom adrodd ar berfformiad yn erbyn amod perthnasol y Drwydded Weithredu yn ein Hatodiad Cydymffurfio.

[57] Fel y nodwyd gennym yn ein Hadroddiad Blynyddol diwethaf, ymatebodd y BBC i'n hargymhellion yn ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2020/21.

## Asesu perfformiad

### Yn ystod cyfnod y Siarter, roedd y rhan fwyaf o boblogaeth y DU wedi defnyddio newyddion y BBC

Er gwaethaf y cynnydd ym mhoblogrwydd newyddion ar-lein, teledu yw'r brif ffordd mae pobl yn cael gafael ar newyddion o hyd: Mae 79% yn cael gafael arno fel hyn.[58] Yn ein Hadolygiad o Newyddion yn 2019 fe wnaethom ganfod mai'r BBC oedd y brif ffynhonnell newyddion yn y DU, ac mae hyn yn dal yn wir: cyrhaeddodd 80% o oedolion ar-lein yn 2020/21.[59] Fodd bynnag, mae gwahaniaeth o hyd yn y graddau y mae'r BBC yn ymgysylltu â gwahanol fathau o bobl, gyda'r rheini ar aelwydydd DE[60] yn llai tebygol o ddefnyddio unrhyw newyddion y BBC na'r rheini ar aelwydydd AB.[61]

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, BBC One oedd y ffynhonnell newyddion unigol a oedd yn cael ei defnyddio amlaf, gan gyrraedd 62% o oedolion ar-lein.[62] Eleni, cafwyd cynnydd yng nghyrhaeddiad newyddion teledu'r BBC ar draws pob grŵp oedran,[63] ac yng nghyrhaeddiad gwefan/ap y BBC.[64] I'r gwrthwyneb, fe wnaethom adrodd yn Cyfryngau'r Genedl fod y nifer oedd yn gwrando ar y radio wedi gostwng oherwydd bod llai o bobl yn gwrando y tu allan i'r cartref oherwydd y cyfnodau clo, gan arwain at ostyngiad yn y defnydd cyffredinol o radio'r BBC ar gyfer newyddion.[65]

### Mae gwasanaethau newyddion ar-lein y BBC wedi perfformio'n gryf eleni

Mae cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog gwefan BBC News wedi cynyddu ar draws pob demograffeg eleni (o 29% o oedolion 16 oed a hŷn yn 2019/20 i 36% yn 2020/21).[66] Fe wnaeth arolwg eleni o sut mae pobl yn cael gafael ar newyddion ganfod fod cyfran uwch (11%) o oedolion sy'n dilyn newyddion wedi dewis gwefan/ap y BBC fel eu huned ffynhonnell bwysicaf o gymharu â'r llynedd (8%).[67] Roedd gan BBC News bresenoldeb cryfach ar YouTube eleni, gan bostio 60% yn fwy o fideos nag yn y flwyddyn ariannol flaenorol; roedd cyfanswm y niferoedd a wyliodd y fideos hyn yn y DU wedi dyblu ers y llynedd.[68] Rydym yn disgwyl mai Covid-19 yw'r prif reswm dros rai o'r newidiadau hyn.

Yn ein Hadroddiad Blynyddol diwethaf, fe wnaethom gyfeirio at gynlluniau'r BBC i ddiweddaru ap BBC News i wella personoleiddio, ac fe wnaethom ddweud y dylai'r BBC ystyried sut i fynd i'r afael â'r pryderon roedd wedi'u nodi ynglŷn â'r risg o effaith 'siambr-atsain', gyda newyddion yn cael ei ddewis ar sail safbwynt flaenorol y defnyddiwr. Eleni, mae'r BBC wedi dweud ei fod wedi ychwanegu rhagor o bersonoleiddio at yr ap, gan ddefnyddio categorïau lleoliad a diddordebau i ddangos newyddion lleol, ac i ddangos pynciau gwahanol i wahanol fathau o ddefnyddwyr. Dywedodd y BBC pa gamau roedd wedi'u cymryd i osgoi siambrau adlais mewn profiad personol; mae hyn yn cynnwys gwella amlygrwydd 'esboniadwyr' sy'n rhoi 'barn ddiduedd ar fater'. Dywedodd y BBC ei fod yn

[58] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2021.
[59] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2021 sampl ar-lein yn unig.
[60] Penderfynir ar grŵp economaidd-gymdeithasol yn sgil nifer o ffactorau gan gynnwys incwm a galwedigaeth. Yn gyffredinol, mae'r grwpiau uchaf, sef A a B, yn fwy tebygol o fod yn gefnog, mae'r grwpiau C1 ac C2 yn y canol, ac mae'r grwpiau isaf, sef D ac E, yn llai tebygol o fod yn gefnog.
[61] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2021 sampl ar-lein yn unig.
[62] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2021 sampl ar-lein yn unig.
[63] BARB, cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog (3 munud a mwy) i'r genre newyddion cenedlaethol/rhyngwladol.
[64] Ymchwil y BBC: Compass gan Ipsos MORI, 16+
[65] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2021 sampl ar-lein yn unig.
[66] Ymchwil y BBC: Compass gan Ipsos MORI, 16+
[67] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2020 a 2021 samplau ar-lein yn unig.
[68] Data'r BBC.

parhau i ystyried ffyrdd o reoli personoleiddio, er enghraifft mewn perthynas â rhoi sylw i bynciau heriol.

Er i'n hymchwil nodi bod cyrhaeddiad honedig newyddion ar BBC Sounds yn dal yn fach[69] o'i gymharu â ffynonellau BBC eraill, mae podlediadau newyddion a materion cyfoes yn boblogaidd ymysg y rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth[70] gyda phodlediad *Americast* yn arbennig o boblogaidd yn y cyfnod cyn etholiad yr Unol Daleithiau yn 2020, a chan ddilyn hynny.[71] Mae hwn yn dilyn fersiynau eraill o'r un fformat sydd wedi bod yn llwyddiant i'r BBC, fel *Newscast* a *Brexitcast*.

### Mae'r BBC yn parhau â'i ymdrechion i gyrraedd cynulleidfaoedd ifanc

Rydym wedi dweud mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol ac yn ein Hadolygiad o Newyddion bod gan y BBC gyfle i wasanaethu pob cynulleidfa yn well gyda'i newyddion ar-lein, yn enwedig pobl ifanc. Eleni, mae cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog gwefan/ap Newyddion y BBC ymysg pobl 16-34 oed wedi cynyddu o'i gymharu â'r llynedd (36% o'i gymharu â 31%).[72] Mae'r BBC hefyd yn darparu allbwn newyddion wedi'i deilwra ar gyfer pobl ifanc. Er enghraifft, mae *Newsbeat*, ar BBC Radio 1, yn darparu cynnwys newyddion wedi'i dargedu ar gyfer pobl ifanc bob diwrnod o'r wythnos, ddwywaith y dydd. Ar ben hynny, rydym yn nodi cynllun y BBC i gael bwletinau newyddion bob nos, wedi'u teilwra ar gyfer diddordebau pobl ifanc a'n cael eu cyflwyno gan bobl ifanc, ar sianel ddarlledu BBC Three, ac rydym wedi cytuno y gall ei hail-lansio. Er bod y pandemig wedi gohirio rhai o gynlluniau'r BBC, mae wedi bod yn defnyddio ei Bwyllgor Cenhedlaeth Nesaf i helpu i gyfrannu at straeon newyddion a'u gwneud yn fwy deniadol i gynulleidfaoedd iau.

### Graddiwyd newyddion Covid-19 y BBC yn uchel ac roedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynulleidfaoedd

Fel ffynhonnell ddibynadwy, roedd gan y BBC, ynghyd â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, rôl bwysig yn ystod y pandemig o ran sicrhau bod dinasyddion ar draws y DU yn cael y newyddion diweddaraf a bod hwnnw'n gywir.[73] Fe wnaeth darlledwyr addasu er mwyn parhau i ddarparu'r newyddion, yn enwedig yn ystod y cyfnodau clo cenedlaethol, ac roedd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cydweithio ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd yn ystod y cyfnod hwn.[74] Fe wnaeth radio lleol y BBC yn Lloegr rannu allbwn rhwng gorsafoedd i helpu gyda chyfyngiadau staffio, a chreu tri allbwn radio lleol dros dro ar gyfer cynulleidfaoedd yn Bradford, Wolverhampton a Sunderland mewn ymateb i'r pandemig. Fe wnaeth y BBC hefyd rannu rhywfaint o'i gynnwys radio lleol, gan gynnwys bwletinau newyddion, â phartneriaid gorsafoedd radio'r Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol. Roedd mwyafrif mawr o ddefnyddwyr rheolaidd gwasanaethau newyddion y BBC yn credu bod y BBC yn *'dda am ddarparu newyddion am Covid-19'* ac yn *'dda am helpu i ddeall cyfyngiadau Covid-19'*.[75]

---

[69] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2021 sampl ar-lein yn unig.
[70] Arolwg Podlediad Ofcom, Mawrth 2021.
[71] Data'r BBC: AT Y Rhyngrwyd.
[72] Ymchwil y BBC: Compass gan Ipsos MORI.
[73] Traciwr newyddion a gwybodaeth am Covid-19: defnydd ac agweddau, Ofcom.
[74] Mae'r coronafeirws yn newid newyddiaduraeth. A fydd ei effaith ar ystafelloedd newyddion yn para?
[75] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2021 sampl ar-lein yn unig.




Fel y gwnaethom ei nod yn ein Hadolygiad o Newyddion, cynnal ffocws ar ddarpariaeth newyddion gywir yw'r ffordd orau i'r BBC gadw a chryfhau ei enw da. Eleni, a dros gyfnod y Siarter hyd yma, rydym wedi canfod bod gwylwyr rheolaidd yn dal i raddio newyddion teledu'r BBC yn uchel am ymddiriedaeth a chywirdeb.[76] Yn ein gwaith ymchwil, rydym hefyd yn gofyn i wylwyr rheolaidd sianeli teledu gwahanol i ba raddau maen nhw'n credu bod y sianeli hynny'n ddiduedd. Mae'r canfyddiadau'n dangos yn gyson, er bod dros hanner gwylwyr newyddion teledu'r BBC yn ei ganmol am fod yn ddiduedd, bod y gyfran sy'n rhoi sgôr uchel iddo yn is nag ar gyfer sianeli eraill. Er enghraifft, roedd 63% o wylwyr newyddion ITV yn ei raddio'n uchel am ddarparu newyddion diduedd o'i gymharu â 55% o wylwyr newyddion teledu'r BBC.[77] Fodd bynnag, mae ein hymchwil yn dangos bod gan deledu'r BBC lawer mwy o wylwyr newyddion rheolaidd na sianeli teledu eraill, ac felly bod mwy o bobl yn ei ystyried yn ddiduedd. Er enghraifft, amcangyfrifir bod gan deledu'r BBC 19.6 miliwn o wylwyr newyddion rheolaidd sy'n credu ei fod yn hynod o ddiduedd, o gymharu â 14.2 miliwn ar gyfer ITV.[78]

Rydym yn nodi o'n hymchwil fod gwefan/ap y BBC a radio'r BBC yn perfformio'n well o ran argraffiadau o ddidueddrwydd na theledu'r BBC: Roedd 65% o ddefnyddwyr newyddion rheolaidd gwefan/ap y BBC yn ei raddio'n uchel, ac roedd 61% o ddefnyddwyr newyddion rheolaidd radio'r BBC yn ei raddio'n uchel. Fe wnaeth gwefan/ap y BBC hefyd weld ei berfformiad o ran didueddrwydd yn gwella o'i gymharu â'r llynedd. Mae'n bosibl mai'r rheswm am hyn yw'r gwahaniaethau o ran ymgysylltiad cynulleidfaoedd â'r llwyfannau. Mae rhaglenni bwletin newyddion BBC One yn cyrraedd cynulleidfa eang gyda straeon allweddol dethol yn cael eu hadrodd, ond gall defnyddwyr gwefan/ap BBC News ddewis y straeon maen nhw eu heisiau. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â chanfyddiadau

[76] Sampl ar-lein yn unigo o Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2021: mae 71% o ddefnyddwyr rheolaidd newyddion teledu'r BBC yn ei raddio'n uchel am gywirdeb, ac mae 68% yn ei raddio'n uchel am ymddiriedaeth.

[77] Sampl ar-lein yn unig o Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2021 (gwylwyr newyddion rheolaidd ar bob sianel). Gweler adran Teledu Diben 1 yr Adroddiad Rhyngweithiol i gael cymhariaeth lawn.

[78] Rydym yn amcangyfrif bod rhwng 18.4 a 20.8 miliwn o wylwyr rheolaidd newyddion teledu'r BBC yn credu ei fod yn hynod o ddiduedd a bod rhwng 13.1 a 15.4 miliwn o wylwyr rheolaidd newyddion ITV yn credu ei fod yn hynod o ddiduedd. Gweler tudalen ffynonellau Arolwg Cael Gafael ar Newyddion yr Adroddiad Rhyngweithiol am y fethodoleg ar gyfer yr amcangyfrifon hyn.

Traciwr Perfformiad y BBC, sy'n dangos mai defnyddwyr gwefannau/apiau'r BBC sydd fwyaf bodlon, wedi'u dilyn gan wrandawyr radio'r BBC ac yna gwylwyr teledu'r BBC.

Nodwn fod y BBC wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â chamwybodaeth i gefnogi ymddiriedaeth cynulleidfaoedd yn y newyddion:

**Mynd i'r afael â lledaeniad gwybodaeth gamarweiniol niweidiol gyda'r Cynllun Newyddion Dibynadwy**

Mae'r Cynllun Newyddion Dibynadwy (TNI), cynghrair fyd-eang o sefydliadau newyddion a llwyfannau technoleg dan arweiniad y BBC, yn parhau i weithio gyda'i gilydd i frwydro yn erbyn gwybodaeth gamarweiniol niweidiol. Fe wnaeth ei system 'rhybudd cyflym' weithredu yn ystod Etholiad Arlywyddol yr UDA i fynd i'r afael â gwybodaeth gamarweiniol. Cafodd y system ei defnyddio hefyd pan roedd grŵp camwybodaeth Covid-19 yn annog pobl i ymosod ar seilwaith 5G mewn sawl gwlad. Ym mis Mawrth eleni, cynhaliodd y TNI gynhadledd ar Ymddiriedaeth yn Newyddion, lle cyflwynodd ganfyddiadau cychwynnol ei ymchwil gyda'r nod o roi sylfaen dystiolaeth gadarn i'r ffyrdd gorau o fynd i'r afael â newyddion ffug.

## Mae'r cysyniad o 'ddidueddrwydd dyladwy' yn gymhleth

Fel y gwnaethom ei nodi yn ein Hadolygiad o Newyddion, mae 'dyladwy' yn gymhwyster pwysig yn y cysyniad o ddidueddrwydd. Mae didueddrwydd ei hun yn golygu peidio â ffafrio un ochr yn fwy nag un arall. Mae 'dyladwy' yn golygu digonol neu briodol i destun a natur y rhaglen. Felly nid yw didueddrwydd dyladwy yn golygu bod rhaid rhoi'r un amser ar gyfer pob barn neu fod rhaid cyflwyno pob dadl a phob agwedd ar bob dadl. Mae'r agwedd tuag at ddidueddrwydd dyladwy yn gallu amrywio yn ôl y gwasanaeth a disgwyliadau'r gynulleidfa dybiedig. Mae'r cyd-destun wastad yn bwysig.

Mae didueddrwydd dyladwy yn faes cymhleth y mae darlledwyr yn gallu defnyddio amrywiaeth o dechnegau golygyddol i'w gyflawni. Mae ein hymchwil ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd dyladwy hefyd yn dangos darlun cymhleth. Er enghraifft, yn ein Hadolygiad o Newyddion fe wnaethom weld fod canfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd yn cael eu dylanwadu gan nifer o ffactorau, llawer ohonynt heb gysylltiad â chynnwys newyddion a materion cyfoes y BBC. Yn yr adran ar Safonau o ran Cynnwys, rydym yn trafod sut mae safonau didueddrwydd dyladwy wedi cael eu sicrhau o dan system BBC yn Gyntaf yn ystod y flwyddyn a thros gyfnod y Siarter hyd yma.

Mae Ymchwil gan Sefydliad Reuters yn dangos, er bod cefnogaeth sylweddol o hyd i'r syniad bod allfeydd newyddion yn *'niwtral ar bob mater'* (53%), mae cyfrannau sylweddol o gynulleidfaoedd hefyd sy'n teimlo bod rhai materion lle *'nad yw'n gwneud synnwyr i allfeydd newyddion geisio bod yn niwtral'* (28%) neu sydd ddim yn gwybod beth yw eu barn (18%). Fe wnaeth 'adroddiad arall wedi gyhoeddi <https://reutersinstitute.politics.ox.ac.uk/sites/default/files/2021-10/Vir_the_relevance_of_impartial_news_in_a_polarised_world_FINAL_0.pdf> a oedd yn ymwneud â pherthnasedd didueddrwydd ganfod nad yw'r syniad o ddidueddrwydd yn syml i gynulleidfaoedd, a bod oedran, llythrennedd yn y cyfryngau a safbwynt gwleidyddol i gyd yn benderfynyddion pwysig o ran safbwyntiau ynglŷn â didueddrwydd, gyda gwahanol grwpiau'n meddu ar safbwyntiau gwahanol ynglŷn â lle mae didueddrwydd yn briodol. Mae'r adroddiad hefyd yn dadlau bod ymddiriedaeth mewn brandiau gwasanaeth cyhoeddus yn seiliedig ar y ffaith eu bod yn glynu wrth

ganllawiau didueddrwydd, a bod cynnal didueddrwydd yn *"act falansio fregus"* ac mai ychydig sydd ei angen i'w hypsetio yng ngolwg cynulleidfaoedd.

Fel y nodwyd uchod, mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o agwedd y BBC at ddidueddrwydd dyladwy wedi bod yn broblem i'r BBC drwy gydol y cyfnod.[79] Mae sut mae'r BBC yn perfformio ar y pwnc hwn yn gallu cael effaith ehangach na dim ond darparu Diben 1, ac mae'n bwysig i'r BBC ddangos ei fod yn mynd i'r afael â hyn. Ymysg y cynulleidfaoedd a oedd yn teimlo bod ansawdd rhaglenni a chynnwys addysgiadol y BBC wedi gostwng ers Covid-19, roedd eu canfyddiad o ragfarn yn ei ddarpariaeth newyddion yn ffactor pwysig, tra roedd y rheini a oedd yn teimlo bod y cynnwys wedi gwella ers Covid-19 yn dweud ei fod oherwydd eu bod yn credu bod darpariaeth y BBC yn ddibynadwy, yn gywir ac yn ddiduedd.[80]

---

***"Mae'r BBC wastad wedi darparu adroddiadau manwl, diduedd a chywir ac nid yw erioed wedi bod yn fwy defnyddiol nag yn ystod y pandemig"[81]***

(Dyn, 65 oed a hŷn, aelwyd C1C2, Gogledd Iwerddon)

---

O ystyried pwysigrwydd y BBC o ran darparu cynnwys diduedd i gynulleidfaoedd, a chymhlethdod y mater hwn, yn y flwyddyn i ddod byddwn yn adeiladu ar y gwaith ymchwil manwl a gyhoeddwyd gennym yn 2019 i ychwanegu at ein dealltwriaeth o agweddau presennol cynulleidfaoedd. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r gwaith ymchwil hwn yng Ngwanwyn 2022.

### Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC wedi pwysleisio mai adnewyddu ymrwymiad y BBC i fod yn ddiduedd yw ei flaenoriaeth gyntaf

Dywedodd y BBC yn ei Gyfrifon ac Adroddiad Blynyddol eleni fod didueddrwydd yn un o'i flaenoriaethau strategol, a'i fod wedi adeiladu ar ei ymrwymiad i fod yn ddiduedd gyda'r camau gweithredu canlynol:

- Cyflwyno canllawiau newydd ar ddidueddrwydd i staff, yn ogystal â rheolau newydd ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.
- Cyflwyno hyfforddiant didueddrwydd ar draws y sefydliad.
- Cyflwyno rheolau newydd ar ddatgan ymrwymiadau allanol ar gyfer cydweithwyr sy'n gweithio ym maes newyddiaduraeth, cyflwynwyr, staff ar yr awyr ac uwch arweinwyr.

Yn dilyn hynny, cyhoeddodd y BBC ei gynllun gweithredu safonau golygyddol a didueddrwydd mewn ymateb i Adolygiad Serota. Yn y cynllun hwn, mae'n disgrifio didueddrwydd dyladwy fel rhywbeth sydd *"wrth galon Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC"* ac mae'n nodi beth mae'n ei ddisgrifio fel yr ail gam o weithredu ar ddidueddrwydd, gyda chamau i:

1. Barhau i wella'r ddealltwriaeth o fod yn ddiduedd ar draws y sefydliad.
2. Herio ei hun yn greadigol i sicrhau ei fod yn adlewyrchu amrywiaeth eang o safbwyntiau.
3. Sicrhau ei fod yn cyrraedd y safonau uchaf o ran didueddrwydd ar draws ei allbwn.

---

[79] Fe wnaeth sgoriau cynulleidfaoedd ar gyfer didueddrwydd newyddion teledu'r BBC ddisgyn dros dair blynedd gyntaf cyfnod y Siarter ond roeddent yn gyson eleni; mae wedi bod yn gyson yn un o'r agweddau ar berfformiad newyddion teledu'r BBC sy'n cael y sgôr isaf.
[80] Ymchwil Covid-19 BBC Ofcom.
[81] Ymchwil Covid-19 BBC Ofcom.

4. Gwella atebolrwydd a llywodraethiant o ddydd i ddydd i sicrhau bod newid yn cael ei gyflawni.

Mae'r BBC hefyd, yn y cynllun hwn, wedi gwneud ymrwymiadau penodol i ddechrau cyhoeddi cyfres o adolygiadau thematig rheolaidd o ddidueddrwydd dyladwy allbwn mewn meysydd allweddol o drafodaeth gyhoeddus, ac i gychwyn cyfres o adolygiadau mewnol o raglenni a chynnwys newyddion a materion cyfoes allweddol (a rhaglenni ffeithiol perthnasol). Mae'r BBC yn ychwanegu y bydd yn cadw golwg ar y modd y mae'n cyflawni'r camau gweithredu yn y cynllun hwn, yn adrodd mwy ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn monitro'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen hyfforddi didueddrwydd.

Rydym yn croesawu ymrwymiad y BBC i wella atebolrwydd ac olrhain cynnydd o ran cyflawni pob cam gweithredu yn y cynllun. Rydym hefyd yn croesawu ymchwil fanwl y BBC yn y maes hwn, yn ogystal â'i ymrwymiad i ragor o ymchwil, yn annibynnol ac yn fewnol, fel rhan o'i gynllun gweithredu ar ddidueddrwydd. Bydd yn hanfodol bod y BBC yn dwyn ei hun i gyfrif o ran sut mae'n cyflawni'r camau y mae wedi'u nodi ac yn adrodd yn dryloyw ar gynnydd.

O ystyried bod gwahaniaeth amlwg rhwng agweddau cynulleidfaoedd ar ddidueddrwydd y BBC a'i record dda o gydymffurfio â rheolau darlledu didueddrwydd dyladwy, mae'n bwysig bod y BBC yn dod o hyd i ffyrdd creadigol ac atyniadol o ddarparu – a dangos – i gynulleidfaoedd ei ymrwymiad a'i agwedd o ran didueddrwydd dyladwy, er mwyn cadw ymddiriedaeth cynulleidfaoedd. Byddwn yn cysylltu â'r BBC ynglŷn â'i gynllun gweithredu a byddwn yn parhau i fonitro effaith y camau a gymerwyd gan y BBC a'i berfformiad yn sgil yr adolygiad.

## Rhaid i'r BBC ddwyn ei hun i gyfrif am ei ymrwymiad i gynyddu effaith ei newyddiaduraeth ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau

Ymysg oedolion ar-lein sy'n dilyn newyddion, mae cyrhaeddiad darllediadau teledu rhanbarthol/lleol y BBC (50%) a bwletinau radio lleol/cenedlaethol y BBC (13%) yn gyson â'r llynedd, ac mae'r cyfrannau sy'n fodlon â'r allbwn hwn hefyd yn parhau i fod yn uchel, gyda 82% o oedolion sy'n dilyn newyddion ar deledu rhanbarthol y BBC ac 80% o oedolion sy'n dilyn newyddion ar radio lleol neu genedlaethol y BBC yn fodlon ag ansawdd y newyddion lleol maent yn ei ddarparu.[82] Fodd bynnag, fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae cynulleidfaoedd yn yr Alban yn llai bodlon na rhannau eraill o'r DU gyda rhai agweddau ar newyddion y BBC.[83]

Nodwn fod y BBC wedi cyhoeddi ei gynllun Ar draws y DU ym mis Mawrth eleni. Mae'r ddogfen hon yn nodi cynllun pum mlynedd y BBC i symud rhannau sylweddol o BBC News i ganolfannau ar draws y DU, gyda hanner y timau sy'n canolbwyntio ar y DU yn cael eu lleoli, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ar draws y DU, gyda thimau amrywiol yn symud i Gaerdydd, Glasgow, Leeds, Birmingham a Salford. Yn ôl y BBC, bydd y cynllun hwn yn sicrhau ei fod yn ymdrin â straeon sy'n bwysig i gynulleidfaoedd ar draws y DU, yn cynrychioli lleisiau a safbwyntiau gwahanol yn fwy effeithiol ac yn cynyddu effaith ei newyddiaduraeth. Yn ein Hadolygiad o Newyddion, fe wnaeth ein hymchwil ddangos bod rhai yn credu bod newyddion y BBC yn cynrychioli safbwynt Gwyn, dosbarth canol a Llundeinig. Roedd canfyddiad bod diffyg amrywiaeth ymysg gohebwyr a chyflwynwyr y BBC, a diffyg safbwyntiau gwahanol. Fel y nodir yn y trosolwg, mae'n rhaid i'r BBC ddwyn ei hun i gyfrif wrth weithredu'r strategaeth hon, drwy nodi sut bydd yn mesur ei lwyddiant ac yn adrodd ar ei effaith.

[82] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2021 sampl ar-lein yn unig.
[83] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2020/21.

Mae'r polisïau gwahanol yn ymwneud â chanllawiau Covid-19 yn y gwledydd datganoledig wedi tynnu sylw at bwysigrwydd newyddion a materion cyfoes rhanbarthol. Fodd bynnag, mae oriau materion cyfoes wedi cael eu heffeithio'n benodol dros y flwyddyn ddiwethaf, yn rhannol oherwydd Covid-19. Yn Lloegr, fe wnaeth canslo *Inside Out*, a oedd yn cyfrif am fwy na thraean o'r holl oriau o gynnwys materion cyfoes rhanbarthol yn Lloegr yn 2019, gyfrannu at ostyngiad sylweddol mewn oriau.[84] Nodwn fod BBC England wedi comisiynu cyfres materion cyfoes newydd ar gyfer BBC One, bydd yn cynnwys chwe fersiwn ranbarthol wedi'u gwneud mewn hybiau rhanbarthol a byddant yn cael eu lansio ym mis Ionawr 2022. Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, mae oriau materion cyfoes hefyd wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall, tra'n aros yn gyson yn yr Alban. Bu gostyngiad sylweddol hefyd yng nghyfanswm y gwariant ar newyddion a materion cyfoes o £344m i £294m eleni, gyda'r gwariant ar y cynnwys hwn ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau yn gostwng mwy na'r gwariant ar y rhwydwaith.[85] Byddwn yn parhau i fonitro hyn o ystyried bod y gostyngiadau hyn yn debygol o gael eu sbarduno gan Covid-19.

Rydym wedi comisiynu dadansoddiad pellach, sy'n edrych ar ddarpariaeth newyddion rhanbarthol mewn gwahanol rannau o'r DU, ac rydym yn gobeithio ei gyhoeddi ddechrau'r flwyddyn nesaf. Byddwn yn ystyried y gwaith hwn wrth asesu pa mor dda mae cynulleidfaoedd gwahanol ar draws y DU yn cael eu gwasanaethu.

## Amodau'r Drwydded Weithredu

Ochr yn ochr â'n hasesiad perfformiad ehangach, rydym hefyd yn ystyried perfformiad y BBC o gymharu â gofynion newyddion penodol sydd wedi'u nodi yn y Drwydded Weithredu. Eleni, oherwydd Covid-19, methodd y BBC dri amod yn ymwneud â darparu newyddion ar BBC Radio 1, BBC Radio 1Xtra a BBC Asian Network. Cafodd y ddau olaf eu methu hefyd yn ystod wythnosau olaf 2019/20. Hefyd, roedd toriad technegol yn ymwneud â darparu newyddion ar CBBC oherwydd bod y BBC yn gwneud newidiadau tymhorol i'w amserlen o amgylch y Nadolig[86]; fel arall mae'r BBC wedi bodloni'r gofynion mewn perthynas â'r diben hwn. Ewch i'r Atodiad Cydymffurfio am asesiad llawn o ofynion y Drwydded Weithredu.

[84] Dadansoddiad Ofcom o ddata trawsyrru'r BBC
[85] Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Mae cyfanswm y gwariant ar newyddion a materion cyfoes yn cael ei fynegi mewn termau real gan ddefnyddio prisiau 2020, ac mae'n cynnwys rhaglenni rhwydwaith a rhaglenni'r gwledydd a'r rhanbarthau.
[86] Sylwch fod dadansoddiad o ddarpariaeth newyddion ar CBBC yn cael ei drafod yn adran Diben 2 yr adroddiad hwn.

# Diben Cyhoeddus 2: dysgu

Mae’r adran hon yn nodi ein hadolygiad o berfformiad y BBC o ran cyflawni Diben 2 yn 2020/21 a sut mae wedi cyflawni’r diben hwn ers dechrau cyfnod y Siarter. Cyflwynir ein canfyddiadau mewn pedwar maes cyffredinol: dysgu plant, dysgu ffurfiol ac anffurfiol, dysgu anffurfiol i oedolion, a phartneriaethau. Mae cynulleidfaoedd wedi gweld gwerth yn ein gwaith o gyflawni’r diben hwn yn gyson, ac yn benodol eleni, mae’r BBC wedi camu i’r adwy i lenwi’r bwlch pan gaewyd ysgolion.

***Mae’r Siarter Frenhinol yn datgan:*** *Dylai’r BBC helpu pawb i ddysgu am wahanol bynciau mewn ffyrdd a fydd yn hwylus iddynt, yn ddifyr, yn ysbrydoli ac yn heriol. Dylai’r BBC ddarparu cynnwys addysgol arbenigol er mwyn helpu i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc ledled y Deyrnas Unedig. Dylai annog mwy o bobl i archwilio pynciau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd drwy feithrin partneriaethau gyda sefydliadau ym meysydd addysg, chwaraeon a diwylliant.*


## Sut rydym yn cynnal ein hasesiad

Yn ystod 2020/21, fe wnaethom gytuno i newid y Drwydded Weithredu o ran darparu newyddion i blant, ac i ddarparu mwy o hyblygrwydd i ganiatáu i’r BBC fodloni ei gwota rhaglenni gwreiddiol sy’n cael eu dangos am y tro cyntaf gyda rhywfaint o gynnwys BBC iPlayer yn unig. Rydym yn edrych ar effaith y ddau newid hyn yn yr adran hon.

Eleni, fe wnaethom gynnal gwaith ymchwil penodol â chynulleidfaoedd ynghylch sut roedd y BBC wedi ymateb i Covid-19; rydym yn defnyddio hyn ar gyfer ein hasesiad o Ddiben 2. Buom yn siarad â rhieni a phlant i gywain barn am sut mae’r BBC yn cyflawni’r diben hwn, ac roeddem wedi edrych ar arferion gwylio a defnyddio cynnwys addysgol y BBC. Eleni, fe wnaethom gomisiynu Traciwr newydd ar gyfer Pobl Ifanc yn eu Harddegau er mwyn deall agweddau a defnydd o’r cyfryngau, canfyddiadau o wahanol wasanaethau’r BBC ac ymwybyddiaeth o frand ymysg plant 11-16 oed yn ysgolion uwchradd y DU.

Mae rhai o’r metrigau allweddol rydym yn eu defnyddio i gyfeirio ein hasesiad ar y diben hwn i’w gweld ar y dudalen ganlynol. Mae'r holl ddata ategol rydym yn eu defnyddio fel sail i’n hasesiad ar gael yn yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol atodol: ewch i’r adran ar Ddiben 2.

[87]




[87] Ffynonellau a ddefnyddiwyd yn y dangosfwrdd: BARB; Porwyr Unigryw Wythnosol y DU y BBC (DAX) / Ymwelwyr (ATI); Traciwr Ofcom o Bobl Ifanc yn eu Harddegau y BBC 2020/21; Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2020/21; Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.

## Asesu perfformiad

### Dysgu ffurfiol

**Mae'r BBC wedi darparu'r 'cynnig addysg mwyaf' yn ei hanes, a oedd yn cael ei ddefnyddio'n helaeth ac yn cael ei ystyried yn dda gan gynulleidfaoedd**

Mae data gan y BBC yn dangos bod cyrhaeddiad BBC Bitesize wedi cynyddu yn 2020/21 i 2.7 miliwn o borwyr wythnosol ar gyfartaledd, i fyny o 1.7 miliwn yn 2019/20.[88] Hefyd, gwelwyd cynnydd sydyn yn nifer y disgyblion oed cynradd oedd yn defnyddio'r gwasanaeth, yn cynyddu o 38% o ddisgyblion yn 2019/20 i 67% eleni.[89] Mae nifer y disgyblion uwchradd sy'n defnyddio BBC Bitesize wedi cynyddu hefyd, er yn fwy cymedrol, gan fod llawer yn ei ddefnyddio'n barod (i fyny o 73% o ddisgyblion i 77%).[90]

Roedd ein hymchwil ein hunain yn dangos bod dros hanner y plant oed uwchradd yn defnyddio BBC Bitesize i helpu gyda gwaith ysgol yn ystod y cyfnodau clo, er bod defnyddio BBC Bitesize yn fwy tebygol o ddigwydd mewn aelwydydd AB (69%) na mewn aelwydydd DE (45%), ac yn llai tebygol yng Nghymru (46%).[91]

Roedd cynnig 'Dysgu Cyfnod Clo' y BBC yn golygu bod mwy nag erioed yn pori ar wefan BBC Bitesize yn ystod yr wythnos pan gafodd ei lansio ym mis Ionawr eleni. Ymatebodd y BBC mewn ffordd gyflym ac arloesol i gau ysgolion; mewn ymateb i bwysigrwydd darparu gwasanaethau i blant heb fynediad ar-lein, darparodd y BBC bum awr o ddysgu a oedd yn gysylltiedig â'r cwricwlwm bob diwrnod o'r wythnos ar CBBC a BBC Two. Roedd hefyd wedi addasu'r hyn a oedd yn cael ei gynnig ar gyfer cwricwla'r gwahanol wledydd. Roedd ymgyrch *'Gwneud Gwahaniaeth'* y BBC yn cysylltu pobl ag elusennau a oedd yn gweithio i ddarparu dyfeisiau i blant, ac roedd BBC Bitesize wedi ffurfio partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys yr Uwch Gynghrair a Puffin Books i wella ei ddarpariaeth. Erbyn diwedd tymor yr haf, roedd y BBC wedi cyhoeddi bron i 2,000 o wersi *Bitesize Daily* ar-lein, a oedd yn cael eu harwain gan y cwricwlwm; yn ystod yr wythnos gyntaf pan gafodd ysgolion eu cau ym mis Ionawr roedd bron i 1 miliwn o geisiadau am raglenni *Bitesize Daily*.[92]

Eleni, mae argraffiadau o BBC Bitesize wedi bod yn uchel: pan ofynnwyd i blant 11-16 oed ddewis unrhyw eiriau i ddisgrifio BBC Bitesize, dywedodd bron i hanner ohonynt ei fod yn ddefnyddiol, a dywedodd tua un o bob pump ei fod yn hwyl, yn hawdd neu'n llawn gwybodaeth.[93] Dywedodd chwech o bob deg o'r rhai 11-16 oed a oedd yn defnyddio BBC Bitesize yn ystod cyfnod clo y byddent yn gweld ei golli pe na bai ar gael mwyach.[94] Mae gan rieni plant o dan 16 oed ganfyddiadau cadarnhaol o arlwy addysg y BBC hefyd, gyda 68% yn cytuno ei fod yn cefnogi plant iau gyda'u dysgu, a 60% yn dweud ei fod yn cefnogi pobl ifanc yn eu harddegau gyda'u dysgu.[95] Mae ein hymchwil wedi dangos yn gyson bod cynulleidfaoedd yn gadarnhaol am ddarpariaeth addysg y BBC: rhwng 2017 a mis Mawrth 2020,[96] mae 82% o ddefnyddwyr bob blwyddyn wedi cytuno bod BBC Bitesize

---

88 Porwyr Unigryw Wythnosol y DU (DAX) / Ymwelwyr (ATI). BBC BITESIZE (gwefan ac ap). Ebrill 2019-Mawrth 2020, Ebrill 2020-Mawrth 2021. Sylwch fod ysgolion wedi cau am 25 wythnos yn 2020/21 o'i gymharu ag 1 wythnos ar gyfer 2019/20.
89 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC, 2020/21.
90 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2020/21; ymchwil y BBC: Traciwr Athrawon a Myfyrwyr Ysgolion DJS,
91 Traciwr Ofcom o Bobl Ifanc yn eu Harddegau y BBC 2020/21.
92 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2020/21.
93 Traciwr Ofcom o Bobl Ifanc yn eu Harddegau y BBC 2020/21.
94 Traciwr Ofcom o Bobl Ifanc yn eu Harddegau y BBC 2020/21.
95 Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2020/21.
96 Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2020/21. Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn yn 2020/21; 2017/2018 86%, 2018/19 82%, 2019/20 90%.

wedi cynnig rhywbeth nad oedd darparwyr cynnwys addysgol eraill wedi'i gynnig iddynt. Yn ystod yr un cyfnod mae'r rhan fwyaf o rieni wedi cytuno bod y BBC yn cefnogi plant iau a phobl ifanc yn eu harddegau gyda'u dysgu.[97] Mae'r defnydd o BBC Bitesize yn cyd-fynd yn gryf â'r rheini sydd ag agweddau cadarnhaol at y BBC yn gyffredinol; dywedodd pedwar o bob deg o blant a holwyd y byddent yn gweld colli'r BBC pe na bai ar gael mwyach. Roedd hyn yn codi i bron i chwech o bob deg sydd wedi defnyddio BBC Bitesize yn ystod y cyfnod clo, gan awgrymu perthynas gryfach â'r BBC ymysg defnyddwyr BBC Bitesize.[98]

Mae'r BBC hefyd yn darparu BBC Teach, sy'n cynnig adnoddau cwricwlwm i helpu athrawon i gynllunio gwersi. Roedd yn cael ei ddefnyddio bron i dair gwaith yn fwy na'r flwyddyn flaenorol yn ystod cyfnod 2020/21.[99]

***'Roedd yn darparu rhaglenni ysgol yr oedd taer eu hangen ar blant pan oedd yr ysgolion wedi cau oherwydd Covid.'*** [100]
(Menyw, 55-64, aelwyd DE, Dwyrain Canolbarth Lloegr)

***'Roedd Home School History ar Radio 4 a Bitesize Daily BBC Two yn dangos arloesedd a chefnogaeth i rieni.'*** [101]
(Dyn, 45-54, aelwyd DE, De-orllewin Lloegr)




## Yn ystod cyfnod y Siarter, mae'r BBC wedi cynnal adolygiad sylweddol o BBC Bitesize ac wedi ehangu ei gynnwys yn dilyn hynny. Mae'r canfyddiadau wedi parhau yn uchel drwy gydol y cyfnod

Yn ein Hadroddiad Blynyddol cyntaf ar y BBC, fe wnaethom nodi bod llai yn defnyddio BBC Bitesize ar ddechrau 2018; yn dilyn hynny, cynhaliodd y BBC adolygiad sylweddol o BBC Bitesize yn ystod 2018/19. Roedd y datblygiadau cychwynnol yn canolbwyntio ar ddatblygiadau technoleg i wella profiad defnyddwyr a phersonoleiddio, tra bod newidiadau diweddarach yn canolbwyntio ar ehangu

[97] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2020/21.
[98] Traciwr Ofcom o Bobl Ifanc yn eu Harddegau y BBC 2020/21.
[99] Yn 2020/21 roedd wedi cael ei ddefnyddio gan 342k o borwyr unigryw bob wythnos ar gyfartaledd, o'i gymharu â 121k yn y blynyddoedd blaenorol. Porwyr Unigryw Wythnosol y DU (DAX) / Ymwelwyr (ATI). BBC Teach. Sylwch fod ysgolion wedi cau am 25 wythnos yn 20/21 o'i gymharu ag 1 wythnos ar gyfer 19/20.
[100] Ymchwil Covid-19 BBC Ofcom.
[101] Ymchwil Covid-19 BBC Ofcom.

cynnwys dysgu, darparu cynnwys ar ddewisiadau gyrfa, a chefnogi myfyrwyr y tu allan i'r cwricwlwm. Yn 2019/20, lansiodd y BBC Bitesize Careers and Bitesize Support ac ehangu ei gynnwys yn y gwledydd. Roedd yn dal i gael derbyniad da yn dilyn y newidiadau hyn.[102]

Mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod yn bwriadu pwyso a mesur yr hyn mae wedi'i ddysgu yn ystod cyfnod Covid-19 fel rhan o'i ffordd o feddwl am ei gynlluniau ar gyfer BBC Bitesize yn y dyfodol. Yn fwy cyffredinol, mae llwyddiant a phoblogrwydd cynnwys addysgol y BBC yn ystod cyfnod Covid-19 yn rhoi cyfle i'r BBC adeiladu ar y llwyddiant hwn i gadw cynulleidfaoedd ifanc yn y tymor hwy.

## Dysgu anffurfiol i oedolion

### Mae'r BBC yn darparu ystod eang o raglenni dysgu anffurfiol

Mae'r BBC yn darparu cynnwys sy'n cefnogi dysgu oedolion, gan gynnwys cynnwys ffeithiol ar draws amrywiaeth o genres fel y celfyddydau, crefydd, hanes a gwyddoniaeth, ar deledu, radio ac ar-lein (rydym yn edrych yn fanylach ar y genres hyn yn adran Diben 3 yr adroddiad hwn).

Mae'r BBC yn darparu ystod ehangach o gynnwys o'r fath na'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill: yn 2020 darparodd fwy o oriau o raglenni dysgu anffurfiol cyflawn ac a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf ar y teledu, ac roedd allbwn y BBC wedi'i rannu'n fwy cyfartal ar draws yr ystod o genres dysgu anffurfiol. Roedd tri deg saith y cant o'i oriau dysgu anffurfiol a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf yn rhaglenni dogfen, roedd 20% yn rhaglenni celfyddydol a cherddoriaeth glasurol ac roedd 17% yn ymwneud â natur a bywyd gwyllt.[103]

Mae dadansoddiad o'r categorïau o raglenni sydd ar gael ar BBC iPlayer a gan ddarparwyr SVoD yn dangos bod cynnwys dysgu anffurfiol yn cyfrif am gyfran uwch o'r cynnwys sydd ar gael gan y BBC: rydym yn amcangyfrif bod 13% o'r oriau oedd ar gael ar BBC iPlayer yn 2020 yn rhaglenni ffeithiol arbenigol, o'i gymharu ag 8% ar lwyfannau SVoD.[104]

Gall gwahanol is-genres a phynciau rhaglenni apelio at wahanol grwpiau cynulleidfa, felly mae amrywiaeth eang o raglenni dysgu anffurfiol yn bwysig er mwyn i'r BBC allu apelio at bob cynulleidfa. Ar y teledu, mae rhaglenni dysgu anffurfiol y BBC yn fwy tebygol o gael eu gwylio gan gynulleidfaoedd hŷn, cynulleidfaoedd Gwyn a chynulleidfaoedd anabl. Fodd bynnag, ar y teledu, mae gostyngiad parhaus wedi bod dros gyfnod y Siarter yn oriau'r rhaglenni dysgu anffurfiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf

Mae cyfanswm nifer yr oriau o gynnwys dysgu anffurfiol ar y teledu wedi gostwng am y drydedd flwyddyn yn olynol (o 5,411 awr yn 2017 i 5,224 awr yn 2020). Mae nifer yr oriau o gynnwys dysgu anffurfiol sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf wedi gostwng i raddau mwy, gan ostwng 11% rhwng 2017 a 2019, a 12% yn 2020 (er bod Covid-19 wedi cael effaith ar hyn eleni). Mae cyfran yr ailddarllediadau wedi cynyddu dros y cyfnod. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r gostyngiadau mwyaf mewn oriau wedi bod yn y rhaglenni'r celfyddydau a cherddoriaeth glasurol, a rhaglenni hanes sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.[105]

---

[102] Data'r BBC: AT Internet - Porwyr Unigryw Wythnosol y DU (DAX) / Ymwelwyr (ATI) gwefan/ap BBC Bitesize
[103] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr.
[104] Dadansoddiad Ofcom o ddata Ampere Analysis Analytics. Ofcom sydd wedi amcangyfrif ac ailddosbarthu genres data Ampere. Mae canrannau SVoD yn cael eu mynegi ar gyfanswm lefel SVoD ac nid ydynt yn cynnwys teitlau lle mai'r prif gwmni cynhyrchu yw'r BBC i osgoi cyfrif cynnwys ddwywaith.
[105] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.

Roedd gwylio rhaglenni dysgu anffurfiol yn gyffredinol hefyd wedi gostwng eleni, gyda'r gwylio wedi gostwng ymysg pob grŵp oedran oedolion.[106]

## Ers 2017 mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o ddarpariaeth addysgol y BBC wedi aros yn gadarnhaol

Mae cynulleidfaoedd wedi parhau i roi sgôr uchel i ddarpariaeth cynnwys dysgu anffurfiol y BBC: eleni, roedd y rhan fwyaf o oedolion yn cytuno bod y BBC yn *'archwilio materion a syniadau nad oedd pobl efallai wedi dod ar eu traws o'r blaen'* ac yn *'ysbrydoli pobl i roi cynnig ar weithgareddau, hobïau neu ddiddordebau newydd'.* Mewn blynyddoedd blaenorol, mae cynulleidfaoedd wedi rhoi sgôr uchel i ddatganiadau fel *'rhaglenni a chynnwys sy'n llawn gwybodaeth'* a *'rhaglenni a chynnwys sy'n ysbrydoli'*.[107] Ewch i'r adran ar Ddiben 2 yn yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol.

## Mae'r BBC hefyd yn darparu cynnwys dysgu anffurfiol ar y radio ac ar-lein

Mae cynnwys ar-lein nawr yn fwy tebygol o fod ar gael ar BBC iPlayer, BBC Sounds ac ar wefan ac ap BBC News, nag ar rannau penodol o wefan y BBC. Ar y radio, mae'r BBC yn darparu amrywiaeth o raglenni gan gynnwys elfennau rheolaidd fel *Front Row* ar BBC Radio 4, *Free Thinking* ar BBC Radio 3 a *Good Morning Sunday* ar BBC Radio 2, yn ogystal ag amrywiaeth o raglenni dogfen a rhaglenni eraill. Mae tua 60% o ddefnyddwyr BBC Sounds yn dweud eu bod yn gwrando ar bodlediadau addysgol,[108] ac roedd teitlau fel *You're Dead to Me* ac *In Our Time* ymysg y rhai mwyaf poblogaidd ar gyfer gwrando ar-alw.[109]

Fodd bynnag, mae deall perfformiad y cynnwys hwn yn heriol, gan nad oes llawer o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd am ei effaith; yn wahanol i ddata BARB ar gyfer teledu, nid oes gennym yr un manylder ar gyfer gwasanaethau radio, ar-lein ac ar-alw; rydym yn dibynnu ar y BBC i ddarparu gwybodaeth yma.

Mae'r BBC yn adrodd yn fewnol ar effaith ei allbwn, gan gynnwys olrhain mesurau sy'n ymwneud â dysgu anffurfiol, er enghraifft a oedd rhaglenni'n procio'r meddwl ac a oedd cynulleidfaoedd yn teimlo eu bod yn dysgu rhywbeth newydd neu'n gwneud rhywbeth newydd o ganlyniad i'r rhaglenni roeddent yn eu gwylio neu'n gwrando arnynt. Mae'r BBC hefyd yn edrych ar astudiaethau achos o sut mae cynnwys wedi cael effaith; mae enghreifftiau diweddar wedi cynnwys *Gardeners' World* a *Winter Walks* (drwy ganolbwyntio ar 'brofi natur ar-lein'), gyda'r naill a'r llall yn sgorio'n uchel ar gyfer 'cynulleidfaoedd yn gwneud rhywbeth newydd'[110].

## Yn y dyfodol, hoffem weld y BBC yn adrodd yn fanylach am ei ddarpariaeth ac effaith cynnwys dysgu anffurfiol ar gyfer oedolion

Er gwaethaf yr adrodd a'r mesur mewnol hwn, nid yw'r BBC yn asesu'r agwedd hon ar Ddiben 2 yn benodol yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Mae hwn yn faes pwysig i gynulleidfaoedd a chymdeithas yn gyffredinol, ac mae'n cyfrannu at natur unigryw y BBC: credwn y gallai'r BBC wneud mwy i ddangos ac adrodd ar effaith ei gynnwys dysgu anffurfiol.

---

106 BARB.
107 Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC. Nodyn: roedd newidiadau i eiriad rhai datganiadau yn 2020/21.
108 Arolwg Podlediad Ofcom, Mawrth 2021.
109 Data'r BBC: AT Internet
110 Data mewnol y BBC.



## Dysgu anffurfiol i blant

### CBBC a CBeebies yw'r sianeli teledu plant sy'n cael eu gwylio fwyaf ymysg eu cynulleidfaoedd targed. Fodd bynnag, dros gyfnod y Siarter hyd yma, mae eu cyrhaeddiad wedi gostwng

Roedd cyrhaeddiad sianel CBBC ar y teledu ymysg plant 6-12 oed wedi disgyn o 24% yn 2017 i 18% yn 2020. Mae cyrhaeddiad CBeebies (ymysg plant 0-6 oed)[111] yn uwch, sef 45%, ond mae hefyd wedi gostwng ers 2017. Gwelwyd gostyngiad gyda'r rhan fwyaf o sianeli i blant a CBBC a CBeebies yw'r sianeli mwyaf poblogaidd i blant o hyd ar gyfer eu cynulleidfa darged. Mae'r amser y mae plant yn ei dreulio gyda'r sianeli hefyd yn gostwng.[112] Dywedodd y BBC ym mis Chwefror 2021 ei fod yn chwilio am ddarn o gynnwys a fyddai'n debyg i 'fersiwn y DU o The Simpsons' ar gyfer plant, mewn ymgyrch i gefnogi cyfres wedi'i hanimeiddio a fyddai'n cael ei chreu yn y DU. Er ei fod y tu allan i'r flwyddyn adrodd, mae'r BBC wedi cyhoeddi ei gynllun 'Ignite' i ddod o hyd i "lwyddiant animeiddio nesaf y DU". [113] Mae'r BBC wedi nodi ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r gostyngiad yn lefelau gwylio CBBC, sy'n cynnwys cyflwyno mwy o raglenni wedi'u hanimeiddio. Mae hyn yn bwysig yn ôl y BBC o ran sicrhau apêl, hwyl ac adloniant.

Yn 2017/18 cyhoeddodd y BBC fuddsoddiad o £34m mewn cynnwys i blant, a dywedodd wrthym ei fod yn defnyddio'r arian i ariannu arlwy ar-lein gwell, gan gynnwys datblygu apiau newydd ar gyfer CBeebies a CBBC a gemau fel *Nightfall*. O'r herwydd, bu cynnydd o un flwyddyn i'r llall ar gyfer CBeebies a CBBC o ran nifer cyfartalog yr ymwelwyr wythnosol sy'n defnyddio gemau,[114] a gwelodd apiau CBeebies fel *Go Explore* a *Playtime Island* gynnydd mawr yn nifer cyfartalog y porwyr wythnosol.[115]

### Mae cyfran fawr o wylwyr CBBC a CBeebies yn gwylio drwy BBC iPlayer

Yn ôl data'r BBC, ym mis Mawrth 2021, roedd gwylio drwy BBC iPlayer yn cyfrif am tua 38% o gyfanswm gwylio CBeebies, i fyny o 30% ym mis Ebrill 2020. Mae'r ffigur ar gyfer CBBC yn uwch, sef tua hanner yr holl wylio, er ei fod wedi newid llai dros y cyfnod.[116] Mae hyn yn gyfran sylweddol

[111] Mae 'Gwr/gwraig tŷ gyda phlentyn 0-3 oed' yn cael ei ddefnyddio fel procsi ar gyfer y grŵp oedran 0-3 yng nghynulleidfa BARB.
[112] BARB, gwylio wedi'i gyfuno dros 28 diwrnod, o fewn amseroedd darlledu'r sianeli.
[113] Ignite: BBC announces its biggest ever drive to uncover UK animation talent
[114] Ffynhonnell: Data'r BBC AT Internet
[115] Ffynhonnell: Data'r BBC AT Internet.
[116] Data'r BBC ar sail munudau gwylio wedi'u dad-ddyblygu, wedi'u modelu o ddata BARB/AT Internet

uwch o wylio ar y sianeli hynny drwy BBC iPlayer o'i gymharu â'n hamcangyfrifon ar gyfer cyfanswm gwylio'r BBC gan bob unigolyn drwy BBC iPlayer, sef 12%.[117]

Roedd gan CBBC a CBeebies y lefelau uchaf erioed o geisiadau BBC iPlayer eleni. Roedd 30 miliwn o geisiadau wythnosol am CBeebies iPlayer ar gyfartaledd yn Ch1 2021, sydd wedi cynyddu'n sylweddol ers y flwyddyn flaenorol. Roedd y ceisiadau am gynnwys CBBC yn fwy sefydlog ond hefyd ar y lefelau uchaf erioed yn ystod y flwyddyn, gyda thua 9 miliwn o geisiadau wythnosol yn Ch2 2020.[118] Mae'r defnydd cyffredinol o BBC iPlayer yn uchel ymysg plant ac mae wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf: yn Ch1 2021 roedd yn cael ei ddefnyddio gan 39% o blant 0-12 oed a bron i 40% o bobl ifanc 13-15 oed ar gyfartaledd bob wythnos.[119]

### Er bod y BBC wedi cael rhywfaint o lwyddiant o ran gwella ei ddarpariaeth ar-lein, bydd angen iddo barhau i esblygu ei arlwy, gan fod cyrhaeddiad cyffredinol gwasanaethau plant y BBC wedi gostwng eleni

Er bod y BBC wedi cyrraedd tua hanner (51%) y plant 6-12 oed ar gyfartaledd bob wythnos ar draws ei wasanaethau plant[120] yn 2020/21, roedd hyn wedi gostwng o 58% y llynedd. Er hynny, roedd hyn yn debyg i'w gyrhaeddiad i blant yn 2018/19 (52%). Ymysg plant 0-6 oed, roedd bron i dri chwarter (73%) yn defnyddio gwasanaethau plant y BBC, i lawr o 79% y llynedd. Er bod cynnydd wedi bod yn y gwefannau ac apiau i blant a oedd yn cael eu defnyddio, a BBC iPlayer, ymysg y ddau grŵp oedran, nid yw hyn wedi gwneud iawn am y gostyngiad yn nifer y plant sy'n gwylio'r teledu, sydd wedi arwain at y gostyngiad cyffredinol o ran cyrhaeddiad ar draws gwasanaethau plant. Er gwaethaf hyn, y sianeli teledu yw'r ffordd fwyaf poblogaidd o hyd o gael gafael ar gynnwys plant y BBC ar y BBC.[121]




Gyda'r defnydd cynyddol o gynnwys ar-lein a mwy o ddewis, mae'n bwysig bod plant yn gallu gwylio a chael gafael ar gynnwys y BBC lle bynnag y mynnent, boed hynny drwy wefan y BBC, BBC iPlayer neu apiau'r BBC. Fel y nodir isod, yn 2020 fe wnaethom gytuno i roi mwy o hyblygrwydd i'r BBC o ran lle mae'n dangos ei gynnwys newydd sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf. Bydd darpariaeth ar-lein yn chwarae rhan allweddol yn hyn.

[117] Amcangyfrifon Ofcom drwy ddefnyddio BARB (gan gynnwys Dovetail ac anllinol) a data sgriniau BBC iPlayer 4, pob unigolyn (4 oed a hŷn).
[118] Data'r BBC: AV Analytics.
[119] Ymchwil y BBC: Kids Cross-Media Insight gan Ipsos MORI.
[120] Mae gwasanaethau plant y BBC yn cynnwys ei sianeli teledu (CBBC a CBeebies), cynnwys i blant ar BBC iPlayer ac apiau a gemau'r BBC ar gyfer plant.
[121] Ymchwil y BBC: Kids Cross-Media Insight gan Ipsos MORI.

## Newidiadau i Drwydded Weithredu'r BBC o ran darparu cynnwys i blant

Yn 2020, yn dilyn cais gan y BBC, fe wnaethom newidiadau i Drwydded Weithredu'r BBC.

I grynhoi, fe wnaethom gytuno i leihau'r nifer sylfaenol o newyddion y mae gofyn i'r BBC eu darlledu ar CBBC, a chaniatáu iddo ddangos newyddion unwaith y diwrnod yn hytrach nag yn achlysurol drwy gydol y dydd. Roeddem hefyd wedi cyflwyno amod newydd sy'n mynnu bod y BBC yn darparu newyddion dyddiol i blant ar-lein. Fe wnaethom gytuno i leihau'r cwota ar gyfer rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn y DU ar gyfer CBBC ac i alluogi'r BBC i ystyried cynnwys plant sy'n cael ei gomisiynu yn arbennig ar gyfer BBC iPlayer, neu sydd ar gael ar BBC iPlayer yn unig, tuag at ei gwotâu o raglenni gwreiddiol i blant sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn y DU. Yn olaf, fe wnaethom gyflwyno gofynion trwydded newydd i sicrhau bod o leiaf hanner y rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf ar gyfer plant ifanc o dan 13 oed a phlant cyn oed ysgol, y mae gofyn i'r BBC eu darparu, yn cael eu dangos ar sianeli llinol CBBC a CBeebies. Isod, rydym yn asesu'r effaith y mae'r newidiadau hyn wedi'i chael ar gynulleidfaoedd hyd yma.

### *Newsround*

Mae'r BBC wedi lleihau'r newyddion ar sianel CBBC i un rhifyn o *Newsround* bob dydd, ac mae wedi ehangu ystod y cynnwys ar ei wefan.

Ers gwneud y newidiadau, mae cyrhaeddiad *Newsround* ar-lein wedi cynyddu: yn ail hanner 2020/21 roedd yn cael ei ddefnyddio gan 11% o blant 10-12 oed a 6% o blant 6-9 oed ar gyfartaledd bob wythnos, lle roedd cyrhaeddiad blaenorol wedi bod yn gostwng. Dywedodd bron i dri chwarter y plant ysgol 4-12 oed a oedd wedi clywed am *Newsround* eu bod yn ei wylio ar y teledu. Fodd bynnag, mae ffigurau gwylio teledu gan BARB yn dweud wrthym mai dim ond 14% o blant 6-12 oed oedd wedi gwylio o leiaf un bennod o *Newsround* ar CBBC yn y cyfnod o wyth mis ers i nifer y penodau bob dydd ostwng, o'i gymharu â 25% yn yr wyth mis cyn y newid. Roedd dros 80% o ddefnyddwyr *Newsround* 4-12 oed, ar gyfer y teledu a'r wefan, wedi rhoi sgôr o 4 neu 5 allan o 5 ar ei gyfer pan ofynnwyd iddynt pa mor dda oedd fel ffynhonnell newyddion. Eleni, roedd y BBC wedi bodloni amod newydd ei Drwydded Weithredu mewn perthynas â *Newsround* ar-lein.

Nid yw'r newidiadau wedi bod ar waith ers digon o amser i ni ddod i gasgliad ynghylch eu heffaith gyffredinol. Ond, rydym yn nodi bod cyrhaeddiad ar-lein wedi cynyddu'n ddiweddar, a bod canfyddiadau cadarnhaol o'i ddarpariaeth.

### BBC iPlayer

Ers y newidiadau hyn, nid yw darparu cynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar BBC iPlayer wedi newid llawer oherwydd effeithiau Covid-19 ar gynhyrchu, gyda'r pandemig yn golygu nad oedd y BBC yn bodloni amod ei drwydded ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar CBeebies/BBC iPlayer.

Eleni, mae cynnwys i blant ar BBC iPlayer yn unig wedi canolbwyntio ar gynnwys ffurf-fer (llai na 5 munud) fel *Hey Duggee – Top of the Pups* ar CBeebies, a gafodd dros chwe miliwn o geisiadau. Mae mwy o gynnwys ar gael ar BBC iPlayer yn gyntaf, gyda rhywfaint o gynnwys CBBC, gyda rhaglenni fel *My Mum Tracy Beaker* yn cael cyfran sylweddol o gyfanswm y gwylio ar BBC iPlayer cyn i'r rhaglen gael ei darlledu ar y sianel linol.

Byddwn yn parhau i fonitro effaith y newidiadau hyn i *Newsround* a BBC iPlayer.

## Partneriaethau

Mae gan y BBC ddyletswydd i gydweithio mewn partneriaeth â sefydliadau diwylliannol, chwaraeon ac addysgol i annog pobl i archwilio pynciau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd. Yn ogystal â hyn, mae'r BBC yn defnyddio partneriaethau i helpu i gyflawni ei ddibenion cyhoeddus, gan eu bod yn gallu ategu neges y BBC, cynnig arbenigedd, ac yn helpu i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach yn aml.

### Cynhaliodd y BBC 555 o bartneriaethau yn ystod y flwyddyn adrodd hon[122]

Mae'r BBC yn parhau i gymryd rhan mewn partneriaethau ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys y celfyddydau, plant ac addysg, ymchwil a datblygu, a radio a cherddoriaeth. Eleni bu cynnydd mawr yn nifer y partneriaethau yr adroddodd y BBC amdanynt (i fyny o 374 y llynedd), ond roedd hyn yn rhannol oherwydd cynnwys gweithgareddau gorsafoedd radio lleol unigol yn Lloegr, nad oeddent wedi'u cynnwys y llynedd. Eleni, dywedodd y BBC ei fod wedi cynnal 136 o bartneriaethau yn Lloegr.[123]

### Yn y dyfodol, gallai partneriaethau chwarae rhan amlycach o ran sut mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, a bydd yn dod yn fwyfwy pwysig i'r BBC allu mesur eu heffaith

Fel y nodir yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, sefydlodd y BBC grŵp partneriaeth y BBC yn 2020 i *"sicrhau bod ei brif bartneriaethau gwasanaeth cyhoeddus yn helpu'r BBC i gyflawni ei Ddibenion Cyhoeddus a rhwymedigaethau eraill y Siarter".* Pwrpas y grŵp hwn oedd canfod pwy sy'n gyfrifol am weithredu partneriaethau ar draws y BBC, deall ei holl waith partneriaeth a sefydlu arferion gorau. Mae'r BBC wedi penodi Cyfarwyddwr Partneriaethau Grŵp newydd yn ddiweddar, sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae gan y rôl newydd gylch gwaith i gynyddu effaith a gwerth partneriaethau'r BBC, ar gyfer ei gynulleidfaoedd ac ar gyfer sefydliadau partner y BBC. Yn y dyfodol, mae'r BBC yn bwriadu y bydd ganddo: agwedd gyffredinol, arfer gorau at weithredu'r holl bartneriaethau creadigol; ffocws cryfach ar werthuso effeithiolrwydd ei bartneriaethau; a strategaeth partneriaethau i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol y BBC. Fel y nodir yn y trosolwg, oherwydd yr heriau y mae'r BBC yn eu hwynebu, efallai y bydd angen iddo fabwysiadu dull gweithredu mwy uchelgeisiol ac agored ar gyfer partneriaethau gwirioneddol, strategol.

Mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod yn bwriadu i'r grŵp partneriaethau gael rôl gryfach o ran pennu amcanion ar gyfer partneriaethau, gan nodi'r partneriaethau â'r flaenoriaeth uchaf ar gyfer y sefydliad, a dod â rhannau o'r sefydliad at ei gilydd i gynyddu'r effaith. Mae hefyd yn ceisio nodi amcanion a mesurau sy'n ymwneud â strategaeth gyffredinol y bartneriaeth a pherfformiad y portffolio. Bydd yn bwysig i'r BBC allu mesur a dangos effeithiolrwydd y camau y mae'n bwriadu eu cymryd ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith.

Rydym wedi nodi yn ein hadroddiadau blynyddol nad oes gan y BBC ddull safonol o fesur effaith ei bartneriaethau, ac y gallai gwybodaeth well am hyn ddangos yn gliriach fyth sut mae partneriaethau'n helpu'r BBC i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Rydym yn gwybod bod y BBC yn dadansoddi effaith ei gynnwys, gan gynnwys mewn perthynas â rhai partneriaethau (er enghraifft, ap Couch to 5k, mewn partneriaeth rhwng BBC Sport ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr). Gallai partneriaethau fod yn ffordd bwerus i'r BBC ehangu ei rôl a'i effaith yn y DU. O ystyried hyn, ac

[122] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2020/21.
[123] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2020/21.

oherwydd y gallai hwn fod yn faes sy’n ehangu ar gyfer y BBC, rydym yn ei annog i ystyried ffyrdd ychwanegol o fesur ac esbonio’n gyhoeddus effaith partneriaethau ar gynulleidfaoedd a dinasyddion y DU.

## Amodau’r Drwydded Weithredu

Ochr yn ochr â’n hasesiad perfformiad ehangach, rydym yn ystyried perfformiad y BBC yn erbyn amodau perthnasol Diben 2 y Drwydded Weithredu. Bob blwyddyn ac eithrio 2020/21, roedd y BBC wedi cydymffurfio’n llawn â’r amodau. Eleni, nid oedd y BBC yn bodloni’r gofyniad am raglenni gwreiddiol o’r DU sy’n cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer plant cyn oed ysgol ar CBeebies a BBC iPlayer.[124] Roedd y BBC hefyd wedi methu dau amod yn ymwneud â darparu rhaglenni dogfen ar BBC Radio 2 a pherfformiadau byw/wedi’u recordio’n arbennig ar BBC Radio 3. Rydym yn fodlon mai’r pandemig oedd yn gyfrifol am y diffygion hyn. Ewch i’r Atodiad Cydymffurfio am asesiad llawn o ofynion y Drwydded Weithredu.

[124] Yn y Drwydded Weithredu rhestrir yr amod (2.36) o dan Ddiben Cyhoeddus 3, ond rydym yn cyfeirio ato yma gan fod ein hasesiad perfformiad ehangach am CBeebies wedi’i gynnwys yn yr adran hon.

# Diben Cyhoeddus 3:
## allbwn a gwasanaethau creadigol, o safon uchel a nodedig

Mae’r adran hon yn nodi ein hadolygiad o berfformiad y BBC o ran cyflawni Diben 3 yn 2020/21 a sut mae wedi cyflawni’r diben hwn ers dechrau cyfnod y Siarter. Rydym yn canfod bod gwasanaethau’r BBC yn parhau i gynnal safle unigryw yn nhirwedd cyfryngau’r DU. Fodd bynnag, mae’n hanfodol bod y BBC yn cadw ei ymrwymiad i ganolbwyntio ar gynnwys gwreiddiol o’r DU sy’n sylfaen i natur unigryw y BBC.


***Mae’r Siarter Frenhinol yn datgan:*** *Dylai’r BBC ddarparu allbwn o safon uchel mewn nifer o wahanol genres ar draws amrywiaeth o wasanaethau a llwyfannau, sy’n gosod y safon yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Dylai ei wasanaethau fod yn wahanol i’r rheini sy’n cael eu darparu mewn mannau eraill, a dylai gymryd risgiau creadigol, hyd yn oed os nad ydy pob un yn llwyddiannus, er mwyn datblygu dulliau gweithredu newydd a chynnwys arloesol.*

## Sut rydym yn cynnal ein hasesiad

Mae natur unigryw yn un o’r dibenion mwy goddrychol i’w asesu. Mae’n cael ei ddarparu ar draws gwahanol wasanaethau a mathau o raglenni ac efallai y bydd yn golygu gwahanol bethau i gynulleidfaoedd gwahanol. Rydym wedi defnyddio ‘basged’ o fesurau i edrych ar natur unigryw gwasanaethau a chynnwys y BBC dros gyfnod y Siarter. Mae’r rhain yn cynnwys: ei gymysgedd o genres ac allbwn, ansawdd yr allbwn hwn, faint o raglenni gwreiddiol sy’n cael eu cynhyrchu yn y DU, lefel y mentro, arloesi, ac amrywiaeth y cynulleidfaoedd mae’n eu gwasanaethu.

Mae ein hasesiad yn ystyried y BBC yn gyffredinol, ar draws y mesurau hyn; nid ydym yn asesu ansawdd na natur unigryw rhaglenni neu wasanaethau unigol.

Mae rhai o’r metrigau allweddol rydym yn eu defnyddio i gyfeirio ein hasesiad ar y diben hwn i’w gweld ar y dudalen ganlynol. Mae'r data ategol rydym yn eu defnyddio fel sail i’n hasesiad ar gael yn yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol atodol: ewch i’r adran ar Ddiben 3.




[125] Ffynonellau a ddefnyddiwyd yn y dangosfwrdd: Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC; Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr; data catalog fideo ar-alw Ampere Analysis; Arolwg Sain Ofcom, Mawrth 2021.

## Asesu perfformiad

### Mae'r BBC wedi cynnig ystod a chymysgedd ehangach o gynnwys yn gyson na darlledwyr a gwasanaethau fideo ar-alw eraill yn y DU dros gyfnod y Siarter

Er bod amrywiaeth gynyddol eang o ddewis ar gyfer cynulleidfaoedd, yn gyffredinol, mae gan y BBC safle unigryw yn nhirwedd cyfryngau'r Deyrnas Unedig. Mae ehangder y cynnwys sy'n cael ei ddarparu gan y BBC yn sbardun pwysig i natur unigryw ei wasanaethau prif ffrwd ac arbenigol. Mae gan sianeli teledu'r BBC gymysgedd ehangach o genres na sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus neu sianeli masnachol eraill, ac mae wedi cynnal hyn i raddau helaeth drwy gydol cyfnod y Siarter.[126] Mae BBC iPlayer hefyd yn darparu cymysgedd ehangach o genres o'i gymharu â darparwyr BVoD a SVoD eraill, gyda mwy o raglenni addysg, cerddoriaeth a newyddion a materion cyfoes, er enghraifft.[127] Mae cynulleidfaoedd wedi cytuno'n gyson ar hyn yn ystod cyfnod y Siarter – mae 61% yn canmol y BBC am ddarparu cymysgedd eang o gynnwys.[128]

Mae gorsafoedd radio'r BBC yn cynnwys cymysgedd o genres cerddoriaeth prif ffrwd ac arbenigol, yn ogystal â chymysgedd eang o gynnwys llafar. Mae'r Drwydded Weithredu yn nodi'r gofynion ar gyfer prif orsafoedd radio'r BBC. Mae'r rhain yn cynnwys amodau sydd wedi'u dylunio i ychwanegu at natur unigryw y gwasanaethau, fel isafswm o gerddoriaeth newydd, gan gynnwys cerddoriaeth gan artistiaid o'r DU, comisiynau gwreiddiol a darlledu perfformiadau a digwyddiadau byw. Mae'n ofynnol i BBC Radio 1 a BBC Radio 2 chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na'r darparwyr masnachol tebyg hefyd. Rydym wedi asesu cydymffurfiad y BBC â'r gofynion hyn yn yr Atodiad Cydymffurfio.

Rydym wedi gofyn i'r BBC sut, ar wahân i amodau'r drwydded, mae'n sicrhau bod ei wasanaethau radio rhwydwaith yn unigryw. Yn ei ymateb, tynnodd y BBC sylw at faint o gynnwys gwreiddiol mae'n ei gomisiynu (fel comedi a drama sain); maint a manylder ei ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio 4 a BBC Radio 5 Live; a'r amrywiaeth o chwaraeon sy'n cael sylw ar BBC Radio 5 Live.

### Mae'r BBC yn gwasanaethu ystod eang o gynulleidfaoedd, sy'n ei ganmol yn fawr am ei natur unigryw a'i ansawdd

Mae cymysgedd eang o genres yn galluogi'r BBC i gyrraedd ystod eang o gynulleidfaoedd. Mae'n dal i gyrraedd nifer fawr o bobl ar draws ei wasanaethau teledu, radio ac ar-lein, er bod proffil cynulleidfa'r prif wasanaethau darlledu (BBC One, BBC Two, BBC Radio 2 a BBC Radio 4) yn tueddu i wyro tuag at aelwydydd hŷn ac ABC1 na gwasanaethau cymharol. Mae gorsafoedd radio rhwydwaith y BBC yn gwasanaethu amrywiaeth o gynulleidfaoedd ac mae ganddynt broffiliau cynulleidfaoedd gwahanol, o'u cymharu â'i gilydd ac â gwasanaethau masnachol.

126 Mae modd gweld y gymysgedd o genres yn fanwl yn adran Diben 3 - Teledu - Argaeledd yn yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol.
127 Dadansoddiad Ofcom o ddata Ampere Analysis.
128 Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2020/21.

Mae'r BBC yn llwyddo i ddod â chynulleidfaoedd at ei gilydd mewn niferoedd mawr, er enghraifft drwy ddrama, newyddion a digwyddiadau byw o ansawdd uchel. Er enghraifft, roedd mwy o gynulleidfa nag erioed wedi gwylio cyfres ddiweddaraf *Line of Duty*: roedd 16.4 miliwn o bobl ar gyfartaledd, wedi gwylio'r bennod olaf.[129] Mae digwyddiadau byw fel Ewro 2020 ac adloniant fel *Strictly Come Dancing* yn dod â gwylwyr at ei gilydd yn rheolaidd i rannu profiad.

Yn gyffredinol, mae cynulleidfaoedd yn dal i roi sgôr uchel i'r BBC am ddarparu cynnwys creadigol o ansawdd uchel – eleni roedd 63% o gynulleidfaoedd yn cytuno bod y BBC yn gwneud hyn yn dda.[130] Pan ofynnwyd sut roedd y BBC yn cymharu â darparwyr eraill, roedd 42% yn credu bod y BBC yn well am ddarparu cynnwys teledu o ansawdd uchel – mwy na dwbl y rheini a oedd yn meddwl ei fod yn waeth na darparwyr eraill (19%). Mae dros chwech o bob deg o wrandawyr radio wythnosol y BBC yn credu bod y BBC o ansawdd uwch a bod ganddo ystod ehangach o gynnwys na darparwyr eraill.[131] Fel y gwelsom dros gyfnod y Siarter, mae canfyddiadau cynulleidfaoedd mewn aelwydydd DE yn tueddu i fod yn is na'r rhai mewn aelwydydd AB.

Roedd gorsafoedd radio'r BBC yn fwy tebygol o gael eu barnu yn well yn hytrach na gwaeth o'u cymharu â darparwyr eraill ar agweddau ar Ddiben 3 – yn enwedig o ran a yw'r BBC yn *'darparu cymysgedd eang o gynnwys radio'* ac yn *'darparu cynnwys radio o ansawdd uchel'*.[132] Mae tua hanner gwrandawyr radio'r BBC yn cytuno bod radio'r BBC yn well nag eraill am ddarparu cynnwys radio sy'n wahanol. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n amrywio yn ôl gwrandawyr mewn gwahanol orsafoedd: er enghraifft, roedd 46% o wrandawyr BBC Radio 2 yn cytuno o'i gymharu â 62% o wrandawyr BBC Radio 4. Dywedodd y BBC wrthym ei fod yn gwneud gwaith ymchwil mewnol i ddeall safbwyntiau cynulleidfaoedd yn y maes hwn, ar lefel rhaglen benodol (fel o ran gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd) ac ar lefel gwasanaeth.



[129] Ffigurau gwylio wedi'u cyfuno BARB, hyd at 28 diwrnod ar draws teledu a dyfeisiau eraill.
[130] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2020/21.
[131] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2020/21.
[132] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2020/21.

## Mae'r BBC wedi cymryd camau i ddatblygu cysylltiadau cryfach â chynulleidfaoedd iau

Fel rydym wedi nodi mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol, mae cynulleidfaoedd iau (plant a phobl ifanc 16-24 oed) wedi bod yn defnyddio llai a llai ar y BBC ac mae angen i'r BBC wneud mwy i'w denu a'u cadw. Mae cynnwys a gwasanaethau unigryw sy'n apelio at y cynulleidfaoedd hyn yn hanfodol i hyn. Mae'r BBC yn cymryd camau i ymateb i'r her hon. Roedd cyfradd y gostyngiad yng nghyrhaeddiad teledu'r BBC i bobl 16-24 oed wedi arafu rhwng 2019 a 2020, gyda'r amser gwylio'n sefydlogi. Fodd bynnag, mae defnyddio teledu'r BBC yn 2021 hyd yma yn is na'r hyn a welwyd yn 2020, sy'n awgrymu efallai y bydd y patrwm blaenorol o ostyngiad mwy amlwg yn lefelau gwylio teledu'r BBC eto.

Mae agweddau pobl ifanc tuag at y BBC yn amrywio, yn dibynnu ar ba mor aml maent yn ei ddefnyddio. Er enghraifft, mae 62% o bobl ifanc 16-34 oed yn dweud bod y BBC yn bwysig iddynt, ond mae hyn yn codi i 73% ar gyfer y rheini sy'n gwylio teledu'r BBC bob wythnos, a 77% ar gyfer gwrandawyr radio wythnosol yn y grŵp oedran hwn. Mae defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi'u targedu at bobl 16-34 oed hefyd yn fwy tebygol o ddweud bod y BBC yn bwysig – 74% o wrandawyr wythnosol BBC Radio 1 ac 82% o wylwyr wythnosol BBC Three.[133] Mae hyn yn dangos bod amrywiaeth unigryw o wasanaethau sy'n apelio at wahanol grwpiau o gynulleidfaoedd yn bwysig i wasanaethu pob cynulleidfa. Rydym wedi cytuno y gall y BBC ddod â BBC Three yn ôl fel sianel deledu, a allai fod yn ffordd bwysig arall i'r BBC gyrraedd cynulleidfaoedd ifanc. Dywedodd y BBC yn ei Brawf Lles y Cyhoedd y bydd y sianel yn ei helpu i gyrraedd pobl ifanc nad ydynt yn gwylio sianeli teledu'r BBC yn aml. Dywedodd fod y rhain yn tueddu i fod yr un cynulleidfaoedd ag y mae angen iddo wneud mwy drostynt: cynulleidfaoedd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, sy'n byw y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr a'r rheini sydd â llai o fynediad at wasanaethau ar-alw.

## Mae gwariant y BBC ar gynnwys teledu gwreiddiol a gynhyrchwyd yn y DU wedi bod yn gostwng yn y tymor hir, ac wedi gostwng yn sylweddol yn 2020 oherwydd cyfyngiadau Covid-19 a'u heffaith ar gynhyrchu

Mae'r BBC mewn sefyllfa unigryw ac yn cael ei ariannu i gynnal rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu gwneud yn y DU ac ar gyfer cynulleidfaoedd y DU. Mae cynnwys gwreiddiol o'r DU yn un o gonglfeini'r ffordd mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus ac mae'n hanfodol er mwyn sicrhau bod y BBC yn unigryw. At ei gilydd, mae'r BBC yn parhau i wario cyfran uchel o gyfanswm ei wariant ar raglenni teledu ar raglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf (yn codi o 92% yn 2010 i 94% yn 2019).

Fodd bynnag, yn unol â'r gostyngiad yng nghyfanswm y gwariant, mae ei wariant ar gynnwys teledu gwreiddiol a gynhyrchir yn y DU wedi gostwng mewn termau real dros y degawd diwethaf, gyda'r gwariant wedi gostwng 3% ar gyfartaledd bob blwyddyn rhwng 2010 a 2019. Ers dechrau cyfnod y Siarter hwn, gostyngodd gwariant y BBC ar raglenni teledu gwreiddiol i'w dangos am y tro cyntaf 1.2% rhwng 2017 a 2019. Gostyngodd yn sylweddol, 15.9% yn 2020, o ganlyniad i Covid-19 ac oedi gyda chynhyrchu. Fodd bynnag, er gwaethaf y gostyngiad yn y gwariant ar gynnwys teledu gwreiddiol, mae nifer yr oriau o gynnwys gwreiddiol bob blwyddyn wedi aros yn gymharol sefydlog.

Yn ogystal, dros gyfnod y Siarter cafwyd rhai newidiadau i'r dyraniad gwariant rhwng genres. Er bod cymysgedd genres o'r gwariant ar raglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf wedi cael ei gynnal yn fras rhwng 2017 a 2019, yn 2020, o bosibl oherwydd Covid-19, cafodd cyfran uwch o'r gwariant ar raglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ei ddyrannu i ddrama, adloniant

[133] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2020/21.

a newyddion. Er bod mwy o raglenni newyddion ac oriau'n arwain at gynnydd yn y gwariant ar newyddion, mae'n ymddangos bod y cynnydd cymesur mewn gwariant ar ddrama ac adloniant wedi cael ei sbarduno gan gynnydd mewn cost yr awr.[134]

Mae'r gostyngiad yng ngwariant uniongyrchol y BBC ar raglenni wedi cael ei wrthbwyso i raddau gan gyllid gan drydydd partïon, gan gynnwys cytundebau cyd-gynhyrchu, credydau treth a thaliadau ymlaen llaw gan ddosbarthwyr. Fel y gwnaethom nodi y llynedd, mae hyn yn dal i gael ei wario'n bennaf ar gynnwys drama, er bod rhaglenni ffeithiol a rhaglenni plant hefyd yn denu buddsoddiad trydydd parti. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod risgiau a chyfaddawdu o ran defnydd y BBC o gyllid trydydd parti: efallai nad oes gan y BBC reolaeth greadigol lawn ar gynyrchiadau, ac mae cyllid yn dibynnu ar gyllidebau a strategaethau chwaraewyr eraill. Mae cyllid trydydd parti hefyd yn llai tebygol o gael ei ganfod mewn genres mwy arbenigol, gan gynnwys rhai genres 'mewn perygl' sy'n llai tebygol o gael eu darparu y tu allan i'r BBC.

## Mae'r gwariant ar raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf mewn genres sydd mewn perygl fel comedi a cherddoriaeth yn gostwng yn gyflymach na genres eraill

Mae gan y BBC rôl arbennig o bwysig o ran darparu rhaglenni mewn genres sydd mewn perygl[135] gan gynnwys cerddoriaeth, y celfyddydau, crefydd a chynnwys ffeithiol arbenigol arall, yn ogystal â chomedi a rhaglenni plant. Mae'r cynnwys hwn yn gwneud cyfraniad sylweddol at natur unigryw gwasanaethau'r BBC, ac mae tystiolaeth bod genres penodol yn taro tant gyda gwahanol grwpiau o gynulleidfaoedd. Efallai fod gan raglenni o'r fath gynulleidfaoedd llai ond maent yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y rheini sy'n eu gwylio neu'n gwrando arnynt.

Roedd rhaglenni mewn genres mewn perygl yn cynrychioli 54% o oriau teledu'r BBC (heb gynnwys sianeli BBC News a BBC Parliament) a 37% o oriau catalog BBC iPlayer yn 2020. Mae'r cynnwys hwn yn llai tebygol o gael ei ganfod mewn mannau eraill – mae cyfran y rhaglenni sydd mewn perygl ar wasanaethau'r BBC yn uwch nag ar gyfer y rhan fwyaf o'i gystadleuwyr.[136]

Yn ystod cyfnod y Siarter yn gyffredinol, mae cyfanswm nifer y genres sydd mewn perygl wedi cael ei gynnal ar y cyfan. Fodd bynnag, mae gwariant ac oriau rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf mewn genres sydd mewn perygl wedi gostwng yn gyflymach na rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf mewn genres eraill, ac mae nifer yr oriau sy'n cael eu prynu a'u hailddarlledu mewn genres sydd mewn perygl wedi cynyddu. Yn 2020, roedd cynnydd o 72% yn nifer yr oriau a brynwyd o'r genres hyn, yn rhannol o ganlyniad i oedi gyda chynhyrchu oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Mae rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu yn parhau i gyfrif am gyfran fwyaf rhaglenni mewn perygl y BBC, a chynyddodd hyn o 87% yn 2017 i 89% yn 2020. Gall cyfran yr ailddarllediadau gynyddu ymhellach yn y dyfodol. Er enghraifft, rydym yn nodi bod y BBC wedi cynnig y dylai BBC Four ddod yn *"hafan i'r cynnwys mwyaf unigryw o bob rhan o archif y BBC"* gyda rhaglenni celfyddydau gwreiddiol ar BBC Two a BBC iPlayer.[137]

---

[134] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[135] Mae genres mewn perygl naill ai'n cyfrannu'n benodol at y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus, sydd ddim yn cael eu darparu'n ddigonol neu sy'n dirywio ar draws darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r genres sy'n cael eu diffinio fel rhai mewn perygl wedi eu nodi yn Atodlen 2 o'r Cytundeb.
[136] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC a data Ampere Analysis Analytics. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran ar Ddiben 3 yn yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol.
[137] Cynllun Blynyddol y BBC 2021/22.

## Strategaeth ddatblygol y BBC yw canolbwyntio ar gynnwys unigryw tra dylanwadol: bydd angen cydbwyso hyn â'i ddyletswydd i gynnal arlwy unigryw ar gyfer holl gynulleidfaoedd y DU

Yn ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2021/22 dywedodd y BBC ei fod yn disgwyl *"adfer gwariant ar gynnwys yn dilyn arbedion ychwanegol ac oherwydd bod digwyddiadau wedi cael eu gohirio yn 2020/21"*.[138] Ar yr un pryd, mae wedi nodi strategaeth "*sy'n canolbwyntio ar gynnwys unigryw tra dylanwadol, gan gomisiynu llai o deitlau, ond teitlau mwy o ansawdd uwch sy'n gallu cyrraedd mwy o gynulleidfaoedd a gyda mwy o gyfleoedd ar gyfer arloesi creadigol".*[139] Gallai hyn olygu cynhyrchu llai o oriau o gynnwys yn y pen draw: mae'r BBC wedi herio ei hun i ganfod beth fyddai'n rhoi'r gorau i'w wneud pe bai ond yn cynhyrchu 80% o'i oriau presennol.[140]

Gallai gostyngiad mewn oriau gwreiddiol newydd a gomisiynir gan y BBC arwain at gynnydd yn y defnydd o raglenni sy'n cael eu prynu ac ailddarllediadau i lenwi'r amserlen. Er bod rhaglenni sy'n cael eu prynu yn dal yn gyfran fach o gyfanswm yr allbwn, sef 1.8% o gyfanswm oriau rhwydwaith y BBC yn 2020, maent wedi cynyddu dros gyfnod y Siarter. Roedd yr oriau yn 2019 10% yn uwch nag yn 2017, a gwelwyd cynnydd o 20% arall yn 2020 (eto, o bosibl oherwydd effaith Covid-19 ar gynhyrchu).

Fe wnaethom ddweud yn ein penderfyniad ar BBC Three ein bod yn cytuno â'r BBC y gallai rhaglenni sydd wedi'u prynu'n dda chwarae rhan bwysig yng nghyfansoddiad cyffredinol y sianel ac y gallai'r ddau ategu cynnwys gwreiddiol y BBC a denu cynulleidfaoedd ar gyfer y sianel. Fodd bynnag, efallai na fydd rhaglenni sy'n cael eu prynu yn cyfrannu cymaint â chynnwys gwreiddiol at Genhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC. Byddem yn bryderus pe byddai rhaglenni sy'n cael eu prynu yn chwarae rôl rhy fawr yng nghymysgedd cynnwys cyffredinol y BBC. Rydym yn credu ei bod yn bwysig i'r BBC gynnal ei ymrwymiad i ganolbwyntio ar gynnwys gwreiddiol o'r DU ar gyfer pob cynulleidfa, gan gynnwys genres sydd mewn perygl.

Wrth fwrw ymlaen â'i strategaeth, bydd angen i'r BBC gydbwyso gwerth cynnwys tra dylanwadol ac amrywiaeth eang o gynnwys i gynnal ei arlwy unigryw ar gyfer pob cynulleidfa. Yn ein gwaith ar adolygu'r Drwydded Weithredu, byddwn yn ystyried sut mae sicrhau bod cynulleidfaoedd yn parhau i elwa o gymysgedd eang o gynnwys gwreiddiol.

## Mae penderfyniadau comisiynu ac amserlennu'r BBC i gyd yn gallu cefnogi natur unigryw ac arloesi

Mae comisiynu gan amrywiaeth eang o gynhyrchwyr yn debygol o gefnogi natur unigryw ac arloesi. Mae'r BBC yn defnyddio nifer fawr ac amrywiaeth eang o gynhyrchwyr yn gyson: defnyddiodd 340 o gynhyrchwyr allanol yn 2020. Roedd hyn i lawr o 360 yn 2019, ond dyma oedd yr ail uchaf erioed.[141] Roedd cwmnïau cynhyrchu annibynnol cymwys[142] yn cyfrif am 34% o oriau teledu'r BBC yn 2020, i

[138] Cynllun Blynyddol y BBC 2021/22.
[139] Cynllun Blynyddol y BBC 2021/22.
[140] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2020/21.
[141] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Mae'r ffigurau'n cynnwys cwmnïau cynhyrchu sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cynnwys gwreiddiol yn unig ac sy'n adlewyrchu enwau'r cyflenwyr sy'n cael eu defnyddio ar draws rhaglenni'r rhwydwaith a'r gwledydd a'r rhanbarthau.
[142] Mae cwmni cynhyrchu annibynnol cymwys yn gwmni heb fod ynghlwm wrth ddarlledwr yn y DU drwy gydberchnogaeth arwyddocaol (a ddiffinnir yng Ngorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) 1991 (fel y'i diwygiwyd)). Nid yw oriau teledu cymwys y BBC yn cynnwys newyddion, a rhaglenni lle mae cyllid y BBC yn llai na 25%.

fyny o 32% yn 2019.[143] Mae Adroddiad Cyflenwi Comisiynu Teledu y BBC yn nodi ei gynlluniau i gefnogi cynhyrchwyr bach ac amrywiol.

Mae nifer y cyfresi neu deitlau sydd newydd gael eu cyflwyno yn erbyn teitlau sy'n dychwelyd yn un procsi ar gyfer sut mae'r BBC yn cymryd risg. Roedd y BBC wedi cynnal y cydbwysedd hwn yn 2020. Roedd 49% o'r teitlau gwreiddiol a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn yn deitlau newydd, o'i gymharu â 48% yn 2019, i fyny o 42% yn 2017. Roedd oriau comisiynau newydd hefyd yn sefydlog o'i gymharu â 2019, ac yn uwch na 2017. Ond, roedd elfen o hyn yn dod o gyfresi newydd yn addasu digwyddiadau chwaraeon o'r archif, fel *Euros Rewind* ac *Olympics Rewind*, fel ymateb i'r tarfu yn sgil y pandemig.[144]

Yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, mae'r BBC yn tynnu sylw at raglenni pwysig ac amserol fel enghreifftiau o raglenni arloesol ac unigryw. Gall y rhain fod yn wahanol o ran eu risg greadigol a defnyddio talent newydd, yn ogystal ag o ran eu strategaeth rhyddhau ac amserlennu i ddenu cynulleidfaoedd newydd. Er enghraifft, roedd *Normal People* ar gael fel cyfres gyfan ar BBC iPlayer cyn i'r gyfres gael ei darlledu am y tro cyntaf ar BBC One. Dywedodd y BBC fod y gyfres wedi rhoi'r wythnos orau i BBC Three ar BBC iPlayer pan gafodd ei rhyddhau, gyda dros 16.2 miliwn o geisiadau am y rhaglen ar draws pob un o'r 12 pennod. Arweiniodd hyn ati'n dod yn gyfres fwyaf poblogaidd 2020 ar y llwyfan. Ar deledu sy'n cael ei ddarlledu, ymddangosodd *Normal People* ar BBC One yn y slot cystadleuol am 9pm ar nos Lun, gyda 3.3 miliwn yn gwylio pob pennod ar set deledu ar gyfartaledd. Roedd hyn yn is na chyfartaledd y slot o 4.5 miliwn. Ond, wrth gynnwys gwylio a oedd yn cael ei ddarlledu ymlaen llaw ac ar ddyfeisiau eraill roedd 4.9 miliwn o bobl yn gwylio pob pennod ar gyfartaledd. Roedd ystod oedran eang i'w chynulleidfa ar deledu a ddarlledir, a gyda 14% yn y grŵp oedran 16-34, roedd yn gogwyddo ychydig yn iau na dramâu eraill y BBC fel *Killing Eve*, *Bloodlands* a *The A Word*.[145]



[143] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom.
[144] Mae data ar gyfresi newydd a chyfresi sy'n dychwelyd yn ôl genre ar gael yn yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol.
[145] BARB yn fyw a hyd at 28 diwrnod ar ôl darlledu. Mae dyfeisiau eraill yn cynnwys gwylio ar gyfrifiaduron/gliniaduron a dyfeisiau tabled. Edrychwch ar y tab *ffocws Drama* yn adran Diben 3 yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol.

### Gallai'r BBC fynd ymhellach i ddangos i wylwyr a gwrandawyr sut mae'n arloesi ac yn cymryd risgiau yn ei allbwn

Mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o'r BBC o ran cymryd risg ac yn arloesi yn dal yn gyson isel o'i gymharu ag agweddau eraill ar y Diben hwn, gydag ychydig o dan hanner (48%) oedolion y DU yn rhoi sgôr cadarnhaol i'r BBC ar ddarparu cynnwys sy'n *'meiddio bod yn wahanol'*, tra bod 49% yn rhoi sgôr cadarnhaol ar ddarparu cynnwys sy'n *'wahanol i ddarparwyr eraill'*. Mae hyn eto'n amrywio yn ôl pa wasanaethau'r BBC mae cynulleidfaoedd yn eu defnyddio. Er enghraifft, mae 61% o'r rheini sy'n gwylio cynnwys BBC Three bob wythnos yn cytuno bod y BBC yn *'darparu cynnwys sy'n meiddio bod yn wahanol'*, gan gynyddu eto i 68% o ddefnyddwyr BBC Sounds. Yn ein Hadroddiadau Blynyddol blaenorol, rydym wedi annog y BBC i ystyried sut gall fynd ymhellach i ddangos a mesur effaith ei weithgareddau sy'n cyfrannu at arloesi.

Eleni, rydym wedi gofyn i'r BBC am ragor o wybodaeth am ei ddull o gymryd risg ac arloesi, a sut mae hyn yn rhan o'i benderfyniadau creadigol. Mae'r BBC yn nodi gwahanol fathau o arloesi a risg greadigol wrth, er enghraifft, gomisiynu drama newydd gyda thalent newydd ar y sgrin (fel *I May Destroy You* a'r gyfres o ffilmiau *Small Axe*). Mae hefyd yn datgan ei fod yn arloesi mewn rhaglenni sefydledig a fformatau sy'n dychwelyd drwy eu hadnewyddu a denu gwylwyr newydd. Er enghraifft, gyda thîm cyflwyno newydd ar *Top Gear* neu dechnegau cynhyrchu newydd (oherwydd cyfyngiadau Covid-19) ar *Strictly Come Dancing* ac yng nghynnwys *Proms y BBC*. Mae'r BBC yn credu y gall fod yn anodd mesur arloesedd, ac mae'n edrych ar berfformiad teitlau ar draws ystod o fesurau cynulleidfa, gan gynnwys newidiadau mewn gwylio a phroffil cynulleidfaoedd, canfyddiadau cynulleidfaoedd o ansawdd, natur unigryw a gwreiddioldeb ei raglenni a'i wasanaethau. Cyfeiriodd y BBC hefyd at nifer ac ehangder gwobrau'r diwydiant, fel y rhai gan BAFTA, fel un mesur o *"ansawdd, arloesedd, her, cymryd risgiau ac uchelgais creadigol."*

Mewn perthynas â'i wasanaethau radio rhwydwaith, tynnodd y BBC sylw at benderfyniadau amserlennu, fel symud rhaglenni arbenigol i slotiau cynharach (hynny yw, o hwyr yn y nos i gyda'r nos) fel ffordd o ddangos cynnwys gwahanol i gynulleidfaoedd newydd ac ehangach posibl. Cyfeiriodd y BBC hefyd at raglenni datblygu talent sydd â'r bwriad o ddenu doniau cynhyrchu a chyflwyno newydd o gefndiroedd mwy amrywiol.

Rydym yn cydnabod bod nifer o wahanol ffyrdd mae'r BBC yn cymryd risgiau ac yn arloesi ar draws ei gynnwys a'i wasanaethau, gan gynnwys gweithgareddau fel y rheini sy'n cael eu hamlygu, a allai gyfrannu at natur unigryw. Rydym hefyd yn cydnabod nad oes un dull gweithredu ar gyfer arloesi a chymryd risgiau creadigol, na'r un canlyniad sy'n deillio o hynny, a bod y BBC yn cynnal ymchwil ymysg cynulleidfaoedd i fesur ymatebion cynulleidfaoedd i raglenni a gwasanaethau a'u canfyddiadau at y diben hwn.

Fodd bynnag, mae ein hymchwil yn awgrymu nad yw cynulleidfaoedd bob amser yn credu bod y BBC yn cymryd risgiau ac yn arloesi: os bydd yr argraffiadau hyn yn parhau, gallai apêl a gwerth gwasanaethau'r BBC, i wahanol fathau o gynulleidfaoedd, ddioddef o ganlyniad. Gall cymryd risg ac arloesi helpu'r BBC i greu cysylltiadau â chynulleidfaoedd drwy ddangos iddynt ei fod yn cynnig rhywbeth unigryw sy'n apelio at bawb. Felly, rydym yn annog y BBC i ystyried sut gall fynd ymhellach i fesur ac adrodd ar yr hyn mae'n ei wneud yn y maes hwn.

### Mae BBC iPlayer a BBC Sounds yn dod yn fwyfwy pwysig o ran cyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus: mae rhagor i'w wneud er mwyn gwreiddio eu cyfraniad yn llawn yn adroddiadau perfformiad y BBC

Yn ystod cyfnod y Siarter, mae gwasanaethau ar-alw wedi dod yn rhan allweddol o strategaeth a darpariaeth cynnwys y BBC. Yn 2019 roeddem wedi cymeradwyo ei gynllun i gynyddu'r cynnwys oedd ar gael drwy ddatblygu BBC iPlayer y tu hwnt i wasanaeth dal i fyny 30 diwrnod. Lansiodd y BBC ei wasanaeth sain ar-lein, BBC Sounds[146] yn 2018, ac mae wedi dod yn fwy a mwy poblogaidd.

Yn y gorffennol, rydym wedi gofyn i'r BBC gyhoeddi rhagor o wybodaeth am gynnwys a pherfformiad cynulleidfaoedd BBC iPlayer a BBC Sounds. Mae rhai gwelliannau eleni yn adroddiad y BBC yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon; er enghraifft, mae wedi cyhoeddi metrigau ychwanegol ar ddefnyddwyr cofrestredig a'r defnydd o BBC Sounds ac wedi dod â'r holl fetrigau cysylltiedig at ei gilydd i'w gwneud yn haws dod o hyd i wybodaeth am berfformiad.

Mae cynnydd wedi bod yn y nifer sy'n defnyddio'r ddau wasanaeth, gyda thwf penodol yn 2020/21, pan oedd 28% yn fwy o raglenni'n cael eu ffrydio ar BBC iPlayer o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a thua dwy ran o dair yn fwy o gynnwys yn cael ei chwarae ar BBC Sounds.[147] Yn 2021, roedd 36% o oedolion yn defnyddio BBC iPlayer bob wythnos,[148] gyda 18% yn defnyddio BBC Sounds.[149]

Gwasanaethau darlledu'r BBC yw'r brif ffordd o hyd i wylwyr a gwrandawyr ganfod a chael gafael ar raglenni'r BBC. Mae gwylwyr hefyd yn defnyddio BBC iPlayer i wylio rhaglenni'n fyw, ac mae radio byw yn cynrychioli dros hanner y cynnwys sy'n cael ei chwarae drwy BBC Sounds.[150] Mae ein hymchwil hefyd yn awgrymu bod cynulleidfaoedd yn credu bod BBC iPlayer yn wasanaeth dal i fyny yn bennaf, yn wahanol i wasanaethau SVoD sy'n cael eu hystyried yn gyrchfannau i ddod o hyd i gynnwys newydd. [151]

Yn ei Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2020/21, mae'r BBC yn cyflwyno ei nod o *"gael mwy allan o'i arlwy ar-lein"* drwy gyflymu gwaith i wella'r broses chwilio, argymhellion a mynediad er mwyn cynyddu defnydd a defnyddwyr. Dywedodd y bydd yn parhau i esblygu BBC Sounds i ddarparu mwy o werth i bob cynulleidfa, gan gynnwys comisiynu rhywfaint o gynnwys ar gyfer gwasanaethau llinol a BBC Sounds gyda'i gilydd, a chynnwys unigryw, digwyddiadau nodedig a chynnwys rhyngweithiol.

Mae'r BBC hefyd yn cyfeirio at ddatblygiadau technoleg fel ffordd o arloesi er mwyn diwallu anghenion cynulleidfaoedd yn well. Er enghraifft, mae'n ystyried bod gallu BBC iPlayer i greu profiad personol i ddefnyddwyr, ei opsiynau aml-lwyfan ar gyfer gwylio, a churadu cynnwys sy'n cyfuno data ac arbenigedd golygyddol yn golygu ei fod yn wasanaeth unigryw ac arloesol.

Mae'r gwasanaethau ar-alw yn rhoi cyfle i'r BBC gael mwy o effaith gyda'i gynnwys a chyrraedd cynulleidfaoedd nad yw o bosibl yn eu cyrraedd drwy ei wasanaethau darlledu. Bydd i ba raddau y mae BBC iPlayer a BBC Sounds yn cyfrannu at natur unigryw yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Gallai'r rhain gynnwys i ba raddau mae cynulleidfaoedd yn dod i gysylltiad ag amrywiaeth o genres a chynnwys gwreiddiol o'r DU, a sut mae'r cynnwys hwn yn cael ei wneud yn amlwg ac yn hawdd dod

---

146 Disodlwyd BBC iPlayer Radio – gwasanaeth sain ar-lein blaenorol y BBC - gan BBC Sounds
147 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2020/21.
148 Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2020/21
149 Arolwg Sain Ofcom, Mawrth 2021.
150 Mae'r BBC yn adrodd bod 20% o geisiadau BBC iPlayer a 56% o'r cynnwys sy'n cael ei chwarae ar BBC Sounds yn rhaglenni byw. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2020/21.
151 Ymchwil Covid-19 BBC Ofcom.

o hyd iddo. Bydd yn bwysig i'r BBC ddod o hyd i ffyrdd o annog cynulleidfaoedd i archwilio ehangder y cynnwys sydd ar gael drwy'r gwasanaethau hyn, ac adrodd ar hyn.

Bydd angen i'r BBC barhau i ddatblygu sut mae'n mesur y ffordd mae'n cyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus ar draws gwasanaethau darlledu ac ar-alw. Mae llawer o'r mesurau a ddefnyddir gan Ofcom a'r BBC wedi'u gwreiddio mewn gwasanaethau darlledu. Nid yw mesur darpariaeth ar-lein yn effeithiol yn fater sy'n unigryw i'r BBC ac rydym yn ystyried dulliau mesur ar gyfer y dyfodol ar gyfer y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn dilyn ein datganiad *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr.* Yn ein hadolygiad o'r Drwydded Weithredu byddwn yn ystyried sut dylai'r drwydded gynnwys gwasanaethau ar-lein y BBC yn fwy cynhwysfawr, gan gynnwys mesur ac adrodd ar gyfraniad y gwasanaethau hyn at gyflawni'r Genhadaeth a'r holl Ddibenion Cyhoeddus.

## Amodau'r Drwydded Weithredu

Ochr yn ochr â'n hasesiad perfformiad ehangach, rydym yn ystyried perfformiad y BBC yn erbyn amodau perthnasol Diben 3 y Drwydded Weithredu. Eleni, oherwydd amgylchiadau eithriadol y pandemig, methodd y BBC â bodloni dau o amodau'r drwydded sy'n ymwneud â'r diben hwn: nifer y chwaraeon gyda sylwebaeth fyw ar BBC Radio 5 Live a nifer y sesiynau newydd (byw neu wedi'u recordio) ar BBC Radio 1. Cyn hyn, roedd y BBC wedi cydymffurfio ag amodau perthnasol Diben 3 y Drwydded Weithredu.[152] Ewch i'r Atodiad Cydymffurfio am asesiad llawn o ofynion y Drwydded Weithredu.

[152] Ac eithrio yn 2018/19 lle bu diffyg o 3 awr yn erbyn y cwota ar gyfer cerddoriaeth fyw ar BBC Radio 2.

# Diben Cyhoeddus 4:
## adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol y DU

Yn draddodiadol, mae diben 4 yn cael sgôr llai gan gynulleidfaoedd, ac rydym wedi dweud yn gyson bod angen i'r BBC wneud mwy yn y maes hwn. Yn yr adran hon rydym yn edrych ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd yn ôl demograffeg, er mwyn canfod cynulleidfaoedd llai bodlon, sy'n cynnwys pobl anabl, y rheini nad ydynt mor gefnog[153] a'r rheini sy'n byw yn yr Alban. Byddwn wedyn yn ystyried gweithgarwch y BBC yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Yn olaf, rydym yn edrych ar sut mae'r BBC wedi cyflawni ei ofynion amrywiaeth ehangach.


***Mae'r Siarter Frenhinol yn datgan:*** *Dylai'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn ei allbwn a'i wasanaethau. Drwy wneud hynny, dylai'r BBC gynrychioli a phortreadu bywydau pobl y Deyrnas Unedig heddiw yn gywir ac yn ddilys, a chodi ymwybyddiaeth o'r diwylliannau gwahanol a safbwyntiau amgen sy'n creu ei chymdeithas. Dylai sicrhau ei fod yn darparu allbwn a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC ddod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau a helpu i gyfrannu at les a chydlyniant cymdeithasol y Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC, drwy ei waith comisiynu a darparu allbwn, fuddsoddi yn economïau creadigol pob un o'r gwledydd a chyfrannu at eu datblygiad.*

## Sut rydym yn cynnal ein hasesiad

Rydym yn defnyddio nifer o ffynonellau i asesu perfformiad y BBC o ran ei rwymedigaethau amrywiaeth, ar y sgrin ac oddi ar y sgrin. Mae'r rhain yn cynnwys: data mesur y diwydiant, ein hymchwil cynulleidfa ein hunain a'r BBC, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC, Adroddiad Cynnydd blynyddol y BBC ar weithredu'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth (DCCoP), data a ddarparwyd yn uniongyrchol i Ofcom mewn ymateb i gais ffurfiol am wybodaeth ac Adroddiad blynyddol Ofcom ar Amrywiaeth a Chyfle Cyfartal mewn Teledu a Radio.

Mae rhai o'r metrigau allweddol rydym ni'n eu defnyddio i gyfeirio ein hasesiad ar y diben hwn i'w gweld ar y dudalen ganlynol. Mae'r data ategol rydym yn eu defnyddio fel sail i'n hasesiad ar gael yn yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol atodol: cyfeirio at adran Diben 4.

[153] Penderfynir ar grŵp economaidd-gymdeithasol yn sgil nifer o ffactorau gan gynnwys incwm a galwedigaeth. Yn gyffredinol, mae'r grwpiau uchaf, sef A a B, yn fwy tebygol o fod yn gefnog, mae'r grwpiau C1 ac C2 yn y canol, ac mae'r grwpiau isaf, sef D ac E, yn llai tebygol o fod yn gefnog.




[154] Ffynonellau a ddefnyddiwyd yn y dangosfwrdd: Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2020/21; Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; ymateb y BBC i gais Ofcom am wybodaeth. Mae'r acronym 'LGB' (lesbian, gay, bisexual, sef lesbiaidd, hoyw, deurywiol) a ddefnyddir yn y dangosfwrdd hwn yn dilyn y diffiniad cyfreithiol o gyfeiriadedd rhywiol fel nodwedd warchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Rydym wedi defnyddio'r term hwn i sicrhau cysondeb â set ddata Amrywiaeth mewn Darlledu (DiB) Ofcom 2021. Rydym yn ailedrych ar y disgrifiadau hyn yn 2022 mewn adolygiad o'n holiaduron data amrywiaeth. Mae hunaniaethau traws yn cael eu cofnodi dan ryw ac ailbennu rhywedd yn hytrach na chyfeiriadedd rhywiol.

## Asesu perfformiad

Mae llwyddiant y BBC yn y dyfodol yn dibynnu ar ei allu parhaus i gysylltu ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd, a'i fod yn dal yn berthnasol iddynt, ac sy'n disgwyl yn briodol y dylai'r BBC adlewyrchu eu bywydau, ynghyd ag amrywiaeth y DU. O ystyried hyn, mae dyletswydd y BBC i gynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd y DU yn gywir ac yn ddilys yn hollbwysig.

### Mae pa mor dda mae'r BBC yn cynrychioli ac yn portreadu pobl yn parhau i fod yn un o'r agweddau ar berfformiad y BBC sy'n cael y sgôr isaf ar draws yr holl ddibenion

Yn ystod cyfnod y Siarter, rydym wedi canfod bod yr argraffiadau hyn yn tueddu i fod yn is ymysg rhai grwpiau gan gynnwys pobl anabl, y rheini mewn aelwydydd DE a'r rheini sy'n byw yn yr Alban. Gwyddom hefyd o BARB fod gwylio ar draws holl sianeli teledu'r BBC yn amrywio yn ôl demograffeg. Mae ar ei uchaf ymysg grwpiau oedran hŷn, yn enwedig oedolion 75 oed a hŷn, ac ar ei isaf ymysg pobl 16-24 oed.

Yn 2018, fe wnaethom gynnal adolygiad manwl i ddeall sut mae teledu'r BBC yn adlewyrchu ac yn portreadu cymdeithas y DU yn ei chyfanrwydd. Fel rhan o hyn, fe wnaethom siarad ag amrywiaeth eang o wylwyr. Ymysg pethau eraill, gwelsom fod rhai pobl yn teimlo'n llai amlwg ar y teledu: er enghraifft, roedd rhai pobl yn teimlo bod cynnwys y BBC yn adlewyrchu bywydau pobl dosbarth canol yn fwy na phobl o gefndiroedd eraill. Roedd eraill yn poeni am gael eu cyflwyno mewn ffyrdd un dimensiwn, annilys neu ystrydebol: er enghraifft, dywedodd rhai pobl anabl fod y BBC, a theledu yn gyffredinol, yn tueddu i ganolbwyntio ar eu hanawsterau a'u trafferthion. Dywedodd pobl hefyd eu bod eisiau gweld mwy o gynrychiolaeth o'r DU o'r tu allan i'r prif ddinasoedd (yn enwedig Llundain). Mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn, fe wnaethom ysgrifennu at y BBC yn dweud bod angen iddo fynd ymhellach o ran cynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd yn ddilys. Ers hynny, rydym wedi parhau i dynnu sylw at hyn fel maes i'w wella.

Er gwaethaf hyn, mae pryderon ynghylch cynrychioli a phortreadu yn parhau. Eleni yn gyffredinol, roedd 56% o'r holl gynulleidfaoedd yn rhoi sgôr uchel i'r BBC am gynrychioli a phortreadu, sef y sgôr gadarnhaol isaf ar gyfer yr holl ddibenion. Roedd llai na hanner oedolion y DU wedi rhoi sgôr uchel i'r BBC ar '*adlewyrchu bywydau pobl fel fi*' (48%), gyda bron i chwarter yn rhoi sgôr isel i'r BBC am hyn. Mae'r sgôr negyddol yn cael ei sbarduno'n bennaf gan gynulleidfaoedd yn y gwledydd, dynion a'r rheini sy'n 55 oed a hŷn. Eleni, bu i ni ofyn i blant 11-16 oed am eu barn am y BBC. Mae'r canfyddiadau'n dangos i bedwar o bob deg yn unig gytuno bod gan y BBC raglenni *gyda phobl fel fi ynddyn nhw'*.[155] Mae hyn yn bryder oherwydd iddo olygu nad yw dros hanner o'r grŵp oedran hwn yn cytuno bod y BBC yn cynrychioli nhw; gallai cynaladwyedd y BBC yn y dyfodol fod mewn perygl os na fydd cynulleidfaoedd iau yn ymgysylltu â'i gynnwys.

## Y gwledydd a'r rhanbarthau

### Mae canfyddiadau o gynrychioli a phortreadu yn fwy cadarnhaol ymysg cynulleidfaoedd yng Nghymru a Lloegr na'r rhai yn yr Alban a Gogledd Iwerddon

Rydym wedi tynnu sylw o'r blaen at y ffaith bod canfyddiadau cadarnhaol o amrywiaeth cynnwys y BBC sy'n cynrychioli Cymru gryn dipyn yn is na chyfartaledd y Deyrnas Unedig. Eleni, gwelsom fod yr holl fetrigau cynrychioli a phortreadu ar gyfer Cymru yn cyd-fynd â chyfartaleddau'r DU. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn parhau i'w adolygu er mwyn deall a yw'n adlewyrchu gwelliant tymor hirach.

---

[155] Traciwr Ofcom o Bobl Ifanc yn eu Harddegau y BBC 2020/21.

Roedd canfyddiadau cynulleidfaoedd yn Lloegr hefyd yn gadarnhaol ar y cyfan ac yn cyd-fynd â chyfartaledd y DU, er bod rhywfaint o amrywiaeth rhwng rhanbarthau. Yn gyffredinol, mae bodlonrwydd ar ei uchaf yn Llundain, fel sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd blaenorol, ond yn is na'r cyfartaledd yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr. Roedd pobl yn yr Alban yn rhoi sgôr is i'r BBC na chyfartaledd y DU (50%) am '*adlewyrchu bywyd a diwylliant cymunedau ledled y DU*', ac roedd y rheini yng ngogledd Lloegr yn llai tebygol o roi sgôr gadarnhaol na phobl Llundain am '*ddarparu cynnwys sy'n berthnasol i mi*'. Y llynedd, fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith bod y canfyddiadau cadarnhaol yng Ngogledd Iwerddon wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn. Eleni, er bod y canfyddiadau cyffredinol yn cyd-fynd â chyfartaledd y DU, roedd y sgoriau'n is na'r cyfartaledd o ran a ydy'r BBC '*yn cynrychioli'r wlad lle rydw i'n byw*' (48% ar gyfer Gogledd Iwerddon o'i gymharu â 55% ar gyfartaledd y DU) ac '*yn darparu cynnwys sy'n berthnasol i mi*' (47% ar gyfer Gogledd Iwerddon o'i gymharu â 54% ar gyfartaledd y DU).

### Mae'r BBC yn cymryd camau i wella canfyddiadau cynulleidfaoedd yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU, er nad yw hyn wedi newid eto i ddangos mwy o fodlonrwydd ymysg grwpiau penodol

Ym mhob un o'n Hadroddiadau Blynyddol ar y BBC (ers i ni ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ei reoleiddio yn 2017), rydym wedi dweud bod angen i'r BBC gymryd camau i wella canfyddiadau cynulleidfaoedd sydd, yn ein barn ni, yn llai bodlon â hynny'n gyson. Yn benodol, fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith bod angen i'r BBC wneud mwy i apelio at gynulleidfaoedd yn yr Alban yn ein hadroddiad yn 2018/19. Lansiodd y BBC ei sianel deledu BBC Scotland ym mis Chwefror 2019 ac mae wedi dweud wrthym fod ganddi ffocws cryf ar gomisiynu rhaglenni sy'n portreadu cynulleidfaoedd yn yr Alban. Mae enghreifftiau o raglenni o'r fath yn cynnwys *Scotland's Home of the Year, Inside the Zoo* a *My Kind of Town*.

Ers ei lansio, mae cyfran BBC Scotland o'r lefelau gwylio a ddarlledir yn yr Alban wedi bod o fewn yr ystod ddisgwyliedig (2% yn 2019 a 2.2% yn 2020).[156] Ar ben hynny, gwelwyd cynnydd yn lefelau gwylio cynnwys BBC Scotland ar BBC iPlayer, cynnydd o 19% yn 2021 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.[157] Rydym hefyd yn gwybod bod y rheini sy'n gwylio BBC Scotland yn fwy tebygol o gael canfyddiadau cadarnhaol o'r BBC. Ond er gwaethaf hyn, mae'r sianel wedi cael effaith gyfyngedig ar ganfyddiadau cynulleidfa cyffredinol yn yr Alban, o ystyried bod bodlonrwydd ymysg pobl yn yr Alban yn dal yn isel ar y cyfan.[158]

Eleni, mae'r BBC wedi rhoi rhagor o wybodaeth i ni am y camau mae'n eu cymryd i wella canfyddiadau cynulleidfaoedd gwahanol, gan gynnwys yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU. Er enghraifft, mae'r BBC wedi rhoi enghreifftiau i ni o raglenni a gomisiynwyd i bortreadu ac apelio at gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Roedd Bloodlands, a oedd, yn ôl y BBC, yn dangos sgiliau, talent a lleoedd lleol yng Ngogledd Iwerddon, wedi denu cyfran cynulleidfa o 52% yng Ngogledd Iwerddon o'i gymharu â 33% yn y DU yn gyffredinol, ac roedd cyfran gwylio rhaglenni ar gyfer cyfres tri o *Keeping Faith* saith pwynt canran yn uwch yng Nghymru na chyfartaledd y DU.[159]

---

[156] BARB: Cyfran yr holl wylio ar sianeli darlledu rhwng 7pm a hanner nos, yn yr Alban.
[157] Data mewnol y BBC: 60.06 miliwn o ffrydiau rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020 a 71.6 miliwn o ffrydiau rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021.
[158] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2020/21
[159] BARB: Data cyfunol 28 diwrnod.

Rydym yn croesawu'r camau y mae'r BBC yn eu cymryd i wella bodlonrwydd cynulleidfaoedd, a'r ffaith ei fod yn monitro effaith rhaglenni ar grwpiau penodol. Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu hyn wedi arwain at fwy o foddhad eto. Fel y nodwyd gennym yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nid yw'n anochel y bydd cynlluniau'r BBC yn sicrhau gwelliannau i'w gynulleidfaoedd, a bydd angen i'r BBC gadw golwg ar ba mor dda mae'n gwneud yn erbyn targedau penodol er mwyn gwybod a yw ei strategaeth ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau yn gweithio.



## Gallai cynllun Ar Draws y DU y BBC ei helpu i wella bodlonrwydd cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau

Mae'r cynllun Ar Draws y DU, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, yn nodi amrywiaeth o gynigion lefel uchel ynghylch gweithgarwch y BBC yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU, gan gynnwys ymrwymiad i ddyblu nifer y cyd-gomisiynau'r gwledydd sy'n ymddangos ar sianeli ledled y DU, a chynyddu ei darged gwario o 50% i 60% ar gyfer comisiynau rhwydwaith a wneir y tu allan i Lundain.

Mae'r BBC wedi dweud wrthym, fel rhan o'r strategaeth hon, bod y deg o'i gyfleoedd wedi'u targedu[160] ar gyfer comisiynau teledu rhwydwaith ers mis Ebrill 2020 wedi canolbwyntio ar bortreadu yn ogystal â chyflenwyr y gwledydd a'r rhanbarthau.[161] Roedd gan bob un o'r pum cyfle a gafodd eu targedu gan BBC Three a gyhoeddwyd yn 2020/21 ffocws daearyddol penodol i wella'r ffordd roedd cynulleidfaoedd ifanc yn cael eu portreadu mewn ardaloedd ar draws y DU, gan gynnwys Gogledd Iwerddon, Cymru a'r Alban.

Gallai'r strategaeth hon helpu'r BBC i wella canfyddiadau cynulleidfaoedd yn y gwledydd, yn ogystal ag mewn rhannau eraill o'r DU, yn enwedig os yw'r cynyrchiadau'n cynnwys lleoliadau, castiau a straeon o'r gwledydd a'r rhanbarthau.

Y llynedd, adroddom fod rhanddeiliaid y BBC wedi mynegi pryderon ynghylch tryloywder buddsoddi, strategaeth a pherfformiad y BBC yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac maent o'r farn nad oes digon o fanylion am y materion hyn yn Adroddiadau a Chyfrifon Blynyddol y BBC. Rydym yn credu bod y

[160] Roedd y cyfleoedd gafodd eu targedu gan y BBC yn gosod gofynion penodol ar gyfer cwmnïau cynhyrchu sy'n edrych am gomisiynau. Maent fel arfer yn cynnwys sesiynau briffio a gynhelir gan gomisiynwyr, gydag ymchwil cynulleidfa os ydynt ar gael. Mae briff ysgrifenedig hefyd yn cael ei gyhoeddi ar y wefan Comisiynu.
[161] Gwybodaeth a ddarparwyd i Ofcom ym mis Medi 2021.

cynllun Ar Draws y DU yn gam cadarnhaol tuag at sicrhau bod y BBC yn fwy agored a thryloyw ynghylch hyn.

Fodd bynnag, cyn cyhoeddi rhagor o fanylion am y cynlluniau hyn ac o ystyried y diddordeb hirsefydlog yn y mater hwn gan Senedd yr Alban ac eraill, roeddem wedi gofyn i'r BBC ddarparu gwybodaeth benodol am ei strategaeth ar gyfer ariannu BBC ALBA. Mewn ymateb, nododd y BBC y gwahanol elfennau sy'n rhan o'i wariant ar y sianel[162] a nododd y ffactorau mae'n eu hystyried wrth bennu'r gwariant.[163] Dywedodd y BBC wrthym hefyd ei fod wedi cynyddu ei gyfraniad dros y blynyddoedd, gan gynnwys ariannu'r gwaith o ddarparu newyddion ar benwythnosau ar MG ALBA (a BBC Radio nan Gàidheal) o 2018 a chynhyrchu cyd-gomisiynau gyda BBC Scotland. Yn unol ag ymrwymiadau Ar Draws y DU, dywedodd y BBC wrthym hefyd ei fod yn cydnabod bod angen diweddaru'r Cytundeb Cydweithio presennol rhwng MG ALBA a'r BBC er mwyn adlewyrchu'r dirwedd ddigidol yn well, er mwyn cefnogi datblygiad talent newydd a dylai gynnwys adolygiad o'r fframwaith llywodraethu cyffredinol rhwng y sefydliadau. Deallwn fod y broses o adnewyddu'r Cytundeb Cydweithio wedi dechrau ac edrychwn ymlaen at weld canlyniad hynny maes o law.

Bydd llwyddiant strategaeth y BBC yn dibynnu ar ba mor dda mae'n gweithredu ei gynlluniau. Er bod rhai o'r ymrwymiadau'n dargedau rhifol mesuradwy, mae eraill, fel y model comisiynu ar draws y DU, yn anoddach eu mesur, ac mae ymrwymiadau penodol i Ogledd Iwerddon yn gyfyngedig o'u cymharu â'r rhai ar gyfer gwledydd eraill. Er ei bod yn ddefnyddiol bod y BBC wedi nodi ei strategaeth ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau, mae hefyd yn bwysig ei fod yn nodi ei gynlluniau gweithredu manwl, a faint o fuddsoddiad fydd mewn meysydd penodol. Bydd yn hanfodol i'r BBC fesur effaith ei gynlluniau i sicrhau ei fod yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd a'r economi greadigol.

Yn olaf, mae'n bwysig bod holl wledydd y DU yn cael eu cynrychioli ar bob lefel o benderfyniadau'r BBC, er mwyn dal y BBC i gyfrif am ei gynlluniau a'i weithredoedd yn y gwledydd hynny. Mae'n ofynnol o dan y Siarter[164] i Fwrdd y BBC gynnwys un aelod anweithredol ar gyfer pob un o wledydd y DU. Mater i Lywodraeth y DU yn hytrach na'r BBC yw recriwtio, ond nid yw aelod o'r Bwrdd ar gyfer Gogledd Iwerddon wedi cael ei benodi eto ac mae Gogledd Iwerddon yn parhau i fod yr unig wlad ddatganoledig heb aelod dynodedig o'r Bwrdd.

## Mae'r BBC wedi cymryd camau i geisio lliniaru effeithiau argyfwng Covid-19 ar ei allbwn yn y gwledydd a'r rhanbarthau

O dan y Drwydded weithredu newydd a gyflwynwyd gennym yn 2017, fe wnaethom osod rheolau a oedd yn dweud bod rhaid i'r BBC wario tua'r un faint ar raglenni y pen, a gwneud tua'r un faint o gomisiynau y pen, ym mhob un o bedair gwlad y DU. Ar draws cyfnod y Siarter hyd yma, mae'r BBC wedi bod yn gyson o ran cyrraedd y targedau hyn ar raglenni rhwydwaith cymwys y mae'n rhaid eu gwneud yn y gwledydd a rhanbarthau Lloegr. Mae'r rhain yn uwch na'r gofynion cyfatebol a osodwyd ar ITV, Channel 4 a Channel 5.

Nid oedd y BBC wedi cyrraedd ei holl gwotâu eleni oherwydd amgylchiadau arbennig a achoswyd gan argyfwng Covid-19. Rydym yn nodi hyn yn fanylach yn yr Atodiad Cydymffurfio. Fodd bynnag, rydym yn fodlon ar y cyfan bod y BBC wedi cymryd camau priodol i liniaru effeithiau methu'r

[162] Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant yn mynd ar gostau staff a chostau cynhyrchu uniongyrchol ac anuniongyrchol rhaglenni a gynhyrchir yn fewnol ar draws amrywiaeth o genres,
[163] Mae'r rhain yn cynnwys y galw am y gwasanaeth; y cyd-destun cyllido cyffredinol a gwerth am arian, yn ogystal ag anghenion y rheini sydd â gwybodaeth a diddordeb mewn iaith leiafrifol, wedi'u cydbwyso ag anghenion talwyr ffi'r drwydded yn gyffredinol.
[164] Erthygl 23(1) o'r Siarter.

targedau hyn ar yr economi greadigol, a chynulleidfaoedd, lle bynnag y bo modd. Dywedodd y BBC wrthym ei fod wedi cefnogi'r economi greadigol drwy helpu gyda llif arian a thalu costau ychwanegol cynhyrchu sy'n gysylltiedig â Covid-19.

Roedd y BBC wedi cefnogi 96 o gwmnïau drwy ei Gronfa Cwmnïau Annibynnol Bach, ddwywaith cymaint ag a fwriadwyd yn wreiddiol, ac mae dwy ran o dair o'r rhain wedi'u lleoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae wedi adnewyddu ei bartneriaeth chwe blynedd lwyddiannus gyda Northern Ireland Screen, ac wedi sefydlu mentrau tebyg yn yr Alban a Gogledd Lloegr, sydd wedi sicrhau comisiynau ar gyfer y sector. Er enghraifft, mae *Guilt*, a ddarlledwyd ar BBC Two a BBC Scotland, wedi dychwelyd yn ddiweddar am ail gyfres ac fe'i cefnogwyd gan Screen Scotland.

Darparodd y BBC gynnwys addysgol ychwanegol yn unol â chwricwla'r gwledydd datganoledig yn ystod argyfwng Covid-19 i gefnogi myfyrwyr sy'n dysgu gartref. Roedd hefyd yn defnyddio ailddarllediadau a oedd yn canolbwyntio ar bortreadu cymunedau penodol, er mwyn lliniaru effeithiau cynnwys newydd cyfyngedig ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd, a dulliau cynhyrchu wedi'u haddasu i gynhyrchu cynnwys o fewn canllawiau Covid-19, fel *Shelf Isolation* gan BBC Scotland.

Y llynedd, fe wnaethom ddweud bod y BBC mewn sefyllfa gref i gefnogi economi greadigol y DU yn ystod ei adferiad, o ystyried cyllid y BBC a faint o inswleiddio rhag rhagor o siociau yn y farchnad y mae hyn yn ei ddarparu. Yn ei Gynllun Blynyddol, dywedodd y BBC y bydd ei gynllun Ar Draws y DU yn ei alluogi i wario o leiaf £700m yn ychwanegol y tu allan i Lundain erbyn 2027/28, gan greu budd economaidd ychwanegol o dros £850m.[165] Byddwn yn monitro gweithgarwch y BBC yn dilyn argyfwng Covid-19 i sicrhau ei fod yn cymryd camau priodol i helpu i adfer y sector yn dilyn effaith y cyfnodau clo ar gynyrchiadau yn y DU.

### Dywedodd y cynhyrchwyr y buom yn siarad â nhw y tu allan i Lundain wrthym fod comisiynu drwy gyfarfodydd ar-lein wedi gwella mynediad at gomisiynwyr

Y llynedd, fe wnaethom annog y BBC i ystyried sut y gall ymgorffori'r datblygiadau cadarnhaol o gomisiynu cynnwys yn ystod argyfwng Covid-19, fel agor mynediad at gomisiynwyr yn Llundain ar gyfer cwmnïau cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

Eleni, wrth i fwy o waith comisiynu gael ei wneud ar-lein, mae cynhyrchwyr wedi dweud wrthym eu bod wedi cael gwell mynediad at gomisiynwyr, ni waeth ble maen nhw wedi'u lleoli. Cynhaliodd y BBC 25 briff comisiynu yn 2020 (roedd 22 ohonynt ar-lein) a dywedodd fod y briffiadau ar-lein ar gael ledled y DU a oedd yn rhoi mwy o fynediad i bawb.[166] Mae dros hanner y cynhyrchwyr y mae'r BBC yn gweithio gyda nhw wedi'u lleoli y tu allan i Lundain; 57% yn 2019 a 2020, i fyny o 50% yn 2018. [167]

Rydym unwaith eto'n annog y BBC i barhau â'i ymrwymiad i weithio gyda chynhyrchwyr y tu allan i Lundain, gan gynnwys drwy gynnal sesiynau briffio ar-lein lle bo hynny'n briodol. Rydym hefyd yn croesawu ymrwymiad y BBC i 'fodel comisiynu ar draws y DU' yng nghynllun Ar Draws y DU, ac yn ei annog i sicrhau ei fod yn dysgu gwersi o'r ffyrdd newydd o weithio a ddatblygwyd yn ystod argyfwng Covid-19.

[165] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2020/21.
[166] Adroddiad Cyflenwi Comisiynu'r BBC 2020.
[167] Gweler Adroddiadau Cyflenwi Comisiynu 2018, 2019 i 2020. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys rhaglenni rhwydwaith a rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau.

## Ymrwymiadau o ran amrywiaeth

Ynghyd â gwasanaethu gwledydd a rhanbarthau'r DU, mae gan y BBC rwymedigaethau amrywiaeth ehangach o dan Ddiben 4, sy'n cynnwys cynrychioli cymunedau amrywiol y DU yn gywir ac yn ddilys.

### Dros gyfnod y Siarter, mae'r BBC wedi gwneud cynnydd yn ei adroddiadau i ni ar sut mae'n gweithio i wella canfyddiadau ymysg cynulleidfaoedd llai bodlon

Rydym wedi dweud dro ar ôl tro bod angen i'r BBC nodi'n glir ei grwpiau cynulleidfa llai bodlon ac esbonio sut mae wedi diwallu ei anghenion, ac yn bwriadu diwallu'r anghenion hynny. Mewn ymateb i'n cais, y llynedd, nododd y BBC rai cynulleidfaoedd a oedd yn 'llai bodlon', ac eleni mae wedi rhoi rhagor o fanylion i ni ynghylch sut mae'n gweithio i wella canfyddiadau yn y grwpiau hyn. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o effaith amrywiaeth o raglenni y mae wedi'u comisiynu i apelio at grwpiau cynulleidfa penodol, gan ddefnyddio data gwylio ac ymchwil cynulleidfa. Er enghraifft, roedd yn cyfeirio at nifer o raglenni a gomisiynwyd i apelio at gynulleidfaoedd lleiafrifoedd ethnig, fel *Sitting in Limbo*, a sicrhaodd gyfran gwylio o 42% ymysg cynulleidfaoedd Du a 26% ymysg cynulleidfaoedd lleiafrifoedd ethnig, o'i gymharu â chyfartaledd o 12% ar gyfer pob unigolyn.

Eleni, rhoddodd y BBC ragor o fanylion i ni o ran datblygu dull newydd o gomisiynu sesiynau briffio, ar draws pob genre, i annog datblygu syniadau sy'n adlewyrchu pob grŵp cynulleidfa ac i gefnogi dealltwriaeth y sector cynhyrchu o anghenion y grwpiau hyn (gan ddefnyddio ei ymchwil ei hun). Er enghraifft, dywedodd y BBC ei fod yn cyfeirio yn 2020/21 at yr angen i adlewyrchu cynulleidfaoedd o gefndiroedd amrywiol a'r gwledydd a'r rhanbarthau ym mhob un o'i 11 briffiadau genre i gynhyrchwyr; cynhaliodd bedwar dosbarth meistr cynulleidfa a oedd yn canolbwyntio ar wahanol agweddau ar amrywiaeth (amrywiaeth lleiafrifoedd ethnig, economaidd-gymdeithasol a dau ar anabledd); a chyfeiriodd at gynulleidfaoedd amrywiol mewn 50% o'i sesiynau briffio ar y we genre ar ei wefan gomisiynu.



Rydym yn croesawu'r wybodaeth ychwanegol mae'r BBC wedi'i rhoi i Ofcom eleni i esbonio'r gwaith mae'n ei wneud i fynd i'r afael ag anghenion cynulleidfaoedd llai bodlon, a'i ymrwymiad i barhau i ddarparu gwybodaeth debyg yn ei adroddiadau blynyddol i ni yn y dyfodol. Rydym yn annog y BBC i ystyried sut gall rannu mwy o'r wybodaeth hon yn gyhoeddus i ddangos yr amrywiaeth o waith mae'n ei wneud i wella cynrychiolaeth a phortreadu ar y sgrin ac oddi arni.

### Mae angen i'r BBC sicrhau ei fod yn gallu olrhain cynnydd ei gynlluniau amrywiaeth yn erbyn nodau sydd wedi'u diffinio'n glir

Fel rhan o'i Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiad 2016-20 sefydlodd y BBC dargedau gwirfoddol ar y sgrin ac ar yr awyr i gynyddu'r gynrychiolaeth amrywiol erbyn 2020.[168] Wrth geisio pennu cynlluniau'r BBC ar gyfer targedau ar y sgrin ac ar yr awyr o 2021 ymlaen, mae wedi dod yn amlwg, er ei fod wedi cyrraedd holl dargedau portreadu ar y sgrin (teledu) 2020 ar lefel pennawd, nad yw'r BBC wedi mesur a yw wedi cyflawni ei ymrwymiad i bortreadu ar yr awyr ar gyfer radio. Mae'r BBC wedi dweud wrthym ers hynny nad oedd wedi gallu rhoi'r dull cywain data a ragwelwyd ar waith i ddechrau, a'i fod wedi methu dod o hyd i ffordd arall o fesur portreadu ar yr awyr (radio).

Er bod tystiolaeth yn yr *Adroddiad Effaith 50:50* ac Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC bod y BBC yn gweithio i gynyddu cynrychiolaeth ar yr awyr, nid yw'r wybodaeth hon yn cymryd lle'r metrigau sy'n ofynnol i farnu a yw'r BBC wedi cyrraedd ei dargedau portreadu gwirfoddol ar yr awyr (radio).

Mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod yn bwriadu gosod targedau amrywiaeth newydd ar y sgrin ac ar yr awyr ar ôl cyhoeddi data cyfrifiad newydd yn 2022. Tan hynny, bydd yn parhau i ddefnyddio targedau 2020 i helpu i sicrhau cynrychiolaeth amrywiaeth ar y sgrin ac ar yr awyr. Er mwyn i dargedau gael gwerth, rhaid iddynt fod yn fesuradwy (fel y nodir isod). Rydym yn disgwyl i'r BBC roi gwybodaeth fanwl i ni am sut bydd yn mesur ac yn adrodd ar ei ddarpariaeth yn erbyn ei darged ar yr awyr ar gyfer yr amser y mae'r metrig hwn yn dal mewn grym a byddwn yn monitro'n ofalus yr holl adroddiadau ar y data hwn yn y dyfodol.

Mae cynlluniau ehangach y BBC i wella cynrychiolaeth a phortreadu hefyd yn cynnwys ymrwymiad y dylai 20% o'r timau cynhyrchu, ar raglenni sy'n cael eu gwneud ar gyfer y BBC, ddod o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Ers cyhoeddi'r cynllun hwn yn 2020, mae'r BBC wedi ehangu ei gynllun a sefydlu meini prawf manwl ar gyfer cyflawni'r ymrwymiad; mae hyn ar gael ar wefannau Comisiynu ac Amrywiaeth Creadigol y BBC. Roedd y BBC wedi cyfeirio o'r blaen at ei ymrwymiad o 20% o ran talent amrywiol fel rhywbeth 'gorfodol', ond cyfeirir ato bellach yn adroddiad cynnydd Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth (DCCoP) 2020/21 fel 'gofyn' i gynhyrchwyr ymrwymo i hynny. Nid yw'n glir ar hyn o bryd a fydd y newid hwn mewn iaith yn gwanhau effaith yr ymrwymiad gwreiddiol.

Rydym yn croesawu tryloywder y BBC ynghylch ei gynlluniau yn gynnar yn y broses, ac rydym yn derbyn y gall manylion cynlluniau newid wrth i gyhoeddiadau cychwynnol ddatblygu'n gynlluniau y mae ymgynghori wedi bod yn eu cylch. Fodd bynnag, nid yw'n anochel y bydd cynlluniau arfaethedig y BBC bob amser yn gweithio neu'n cael yr effaith a fwriadwyd. Fel y nodir mewn man arall yn y ddogfen hon, ac fel sy'n cael ei ddangos yn yr enghreifftiau uchod, mae'n hanfodol bod y BBC, ar ôl cytuno ar y manylion, yn nodi'n gyhoeddus y paramedrau terfynol ar gyfer cynlluniau o'r fath, gan gynnwys amcanion, canlyniadau ac amserlenni clir a mesuradwy ar gyfer cyflawni, a bod ganddo

[168] Dyma'r ystadegau: a. 50% o fenywod ar y sgrin, ar yr awyr ac mewn rolau arweiniol ar draws pob genre, o ddrama i newyddion b. 8% o bobl anabl ar y sgrin ac ar yr awyr, gan gynnwys rhai rolau arweiniol c. 8% o Bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) yn cael eu portreadu ar y sgrin, gan gynnwys rhai rolau arweiniol d. 15% o leiafrifoedd ethnig, du ac Asiaidd ar y sgrin, ar yr awyr ac mewn rolau arweiniol ar draws pob genre.

fecanweithiau cadarn ar waith ar gyfer asesu ei ymrwymiadau ei hun. Dylai olrhain cynnydd yn drylwyr ac adrodd yn dryloyw yn flynyddol os oes modd, fel y gall ei ddal ei hun i gyfrif yn fewnol ac yn allanol am gyflawni ei ymrwymiadau.

### Dros gyfnod y Siarter hyd yma, ychydig o gynnydd sydd wedi bod o ran adrodd yn erbyn gofynion y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth (DCCoP), neu sut mae'r BBC yn dal cwmnïau cynhyrchu i gyfrif

Mae Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth y BBC yn nodi'r camau y bydd y BBC yn eu cymryd wrth gomisiynu cynnwys i sicrhau ei fod yn cynrychioli ac yn portreadu pob cynulleidfa'n ddilys. Mae'n cynnwys nifer o ddisgwyliadau ohono'i hun a'i gyflenwyr. Fodd bynnag, drwy gydol cyfnod y Siarter, nid yw adroddiadau'r BBC wedi bod yn fanwl o hyd ynghylch sut mae'n dal ei hun a chwmnïau cynhyrchu i gyfrif am gyflawni ymrwymiadau'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth. Ers cyflwyno'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth am y tro cyntaf yn 2018, mae'r BBC yn adrodd mai dim ond 30 o 46 ymrwymiad sydd wedi cael eu gweithredu'n llawn a bod 16 yn dal ar y gweill, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â disgwyliadau ar gynhyrchwyr. Mae'r BBC wedi nodi rhywfaint o fanylion am y mesurau mae'n eu cymryd, ond mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn adroddiad cynnydd Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth wedi bod yn lefel uchel, felly mae'n dal yn anodd asesu faint o gynnydd sy'n cael ei wneud yn y maes hwn.

Yn ddiweddar, mae'r BBC wedi cyflwyno astudiaethau achos i Ofcom, sy'n dangos sut mae'n cynnwys amrywiaeth yn y broses gomisiynu. Ond mae'n amlwg o adroddiad cynnydd Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth nad yw'r BBC ar hyn o bryd yn gallu olrhain, ar raddfa, a yw cynhyrchwyr yn bodloni gofynion Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth. Mae'r BBC wedi dweud ei fod yn bwriadu symud ei ddogfennau busnes ar-lein er mwyn olrhain cynnydd yn well rhwng comisiynu a gweithredu. Rydym o'r farn y bydd awtomeiddio'r broses hon yn gam hollbwysig ymlaen o ran galluogi'r BBC i asesu perfformiad ei gyflenwyr a'i dimau comisiynu ei hun yn erbyn gofynion Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth, ac yna i weithredu ar y canfyddiadau. Byddwn yn dilyn cynnydd y BBC yn agos wrth symud ei systemau ar-lein. Ar ben hynny, o'r flwyddyn nesaf ymlaen, bydd y BBC yn cyflwyno adroddiad pwrpasol manwl i ni ar ei rwymedigaethau o ran Diben 4. Bydd hyn yn rhoi tystiolaeth gyfoethocach o ran sut mae wedi cyflawni gofynion y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth, a bydd hefyd yn rhoi gwybodaeth debyg i'r hyn a gyflwynwyd i ni eleni ynghylch sut mae'r BBC yn cyflawni ei rwymedigaethau o ran cynrychioli a phortreadu. Rydym yn croesawu'r datblygiad cadarnhaol hwn.

### Dros gyfnod y Siarter, mae'r BBC wedi gwneud cynnydd o ran tryloywder ei adroddiadau ar amrywiaeth ei weithlu

Mae'r BBC wedi adrodd ar amrywiaeth ei weithlu cyfan yn ei Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol am y tro cyntaf eleni, yn hytrach na dim ond y rheini sydd wedi cyflwyno gwybodaeth am amrywiaeth.

Mae'r BBC hefyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cywain data am gefndir economaidd-gymdeithasol gweithwyr: yn 2021, darparodd 78% o bobl sy'n gweithio i wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU ddata gweladwy[169] ar gefndir economaidd-gymdeithasol o'i gymharu â 59% yn 2020.

[169] Mae 'data gweledol' yn ddata y mae cyflogwr wedi gofyn amdano gan weithiwr; y mae gweithiwr wedi datgelu i'w gyflogwr; a'i fod wedi rhoi caniatâd i rannu ag Ofcom.

Mewn cymhariaeth, dim ond hyn a hyn o ddata sydd ar gael am gefndir economaidd-gymdeithasol gweithwyr yn y diwydiant darlledu yn ei gyfanrwydd.[170]

Fel rhan o raglen waith Amrywiaeth mewn Darlledu Ofcom, rydym yn parhau i annog darlledwyr (gan gynnwys y BBC) i gasglu ac adrodd ar amrywiaeth y gweithlu yn ôl ardal ddaearyddol. Byddai cyhoeddi’r data hwn gan y BBC yn gwella tryloywder ynghylch cyfansoddiad ei weithlu yn y gwahanol rannau o’r DU, a gellid hefyd ei ystyried wrth olrhain ac asesu llwyddiant ei gynllun Ar Draws y DU.

## Mae’r BBC wedi gwneud rhywfaint o gynnydd tuag at sicrhau gweithlu mwy amrywiol dros gyfnod y Siarter, ond mae rhagor i’w wneud

Nododd y BBC nifer o dargedau gweithlu yn ei Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiad 2016-20. Mae wedi adrodd bod rhai o’r targedau hyn wedi cael eu cyrraedd, gan gynnwys y targed o 8% LGBTQ+ o staff ar gyfer staff ac arweinyddiaeth; ar gyfer ei darged anabledd o 8% ar gyfer yr holl staff ac arweinwyr ac ar gyfer ei darged ethnigrwydd o 15% ar gyfer yr holl staff. Fodd bynnag, roedd yn is na’i tharged o 50% ar gyfer menywod ar lefelau’r holl staff (48.3%) ac arweinyddiaeth (45.0%), ac o’i tharged ethnigrwydd o 15% ar lefel arweinyddiaeth (11.9%).[171]

Ers 2018, mae’r BBC wedi disgyn yn gyson y tu ôl i ITV, Channel 4 a ViacomCBS ar gynrychiolaeth menywod yn ei weithlu teledu. Mae’r un peth yn wir o ran radio. Mae gan wasanaethau teledu’r BBC hefyd gyfran is o staff o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (15%) na ViacomCBS (21%) a Channel 4 (17%).[172] Er bod hyn yn uwch na’r gynrychiolaeth gyffredinol ym marchnad lafur y DU (12%), mae’n is o lawer na chynrychiolaeth y farchnad lafur leol o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn Llundain (35%)[173] a Manceinion (31%)[174] lle mae cyfran fawr o staff y BBC wedi’u lleoli. Ers 2020, mae cynrychiolaeth y BBC o bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn ei wasanaethau radio (9%) wedi disgyn y tu ôl i Global (13%) ond mae’n dal ar y blaen i Bauer (7%).[175]

Yn ôl ein hadolygiad pum mlynedd diweddar o amrywiaeth a chyfle cyfartal ym maes teledu a radio yn ogystal â recriwtio staff amrywiol, mae angen i bob darlledwr ganolbwyntio ar gadw’r cydweithwyr hyn a’u galluogi i symud ymlaen i lefelau uwch.

Mae gan y BBC, fel darlledwyr eraill, ragor o waith i’w wneud i wella ei amrywiaeth economaidd-gymdeithasol. Yn 2021, ar sail data a roddodd y BBC i Ofcom, roedd tua dwywaith yn fwy o bobl yn gweithio i wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU wedi mynd i ysgolion preifat na chyfartaledd y DU (14% o’i gymharu â 7%) ac roedd ganddynt rieni mewn galwedigaethau proffesiynol pan oeddent yn

---

170 Fel yr esboniwyd ar dudalen 13 ein Hadolygiad pum mlynedd o amrywiaeth a chyfle cyfartal ym maes teledu a radio, mae gennym ddata gweladwy (ar o leiaf un mesur o gefndir economaidd-gymdeithasol) ar gyfer dim ond 39% o weithwyr radio, a 44% ar gyfer gweithwyr teledu. Dim ond 12 o ddarlledwyr sy’n darparu’r wybodaeth hon.
171 Edrychwch ar dudalen 16 Cynllun Amrywiaeth a Chynhwysiad 2021-23 y BBC i gael rhagor o fanylion.
172 Am ragor o fanylion, gweler yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol 'proffiliau amrywiaeth cyflogeion ar gyfer wyth prif ddarlledwr yn y DU, 2018-2021' a oedd wedi’i gynnwys yn Adolygiad Pum Mlynedd Ofcom o amrywiaeth a chyfle cyfartal mewn teledu a radio.
173 NomisWeb. Arolwg Poblogaeth Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Tabl T05 – Gweithgarwch economaidd yn ôl grŵp ethnig a chenedligrwydd. Pawb sydd mewn cyflogaeth rhwng 16 a 64 oed. Ebrill 19 - Mawrth 20.
174 NomisWeb. Arolwg Poblogaeth Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Tabl T05 – Gweithgarwch economaidd yn ôl grŵp ethnig a chenedligrwydd. Pawb sydd mewn cyflogaeth rhwng 16 a 64 oed. Ebrill 19 - Mawrth 20.
175 Am ragor o fanylion, gweler yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol 'proffiliau amrywiaeth cyflogeion ar gyfer wyth prif ddarlledwr yn y DU, 2018-2021' a oedd wedi’i gynnwys yn Adolygiad Pum Mlynedd Ofcom o amrywiaeth a chyfle cyfartal mewn teledu a radio.

14 oed (61% o'i gymharu â 33%, sef cyfartaledd y DU). Mae'r tueddiadau'n debyg i ddarlledwyr teledu a radio eraill sy'n cywain ac yn adrodd ar y data hwn ar hyn o bryd.[176]

### Rydym yn croesawu cynllun amrywiaeth a chynhwysiad mewnol newydd y BBC, ac yn yr un modd â'i gynlluniau amrywiaeth eraill, rydym yn ei annog yn gryf i gadw golwg manwl ar y cynnydd

Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd y BBC gynllun amrywiaeth a chynhwysiad newydd, sydd ymysg pethau eraill yn nodi ei dargedau mewnol ar gyfer y gweithlu dros y tair i bum mlynedd nesaf, gan gynnwys y cynrychiolaeth ganlynol: 50% rhywedd, 20% lleiafrifoedd ethnig a 12% o gynrychiolaeth anabledd ar bob lefel staff ac arweinwyr, ac i 50% o gydweithwyr LHDTC+ fod 'allan yn gweithio'. Rydym yn croesawu'r targedau hyn ac yn annog y BBC i weithio i'w cyrraedd ar gyfer yr holl grwpiau o bobl yn y categorïau targed hyn, ar draws pob math o swydd a lefel. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys deg prif gam i gefnogi'r BBC i gyrraedd y targedau ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys recriwtio, uwch arweinyddiaeth, ymddygiad cynhwysol, rhwydweithiau'r gweithwyr a hygyrchedd. Fodd bynnag, nodwn nad yw crefydd yn cael ei grybwyll yn y cynllun.

Mae'r cynllun yn datgan ei fod yn seiliedig ar adolygiad helaeth o gynllun amrywiaeth a chynhwysiad 2016-2020 blaenorol (gan gynnwys adborth gan staff a rhanddeiliaid allanol). Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae'r adolygiad hwn wedi cyfrannu at y deg prif gam gweithredu sydd wedi'u cynnwys ynddo. Rydym yn annog y BBC i olrhain a chyfleu sut mae'n gwneud cynnydd ar y deg cam gweithredu hyn. Hoffem weld y BBC yn cynnwys yr wybodaeth hon fel rhan o'i adroddiadau blynyddol i Ofcom ar ei rwymedigaethau o ran y gweithlu.

Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC wedi rhoi pwys mawr ar amrywiaeth economaidd-gymdeithasol y sefydliad. Dywedodd y BBC yn ei gynllun amrywiaeth a chynhwysiad y gallai weithredu targed newydd ar gyfer amrywiaeth economaidd-gymdeithasol ym mis Gorffennaf 2021, ond nid yw hyn wedi cael ei gyhoeddi eto. Byddwn yn parhau i fonitro agwedd y BBC yn y maes hwn.

## Amodau'r Drwydded Weithredu

Ochr yn ochr â'n hasesiad perfformiad ehangach, rydym yn ystyried perfformiad y BBC yn erbyn amodau perthnasol Diben 4 y Drwydded Weithredu. Fel y disgrifir uchod, mae diffyg adrodd gan y BBC ar yr elfen ar yr awyr o'i dargedau portreadu amrywiaeth ar y sgrin ac ar yr awyr yn golygu nad yw'r BBC wedi cydymffurfio'n llawn ag amod 2.43 y Drwydded Weithredu. Ar ben hynny, cafodd Covid-19 effaith sylweddol ar gynhyrchu, a arweiniodd at fethiant y BBC i fodloni saith amod sy'n ymwneud â Diben 4. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf ag oriau a gwariant yn y gwledydd a'r rhanbarthau, yn ogystal â newyddion byw ar BBC ALBA. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr Atodiad Cydymffurfio i'r adroddiad hwn.

[176] Am ragor o fanylion, gweler tudalen 32 Adolygiad Pum Mlynedd Ofcom o amrywiaeth a chyfle cyfartal mewn teledu a radio.

# Diben Cyhoeddus 5:
## adlewyrchu'r DU i'r byd

Yn yr adran hon rydym yn crynhoi perfformiad BBC World Service dros gyfnod y Siarter hyd yma. Nid yw Ofcom yn rheoleiddio'r gwasanaeth hwn ac nid yw wedi cael ei gynnwys yn ein hasesiadau perfformiad blynyddol blaenorol.

***Mae'r Siarter Frenhinol yn datgan:*** *Dylai'r BBC sicrhau darpariaeth newyddion o safon uchel i gynulleidfaoedd rhyngwladol, sy'n seiliedig ar werthoedd Prydeinig o ran cywirdeb, didueddrwydd a thegwch. Dylai ei wasanaethau rhyngwladol roi'r Deyrnas Unedig yng nghyd-destun y byd, gan wella dealltwriaeth pobl o'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol, gan gynnwys y gwledydd a'r rhanbarthau lle bo hynny'n briodol. Dylai sicrhau ei fod yn cynhyrchu allbwn a gwasanaethau y bydd pobl yn eu mwynhau yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd.*

## Sut rydym yn cynnal ein hasesiad

Mae'r BBC yn cyflawni ei bumed diben drwy BBC World Service, ochr yn ochr â Chasglu Newyddion, BBC Monitoring, BBC Global News a Media Action. Yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC, mae'n datgan mai gwefan newyddion y BBC oedd "*yr allfa cyfryngau digidol Saesneg fwyaf yn y byd*" ddiwedd 2020. Canfu adroddiad Sefydliad Reuters, Digital News Report 2021, fod BBC News yn ffynhonnell newyddion boblogaidd mewn sawl gwlad; er enghraifft, yn sampl arolygu Nigeria, cyrhaeddodd y BBC 39% o bobl bob wythnos gyda'i newyddion teledu a radio, a 54% gyda newyddion ar-lein.[177] Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar BBC World Service fel sail i'n gwaith ar adolygu gwaith rheoleiddio'r BBC.[178] Y BBC ei hun sy'n gyfrifol am osod trwydded ar gyfer BBC World Service,[179] ac nid yw Ofcom yn rheoleiddio safonau y gwasanaeth hwn o ran cynnwys. Gan nad ydym wedi adolygu perfformiad BBC World Service o'r blaen, rydym wedi dibynnu'n bennaf ar wybodaeth a ddarparwyd i ni gan y BBC a gwybodaeth gyhoeddus.

[177] Mae'r data hyn yn seiliedig ar arolwg o ddefnyddwyr newyddion ar-lein sy'n siarad Saesneg yn Nigeria – is-set o farchnad cyfryngau fwy a mwy amrywiol. Yn gyffredinol, mae'r ymatebwyr yn fwy cefnog, yn iau (18–50 yn unig), mae ganddynt lefelau uwch o addysg ffurfiol, ac maent yn fwy tebygol na phoblogaeth ehangach Nigeria o fyw mewn dinasoedd. Ni ddylid ystyried bod y canfyddiadau'n cynrychioli'r wlad yn genedlaethol.
[178] Fel sy'n ofynnol o dan Gymal 35(7) o'r Cytundeb.
[179] Cymal 34 o'r Cytundeb.

## Asesu perfformiad

Mae BBC World Service yn darparu newyddion mewn 42 o ieithoedd, gan gynnwys Saesneg, drwy lwyfannau teledu, radio a digidol, gan wasanaethu anghenion cynulleidfaoedd ym mhob marchnad. Mae ganddo ganolfannau casglu newyddion mewn 58 o wledydd a 72 o ddinasoedd. Mae wedi cael ei ariannu gan ffi trwydded y DU ers 2014 ac mae wedi cael cyllid ychwanegol gan Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) Llywodraeth y DU ers 2016, drwy raglen ehangu World 2020.[180] Ers 2016, mae'r FCDO wedi buddsoddi dros £378m.[181] Mae'r BBC wedi gosod uchelgais i gyrraedd cynulleidfa fyd-eang o 500 miliwn o bobl erbyn 2022, gyda tharged ar gyfer BBC World Service i gyrraedd 364 miliwn o bobl yn fyd-eang erbyn hynny.[182]

### Mae BBC World Service wedi gweld twf sylweddol mewn cyrhaeddiad rhwng 2016 a 2020, yn enwedig ar lwyfannau digidol

Mewn adolygiad perfformiad diweddar o'r World Service, dywedodd y BBC fod cyfanswm ei gynulleidfa wedi cynyddu 42% rhwng 2016 a 2020, gan gyrraedd 351 miliwn o bobl mewn wythnos arferol ym mis Mawrth 2020. Erbyn mis Mawrth 2020, roedd BBC World Service yn cyrraedd 159 miliwn o bobl ar draws llwyfannau sain yn ystod wythnos arferol, gyda nifer y bobl sy'n gwrando'n uniongyrchol drwy wasanaethau radio BBC World Service yn aros yn sefydlog. Yn unol â thueddiadau cyffredinol y farchnad, arhosodd cyrhaeddiad teledu uniongyrchol BBC World Service yn sefydlog rhwng 2016 a 2020. Fodd bynnag, mae'r BBC yn dweud bod teledu uniongyrchol (h.y. pobl yn gwylio drwy wasanaethau'r BBC ei hun) wedi parhau i fod yn gyfrwng pwysig mewn rhanbarthau allweddol. Cyrhaeddodd BBC World Service 116 miliwn o bobl mewn wythnos arferol ar draws ei lwyfannau digidol – sef 33% o gyfanswm cyrhaeddiad gwasanaethau Ieithoedd a Saesneg BBC World Service. Cyflymodd y twf yn 2019, gan chwyddo yn 2020. Mae'r BBC yn cydnabod mai'r rheswm am hyn yw bod cynulleidfaoedd ar draws y byd wedi troi at y BBC i gael gafael ar wybodaeth ddibynadwy am y pandemig.

Oherwydd effaith Covid-19, nid yw data sy'n ymwneud â chyrhaeddiad BBC World Service ar draws ei lwyfannau a'i wasanaethau yn 2021 ar gael ar hyn o bryd. Yn ei Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol, mae'r BBC wedi datgan y bydd yn cyhoeddi data ar berfformiad blynyddol byd-eang holl wasanaethau, llwyfannau a gwledydd y BBC yn ddiweddarach yn y flwyddyn pan fydd data ar gael.

### Mae cyrhaeddiad syndicetiedig BBC World Service yn cyfrif am 62% o'i gynulleidfa fyd-eang

Mae darparu cynnyrch drwy lwyfannau trydydd parti a gwasanaethau partner wedi galluogi'r World Service i ehangu ei gyrhaeddiad cynulleidfa byd-eang. Yn ôl y BBC, gyda mwy na 1,800 o bartneriaid radio, mae'r twf mwyaf sylweddol mewn defnydd sain wedi dod o radio syndicetiedig. Mae BBC World Service Saesneg ar draws radio syndicetiedig bellach yn cyrraedd 67 miliwn o bobl bob wythnos. Mae'r BBC hefyd yn datgan bod BBC World Service, drwy weithio gyda dros 80 o brif ddarlledwyr rhyngwladol a gwasanaethau lloeren, wedi gweld cynnydd o 51% yn nhwf y gynulleidfa ar ei lwyfan teledu ers 2016.

[180] BBC World Service Performance Review 2016-2020.
[181] Y cyfanswm buddsoddiad gan FCDO rhwng 2016/17 a 2020/21 oedd £378.6m. Buddsoddiad 2021/22 FCDO yw £94.4m.
[182] BBC World Service Performance Review 2016-2020.

Gan gydnabod y rôl gynyddol bwysig y bydd gwasanaethau ar-lein yn ei chwarae yn y dyfodol, dywedodd y BBC wrthym ei fod wedi mabwysiadu dull aml-lwyfan ar gyfer ei gynnwys World Service. Mae'n nodi y bydd ei strategaeth ddigidol ryngwladol ddiwygiedig yn canolbwyntio ar gynyddu faint o gynnwys sy'n cael ei ddefnyddio ar safleoedd sy'n eiddo i'r BBC ledled y byd, mewn Saesneg ac mewn ieithoedd tramor.

### Daeth Adolygiad Serota i'r casgliad nad yw'r buddsoddiad mewn cymorth golygyddol wedi cyd-fynd â'r twf yng nghynnyrch BBC World Service

Mae buddsoddiad gan yr FCDO wedi galluogi BBC World Service i ehangu mwy nag a wnaeth ers y 1940au, gan ychwanegu 12 o ieithoedd newydd – yn cynnwys Corëeg a Serbeg – at ei wasanaethau. Mae dros fil o staff wedi cael eu recriwtio ers 2016 fel rhan o raglen ehangu World 2020. Mae adolygiad Serota yn argymell y dylid cryfhau tîm Polisi Golygyddol y BBC i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i ieithoedd BBC World Service. Mae hefyd yn nodi bod safonau golygyddol y BBC yn wahanol i'r rhai sy'n bodoli mewn sawl rhan o'r byd ac yn aml mae angen i staff yn y rhanbarthau hynny eu dysgu a'u hyrwyddo.

### Mae BBC World Service ar y trywydd iawn i gyrraedd ei holl dargedau ar gyfer 2022, ac eithrio cynyddu ei gyrhaeddiad i fenywod

Mae BBC World Service bellach wedi cyrraedd, neu ar y trywydd iawn i gyrraedd, ei dargedau cyrhaeddiad byd-eang ar gyfer 2022. Ar ôl cyrraedd 31% o bobl ifanc yn 2020, mae BBC World Service wedi rhagori ar darged y drwydded i gyrraedd 27% o'r gynulleidfa hon erbyn 2022.[183] Fodd bynnag, bydd y BBC yn methu â chyrraedd un targed – sef y dylai 48% o gyfanswm ei gyrhaeddiad fod yn fenywod. Mae cyfran cyfanswm cynulleidfa BBC World Service sy'n fenywod wedi aros ar 38% ers 2016. Yn ei adolygiad perfformiad, mae'r BBC yn datgan ei fod yn ymwybodol o'r her hon a'i fod wedi gosod mwy o ffocws ar wella cynrychiolaeth menywod drwy sawl menter. Mae'r rhain yn cynnwys comisiynu cynnwys newydd sy'n ceisio cynrychioli'r materion sydd agosaf at fywydau menywod; mynd i'r afael â chynrychiolaeth ar y sgrin ar draws ei wasanaethau newyddion; a thrwy fentrau a digwyddiadau allgymorth golygyddol.

### Mae partneriaethau'n bwysig i ddarparu BBC World Service

Mae'r BBC yn defnyddio partneriaethau yn y DU i helpu i gyflawni ei ddibenion cyhoeddus, gan eu bod yn gallu ategu neges y BBC, cynnig arbenigedd, a chyrraedd cynulleidfa ehangach o bosibl. Mae BBC World Service hefyd yn gweithio gyda nifer sylweddol o bartneriaid yn y cyfryngau ledled y byd. Mae'r BBC wedi dweud wrthym fod ganddo tua 2,000 o bartneriaethau, gan gynnwys trefniadau ar gyfer teledu, radio a digidol yn ogystal â chwmnïau technoleg mawr fel Facebook, Google a Microsoft, a threfniadau cyd-gynhyrchu. Mae'r BBC yn dweud bod ei bartneriaethau'n sicrhau bod sianeli llawn y BBC, rhaglenni unigol a gwasanaethau newyddion ar gael, ac maent yn hanfodol i sicrhau bod cynnwys y BBC yn cyrraedd cynulleidfaoedd ar y llwyfannau perthnasol.

### Mae BBC World Service yn parhau ar y brig o ran ymddiriedaeth a dibynadwyedd ymysg darparwyr newyddion rhyngwladol

Yn ôl arolygon tracio brand y BBC, mae BBC World Service yn parhau i fod ar y brig o ran ymddiriedaeth a dibynadwyedd ymysg darparwyr newyddion rhyngwladol.[184] Mae ffynonellau eraill hefyd yn dangos ei fod yn ffynhonnell ddibynadwy; mewn pump o'r chwe gwlad y tu allan i'r DU lle

---

[183] BBC World Service Performance Review 2016-2020.
[184] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC 2020/21.

gofynnwyd i ymatebwyr a oedd newyddion y BBC yn ddibynadwy, roedd mwyafrif yr ymatebwyr, yn amrywio o 67% yng Nghanada i 83% yn Ne Affrica, yn cytuno ei fod.[185] Mewn ymateb i'r pandemig fe ailstrwythurodd ei weithrediadau, gan ddarparu gwasanaeth newyddion craidd i helpu cynulleidfaoedd i ddeall goblygiadau ehangach y pandemig ac i ddatgelu camwybodaeth.

## Astudiaeth achos: Mynd i'r afael â gwybodaeth gamarweiniol yn ystod pandemig Covid-19

Roedd *The Anti-Vax Files* yn bodlediad wyth rhan gan BBC Trending lle bu tîm o ohebwyr gwybodaeth gamarweiniol o bob rhan o'r BBC yn ymchwilio i sut roedd gweithredwyr gwrth-frechu yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ledaenu eu neges, ac yn manteisio ar ofn a drwgdybiaeth i ddatblygu eu hagendâu eu hunain yn ystod y pandemig. Roedd ymchwil gan BBC Monitoring ar draws nifer o ieithoedd yn dangos i ba raddau yr oedd cynnwys gwrth-frechu eithafol wedi lledaenu ar draws y byd. Roedd y gyfres yn holi'r cewri cyfryngau cymdeithasol, yn siarad â'r rheini a oedd yn ymladd ar-lein yn erbyn camwybodaeth, ac yn adrodd straeon y rheini a oedd wedi dianc o afael crafangau damcaniaethau cynllwyn. Ddiwedd mis Hydref 2021, roedd y gyfres wedi cael ei chwarae 52,010 o weithiau'n fyd-eang ar wefan ac ap BBC Sounds. Roedd hefyd wedi cael ei lawrlwytho 62,251 gwaith ar lwyfannau sain trydydd parti fel Apple a Spotify.

Wrth i'r ffyrdd y gall cynulleidfaoedd gael gafael ar newyddion barhau i gynyddu, mae tystiolaeth bod ymddiriedaeth o dan bwysau cynyddol. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod adroddiad Sefydliad Reuters, Digital News Report 2021, yn canfod bod ymddiriedaeth yn y newyddion wedi cynyddu 6% ar gyfartaledd dros y flwyddyn ddiwethaf yn y gwledydd a arolygwyd. Mae'r BBC yn cydnabod bod ei rôl yn darparu newyddion dibynadwy yn dod yn bwysicach drwy'r amser. Ym mis Mai 2021, cyhoeddodd yr FCDO y byddai £8m o gyllid newydd ar gyfer prosiectau BBC World Service yn mynd i'r afael â chamwybodaeth niweidiol, yn herio gohebu anghywir ledled y byd ac yn gwella ymgysylltiad digidol.

Fel y nodwyd yn adran Diben 1 yr adroddiad hwn, mae'r BBC yn parhau i chwarae rhan yn y gwaith o fynd i'r afael â lledaenu gwybodaeth gamarweiniol niweidiol, gyda'r Cynllun Newyddion Dibynadwy (TNI). Mae Sefydliad Reuters yn cynnal ail gam o ymchwil, a ariennir gan BBC World Service, gan edrych ar effeithiolrwydd ymyriadau sy'n ceisio atal gwybodaeth gamarweiniol rhag lledaenu. Bydd yr ymchwil yn mynd ati i weld a all brandiau newyddion unigol gyrraedd pobl sydd â safbwyntiau cyfeiliornus, ac a allant wneud gwahaniaeth, neu ddim ond cyrraedd y rhai sydd eisoes wedi'u hargyhoeddi. Bydd y canfyddiadau'n cael eu rhannu â phartneriaid TNI a'u cyflwyno'n gyhoeddus ym mis Mawrth 2022. Dywedodd y BBC wrthym fod cynlluniau i sicrhau cyllid oddi wrth bartneriaid TNI i ddarparu hyfforddiant ar adrodd ar wybodaeth gamarweiniol i bartneriaid byd-eang newydd.

[185] Sefydliad Reuters 2021 Digital News Report. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr i'r cwestiwn yn rhoi sgôr o 6-10/10 i BBC News am 'dibynadwy' yng Nghanada, Iwerddon, India, Singapore a De Affrica, tra bod 47% wedi gwneud hynny yn yr Unol Daleithiau. Nid yw'r data'n cynnwys y rheini nad oeddent wedi clywed am y BBC. Cynhaliwyd pob arolwg gan ddefnyddio paneli ar-lein. Mae'r fethodoleg hon yn golygu bod ymatebwyr yn cael eu tynnu o'r is-set o'r boblogaeth sydd â mynediad i'r rhyngrwyd ac sy'n fodlon cymryd rhan mewn paneli ar-lein. Gall y grŵp hwn fod yn wahanol o ran agweddau neu ddangosyddion demograffig, fel cyfoeth neu drefolrwydd, i weddill y boblogaeth.

## Mae BBC World Service yn bwriadu gwella sut mae'n mesur ei effaith ar draws y byd

Mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod wedi datblygu sawl cynllun i wella'r ffordd mae'r World Service yn cael ei fesur. Yn ogystal â thracio amlder ac amser a dreuliwyd (yn ogystal â chyrhaeddiad), mae wedi cynnal 'prosiect effaith' mawr – rhaglen ymchwil i ddeall sut mae cynyddu'r effaith ar gynulleidfaoedd. Roedd yr ymchwil yn dangos bod effaith ar gynulleidfaoedd yn digwydd pan fyddir yn trafod ag eraill, yn magu gwell dealltwriaeth ac yn newid barn o ganlyniad i gael gafael ar gynnwys newyddion. Mae'r BBC yn gweithio i ddeall pa ymyriadau y gall eu gwneud i ysgogi gwell dealltwriaeth a thrafodaeth.

## Gall cynnwys BBC World Service fod o fudd i gynulleidfaoedd y DU

Yn y DU, mae BBC World Service ar gael ar radio a BBC Sounds ac mae'n cael ei ddefnyddio gan 4% o oedolion bob wythnos.[186] Mae'r BBC yn adrodd bod 45% o wrandawyr yn credu mai dyma'r sianel orau ar gyfer darparu dealltwriaeth o newyddion rhyngwladol – sy'n uwch na'r rhan fwyaf o'i gystadleuwyr. Dywedodd y BBC wrthym fod nifer y defnyddwyr wythnosol yn y DU sy'n defnyddio cynnwys Saesneg ac Ieithoedd BBC World Service ar-lein wedi cynyddu o 0.9 miliwn yn 2016 i 1.6 miliwn yn 2021.

Yn ogystal â'r cyrhaeddiad uniongyrchol hwn, gall cynulleidfaoedd yn y DU elwa o wybodaeth ac arbenigedd rhyngwladol BBC World Service drwy ei gyfraniad at wasanaeth newyddion domestig y BBC yn ystod digwyddiadau byd-eang; mae newyddiadurwyr BBC World Service yn aml yn adrodd yn uniongyrchol o'r rhanbarth dan sylw. Dywedodd y BBC wrthym hefyd fod BBC World Service yn defnyddio cyfleoedd i gomisiynu cynnwys sy'n briodol i gynulleidfaoedd yn y DU ac yn rhyngwladol. Drwy gyfuno comisiynu yn y DU ac yn rhyngwladol, mae'n dweud y gellir defnyddio adnoddau i roi sylw i storïau byd-eang sy'n berthnasol i bob cynulleidfa. Er enghraifft, roedd newyddiaduraeth ymchwiliol World Service gan BBC News Arabaidd wedi cyfrannu at raglen ddogfen BBC Two *Undercover with the Clerics: Iraq's Secret Sex Trade.* Rhwng mis Hydref 2019 a mis Hydref 2021, cafodd tudalen y stori ei gweld 2.4m gwaith ar-lein.

Rydym yn nodi bod canfyddiadau cynulleidfaoedd yn y DU o'r ffordd mae'r BBC yn darparu newyddion rhyngwladol yn uchel – mae 73% o ddefnyddwyr newyddion rheolaidd teledu'r BBC yn ei sgorio'n uchel ar '*da am newyddion rhyngwladol*'.[187]

[186] BBC World Service Performance Review 2016-2020.
[187] Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2021 Ofcom - Sampl ar-lein yn unig.

# Effaith y BBC ar gystadleuaeth

Yn yr adran hon rydym yn esbonio sut rydym wedi diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol dros gyfnod y Siarter. Rydym yn nodi'r gwaith rydym wedi'i gwblhau yn 2020/21 a'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud fel rhan o'n hadolygiad o sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC. Y mater allweddol rydym wedi'i godi hyd yma yw diffyg ymgysylltiad y BBC â'r diwydiant ynghylch ei newidiadau arfaethedig i wasanaethau; rydym wedi gweld rhywfaint o welliant yma. Fodd bynnag, mae mwy i'r BBC ei wneud i roi sicrwydd i'r farchnad ei fod wedi ystyried a rhoi cyfrif am yr effaith bosibl ar gystadleuaeth y gallai ei gynlluniau ei chael.

Gan fod y BBC yn sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus, sy'n gweithredu ar draws teledu, radio ac ar-lein, mae'r BBC yn gallu cael effaith sylweddol ar gystadleuaeth - yn gadarnhaol ac yn negyddol. Mae rôl Ofcom wedi ei nodi yn y Siarter a'r Cytundeb ac mae'n mynnu ein bod ni'n diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y Deyrnas Unedig.[188]

Rydym wedi sefydlu rheolau ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithgareddau masnachol ac rydym yn adolygu'r newidiadau y mae'r BBC yn eu gwneud i'r gweithgareddau hyn.

## Ein gwaith yn 2020/21 i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol

### Gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus

**Ffigur 3: Sut rydym yn rheoleiddio effaith gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC ar gystadleuaeth**

| | |
|---|---|
| **Newidiadau i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus** | Rydym yn ystyried a yw gwerth cyhoeddus newid perthnasol sy'n cael ei gynnig gan y BBC i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Gallwn wneud hyn drwy Asesiad Cystadleuaeth y BBC. |
| **Gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus parhaus** | Efallai y byddwn yn agor Adolygiad Cystadleuaeth y BBC lle mae sail resymol i gredu bod cynnal un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. |
| **Comisiynu** | Dros gyfnod y Siarter mae'n rhaid i'r BBC gomisiynu mwy o gynnwys yn dilyn proses gystadleuol sy'n deg, yn rhesymol, yn anwahaniaethol ac yn dryloyw. Ein rôl ni yw monitro cydymffurfiad y BBC a gorfodi'r gofynion hynny. |
| **Dosbarthu** | Mae gennym rôl i ystyried cwynion penodol o safbwynt cystadleuaeth am y ffordd mae'r BBC yn dosbarthu ei wasanaethau cyhoeddus. |

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ystyried tri newid i wasanaethau cyhoeddus y BBC ac wedi adolygu safle BBC Sounds yn y farchnad a'i effaith ar y farchnad. Rydym hefyd wedi parhau i fonitro cynnydd y BBC o ran cyrraedd ei dargedau mewn perthynas â chomisiynu.

188 Gweler yr adran ar Trosolwg o'n dyletswyddau.

## Newidiadau i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau nad ydynt yn wasanaethau

Cyhoeddodd y BBC ei gynnig i ail-lansio BBC Three ar 2 Mawrth 2021 a chyhoeddodd ei brawf budd y cyhoedd ym mis Mehefin 2021. Fel sy'n ofynnol gan Siarter a Chytundeb y BBC, rydym wedi ystyried cynigion y BBC drwy asesiad cystadleuaeth cyhoeddus y BBC, ac rydym wedi cytuno y gall BBC Three ddychwelyd fel sianel ddarlledu. Rydym yn crynhoi ein penderfyniad yn adran Ein rhaglen waith yr adroddiad hwn.

Yn ystod 2020/21 fe wnaethom adolygu asesiadau perthnasedd y BBC o'r newidiadau arfaethedig a ganlyn i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus:

- ychwanegu'r ffrwd Radio 1 Dance at BBC Sounds [189]
- ychwanegu'r ffrwd Radio 1 Relax at BBC Sounds

Ym mhob achos, nid oedd gennym bryderon o bwys ynghylch y cynigion ac felly ni wnaethom fynnu bod y BBC yn cynnal prawf lles y cyhoedd. Er nad oeddem yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gynnal dadansoddiad pellach mewn perthynas â ffrwd Ymlacio Radio 1, gwnaethom nodi nad oeddem yn credu bod y BBC wedi ymgysylltu'n ddigonol â rhanddeiliaid, nac wedi ystyried yn briodol effaith y newid arfaethedig ar gystadleuwyr, yn enwedig radio masnachol.

Yn ystod 2020/21, gwnaethom hefyd adolygu asesiadau perthnasedd y BBC o'r newidiadau arfaethedig canlynol i'w 'weithgareddau nad ydynt yn wasanaethau'; hynny yw, gweithgareddau nad ydynt yn wasanaethau cyhoeddus yn y DU, ond sy'n cyflawni'r Genhadaeth yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ac sy'n hyrwyddo un neu ragor o'r Dibenion Cyhoeddus:

- YouView[190] – Mae'r BBC yn parhau i gymryd rhan yn YouView o dan gytundeb cyfranddalwyr newydd.
- Uno Digital UK a Freesat – Rôl y BBC yn y trefniadau a wnaed gydag ITV a Channel 4 i ddod â Digital UK, sy'n hwyluso darparu Freeview, a Freesat, sy'n cynnig mynediad i wasanaeth teledu lloeren di-danysgrifiad y DU, at ei gilydd.

Yn y ddau achos, nid wnaethom fynnu bod y BBC yn cynnal prawf lles y cyhoedd.

## Newidiadau i Drwydded Weithredu'r BBC

Wrth ddod i benderfyniad ynghylch newidiadau i Drwydded Weithredu'r BBC i alluogi'r BBC i gynyddu ei ddarpariaeth ar-lein o gynnwys i blant (gweler adran Diben 2 yr adroddiad hwn), gwnaethom ystyried effaith bosibl cynigion y BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Ein barn ni oedd bod y risg i gystadleuaeth deg ac effeithiol yn y cynigion yn isel.

## Ystyried lleoliad BBC Sounds yn y farchnad

Ym mis Hydref 2020, bu i ni gyhoeddi cais am dystiolaeth a oedd yn gofyn am dystiolaeth a gwybodaeth mewn perthynas â lleoliad BBC Sounds yn y farchnad a'i effaith ar y farchnad. Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a roddwyd i ni gan randdeiliaid ochr yn ochr â'n data a'n hymchwil ein hunain, gwnaethom ystyried y ffyrdd y gallai BBC Sounds gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth. Ym mis Mai eleni, bu i ni gyhoeddi ein hymgynghoriad ar ein safbwynt cychwynnol

[189] Nodwn fod Radiocentre Ltd wedi gwneud cais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol o faterion sy'n ymwneud â'n hadolygiad o'r asesiad perthnasedd yn ymwneud â Radio 1 Dance. Ar 22 Tachwedd 2021, mae Ofcom yn aros am benderfyniad y Llys mewn perthynas â'r cais hwnnw.
[190] Menter ar y cyd yw YouView rhwng y cyfranddalwyr canlynol: BBC, ITV, Channel 4, Channel 5, BT a TalkTalk.

nad oedd gennym sail resymol dros gredu bod BBC Sounds yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Ochr yn ochr â'r adroddiad blynyddol hwn, rydym yn cyhoeddi ein datganiad lle rydym yn dod i'r casgliad nad oes gennym sail resymol i gredu bod BBC Sounds yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, ac ni fyddwn yn lansio adolygiad cystadleuaeth y BBC.

## Cystadleuaeth mewn comisiynu

Fel yr eglurir yn yr Atodiad Cydymffurfio, mae'r Cytundeb yn nodi targedau penodol y mae'n rhaid i'r BBC eu cyrraedd o ran cynyddu cyfran y cynnwys sy'n cael ei gomisiynu ar gyfer ei wasanaethau cyhoeddus drwy broses gystadleuol. Rydym wedi parhau i fonitro cynnydd y BBC o ran cyrraedd ei dargedau.

Nid yw'r cynnydd tuag at y targedau eleni wedi bod mor sylweddol ag mewn blynyddoedd eraill, ac yn achos ar-lein, mae canran y cynnwys sy'n destun cystadleuaeth wedi gostwng. Ar gyfer rhaglenni teledu a radio, rydym yn deall mai'r rheswm am y cynnydd llai yw bod y BBC wedi gohirio rhai o'i gynlluniau tendro cystadleuol oherwydd effaith Covid-19. Fodd bynnag, mae'r BBC wedi cadarnhau ei fod ar y trywydd iawn i gyrraedd yr holl dargedau a nodir yn y Cytundeb.

**Ffigur 4: Cynnydd y BBC tuag at dargedau comisiynu**

| | Cystadleuaeth hyd yma 18/19 | Cystadleuaeth hyd yma 19/20 | **Cystadleuaeth hyd yma 20/21** | Targed | Pryd mae'n rhaid cyrraedd y targed |
|---|---|---|---|---|---|
| **Teledu**[191] | 56% | 62% | **64%** | 100% | 31 Rhagfyr 2027 |
| **Radio rhwydwaith**[192] | 35% | 48% | **53%** | 60% | 31 Rhagfyr 2022 |
| **Ar-lein**[193] | 44%[194] | 62% | **59%** | 100% | 31 Rhagfyr 2027 |

*Ffynhonnell: Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2020/21*

Mae'n ofynnol i'r BBC hefyd sicrhau bod gwir gystadleuaeth rhwng cynhyrchwyr y BBC a rhai allanol (cynhyrchwyr annibynnol ai peidio) ar sail deg, resymol, anwahaniaethol a thryloyw.

Rydym wedi cwrdd ag amrywiaeth o gynhyrchwyr fel rhan o'n hymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid. Er na wnaethant fynegi pryderon sylweddol am y gofyniad i fod yn deg, rhesymol, anwahaniaethol a thryloyw, codwyd nifer o bwyntiau ganddynt am y broses gomisiynu. Yn benodol, roedd rhai cynhyrchwyr eisiau gweld mwy o wybodaeth am gynlluniau comisiynu tymor hwy y BBC a chanlyniadau cylchoedd comisiynu. Mae gwybodaeth am gynlluniau comisiynu a chanlyniadau'r BBC yn galluogi cynhyrchwyr i gyflwyno'r syniadau mwyaf priodol i gefnogi amcanion y BBC, ni waeth a

[191] Mae'r Cytundeb yn mynnu bod y BBC yn sicrhau cystadleuaeth am 100% o raglenni teledu perthnasol erbyn 31 Rhagfyr 2027. Mae'r ffigur yn seiliedig ar nifer yr oriau a ddarlledwyd neu a ddarparwyd ar BBC iPlayer yn 2020, gan ystyried penderfyniadau comisiynu hyd at 31 Rhagfyr 2020.
[192] Mae'r Cytundeb yn mynnu bod y BBC, o ran rhaglenni radio perthnasol, yn sicrhau cystadleuaeth am 60% o leiaf o amser darlledu perthnasol erbyn 31 Rhagfyr 2022. Mae'r ffigur yn seiliedig ar nifer yr oriau a ddarlledwyd yn 2020/21, gan ystyried penderfyniadau comisiynu hyd at 31 Mawrth 2021.
[193] Mae'r Cytundeb yn mynnu bod y BBC yn sicrhau cystadleuaeth am 100% o ddeunydd ar-lein perthnasol erbyn 31 Rhagfyr 2027. Mae'r BBC wedi diffinio 'deunydd ar-lein perthnasol' mewn ffordd sy'n cadw at ddarpariaethau'r Cytundeb ac mae wedi trafod y diffiniad hwn ag Ofcom. Mae'n mesur cystadleuaeth ar-lein yn ôl gwariant ar gynhyrchu cynnwys deunydd ar-lein perthnasol. Mae'r ffigur yn seiliedig ar wariant yn 2020/21.
[194] Yn ystod y flwyddyn hon, defnyddiodd y BBC ganran y gwariant perthnasol a oedd yn allanol fel procsi am wariant a oedd yn destun cystadleuaeth. Felly, nid oes modd cymharu'r ffigur hwn yn uniongyrchol â'r ffigurau ar gyfer blynyddoedd eraill.

ydynt yn gynhyrchydd yn y BBC neu'n un allanol. Byddwn yn trafod gyda'r BBC a fyddai modd darparu rhagor o wybodaeth am ei gynlluniau comisiynu a chanlyniadau cylchoedd comisiynu.

## Gweithgareddau masnachol a masnachu

Mae'r BBC yn ymgymryd â gweithgareddau masnachol i gynhyrchu elw ariannol, y gellir ei ail-fuddsoddi yn rhaglenni a gwasanaethau'r BBC ac ategu incwm o ffi'r drwydded. Mae'n rhaid i'r gweithgareddau hyn allu addasu i'r amgylchedd sy'n newid ac ymateb i gyfleoedd wrth iddynt godi. Rydym yn cefnogi'r angen i'r BBC arloesi, tyfu a newid. Ein rôl ni fel rheoleiddiwr yw sicrhau nad yw'r berthynas rhwng y gwasanaeth cyhoeddus a'r gweithgareddau masnachol yn ystumio'r farchnad nac yn creu mantais gystadleuol annheg. Gan hynny, rydym wedi pennu rheolau Masnachu a Gwahanu ynghylch sut mae'r BBC yn gweithredu ac yn masnachu ar draws y ffin rhwng ei weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus a masnachol.

**Ffigur 5: Crynodeb byr o'r gofynion Masnachu a Gwahanu**

| Gwahanu gweithredol | Cyflenwi a phrisio nwyddau a gwasanaethau | Cyfradd enillion fasnachol |
|---|---|---|
| Sicrhau bod trefn lywodraethu'r is-gwmnïau masnachol yn wahanol ac ar wahân i'r gwasanaeth cyhoeddus, a chyfyngu ar fynediad yr is-gwmnïau masnachol at wybodaeth am strategaeth, blaenoriaethau a gweithgareddau'r gwasanaeth cyhoeddus nad yw ar gael i drydydd partïon | Rheoleiddio'r telerau ac amodau y mae'r gwasanaeth cyhoeddus a'r is-gwmnïau masnachol yn eu defnyddio i werthu nwyddau a gwasanaethau i'w gilydd. Mae nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu gwerthu gan y gwasanaeth cyhoeddus i drydydd partïon hefyd yn cael eu cynnwys. | Mae'n rhaid i'r BBC ennill cyfradd enillion fasnachol o bob un o'i is-gwmnïau masnachol a'r llinellau busnes dros gyfnod priodol o amser |
| **Gofynion monitro, adrodd a thryloywder*** | | |

*Mae'r gofynion hyn yn berthnasol ar draws y tri maes.

O dan y fframwaith hwn, mae'n rhaid i'r BBC ystyried a yw unrhyw newidiadau arfaethedig i'w weithgareddau masnachol yn berthnasol ac, os felly, cynnal prawf masnachol a chyfeirio'r newid perthnasol atom ni cyn iddo gael ei roi ar waith. Byddem wedyn yn asesu a yw'r newid hwn yn berthnasol ac os byddwn yn dod i'r casgliad ei fod, byddem yn cynnal asesiad a phenderfyniad Masnachu a Gwahanu.[195]

Disgrifir ein prif feysydd gwaith yn 2020/21 isod:

### Adolygiad o BBC Studios

Ar 9 Hydref 2020, fe wnaethom gyhoeddi cais am dystiolaeth. Mae'r adolygiad hwn yn asesu sut mae'r BBC wedi rhoi ein rheolau ar waith ac mae'n edrych ar bryderon ynghylch y berthynas rhwng y gwasanaeth cyhoeddus a BBC Studios. Fel rhan o'n hadolygiad, rydym yn asesu a yw ein gwaith rheoleiddio'n dal yn effeithiol yn y maes hwn.

[195] Bydd yr asesiad Masnachu a Gwahanu yn canolbwyntio ar a yw'r newid arfaethedig yn debygol o ystumio'r farchnad neu greu mantais gystadleuol annheg i weithgarwch masnachol y BBC o ganlyniad i'r berthynas rhwng y gwasanaeth cyhoeddus a'r gweithgaredd masnachol.

Ar ôl ymgynghori, fe wnaethom gyhoeddi datganiad ym mis Ebrill 2021 yn nodi ein penderfyniad bod newidiadau BBC Studios i'w linellau busnes[196] (o bump i ddau, yn enwedig cyfuno ei weithgareddau cynhyrchu a dosbarthu i greu un llinell fusnes), yn briodol.[197]

Yng ngweddill yr adolygiad, rydym wedi edrych yn fanwl ar y prosesau a'r gweithdrefnau y mae'r BBC wedi'u rhoi ar waith, i sicrhau ei fod yn bodloni ein rheolau.[198] Mae hyn wedi canolbwyntio ar brif feysydd ein rheolau: gwahanu gweithredol, prisiau trosglwyddo a chyfradd enillion. Rydym yn bwriadu cyhoeddi canfyddiadau ein hadolygiad ym mis Rhagfyr 2021.

### Asesiadau o newidiadau i weithgareddau masnachol

Yn 2020/21 fe wnaethom asesu dau newid gan y BBC o dan y fframwaith asesu perthnasedd. Y ddau newid oedd:

- trosglwyddo staff cynhyrchu BBC Three o'r gwasanaeth cyhoeddus i BBC Studios; a
- rhannu BBC Global News Limited (GNL) rhwng BBC Studios ac adran newyddion gwasanaeth cyhoeddus y BBC.[199]

Bu i ni gytuno â'r BBC nad oedd yr un o'r newidiadau hyn yn berthnasol a rhoesom wybod i'r BBC am y farn hon ym mis Gorffennaf 2021.

### Monitro gweithgareddau masnachol yn barhaus

Rydym yn monitro perfformiad y BBC yn ei weithgareddau masnachol yn barhaus, gan gynnwys asesu'r wybodaeth adrodd a ddarperir gan y BBC o dan ein rheolau. Bydd ein hadolygiad arfaethedig o BBC Studios yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid am ganlyniadau ein gwaith monitro eleni. Roedd rhai gwallau yn y wybodaeth flynyddol a gyflwynwyd am 2019/20; mae hon wedi cael ei hailgyflwyno ers hynny gan y BBC. Rydym wedi ymgysylltu â'r BBC ac mae wedi rhoi gwybod i ni ei fod yn cymryd camau i wella cywirdeb y wybodaeth hon.

# Beth rydym wedi'i wneud ers mis Ebrill 2017

## Gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus


Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Ofcom ei ddull gweithredu ar gyfer rheoleiddio cystadleuaeth y BBC, ynghyd â chanllawiau ar sut byddem yn ystyried newidiadau arfaethedig i wasanaethau'r BBC ac effaith gwasanaethau presennol y BBC, yn ogystal â'n gofynion a'n canllawiau o ran dosbarthu gwasanaethau cyhoeddus y BBC.

---

[196] Y meysydd busnes mae'r BBC yn eu defnyddio i osod targedau ac adrodd ar berfformiad.
[197] Fel rhan o'n datganiad, fe wnaethom benderfynu newid ein rheolau er mwyn i'r BBC orfod rhoi tri mis o rybudd i Ofcom am unrhyw newidiadau yn y dyfodol i gyfansoddiad presennol ei is-gwmnïau masnachol a'r llinellau busnes yn yr is-gwmnïau hynny. Os ydym o'r farn bod newidiadau'r BBC yn anghyson â'r rheolau, â Siarter y BBC neu Gytundeb Fframwaith y BBC, byddem yn gallu camu i mewn i'w hatal ar ôl ymgynghori.
[198] Gweithgareddau masnachol a masnachu'r BBC: gofynion a chanllawiau Ofcom, 15 Gorffennaf 2021. Dyma fersiwn cyfunol answyddogol y canllawiau a'r gofynion masnachu a gwahanu. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, yn achos unrhyw wahaniaeth rhwng testunau, bydd y testun a nodir yn y cyhoeddiad ar 11 Chwefror 2019 ac unrhyw ddogfennau dilynol a gyhoeddir ar wefan Ofcom yn cael blaenoriaeth. Cafodd addasiadau eu gwneud i'r gofynion masnachu a gwahanu yn natganiad llinellau busnes BBC Studios, 30 Ebrill 2021. Dylid darllen y gofynion masnachu a gwahanu ochr yn ochr â'r dogfennau dilynol a gyhoeddwyd ar wefan Ofcom.
[199] Cafodd rheolaeth olygyddol a gweithredol ar deledu BBC World News ei throsglwyddo i adran newyddion gwasanaeth cyhoeddus y BBC a GNL, a chafodd ei weithgareddau sy'n ymwneud â masnacheiddio'r gwasanaeth a chynhyrchion a gwasanaethau ar-lein eu symud i BBC Studios.

## Newidiadau i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau nad ydynt yn wasanaethau

Ers mis Ebrill 2017, mae Ofcom wedi ymgysylltu â'r BBC ynghylch nifer o newidiadau arfaethedig i wasanaethau cyhoeddus y BBC a gweithgareddau nad ydynt yn wasanaethau. Mae'r ffeithlun isod yn nodi amserlen y prif gynigion yr ydym wedi ystyried perthnasedd ar eu cyfer.[200]




## Astudiaethau achos

### Sianel BBC Scotland

Yn 2017, rhoddodd y BBC wybod i ni am gynnig i lansio sianel BBC Scotland. Fel gwasanaeth cyhoeddus newydd, roedd hwn yn newid perthnasol. Roedd y BBC felly wedi cynnal prawf lles y cyhoedd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw ymgynghorodd â rhanddeiliaid. Ym mis Tachwedd 2017, cafodd y prawf lles y cyhoedd ei gymeradwyo gan Fwrdd y BBC a'i gyflwyno i Ofcom i'w ystyried. Fe wnaethom ddechrau Asesiad Cystadleuaeth y BBC. i ystyried a fyddai'r gwerth y byddai'r cyhoedd yn ei gael o'r sianel yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Ym mis Mehefin 2018, ar ôl ymgynghori, fe wnaethom gyhoeddi ein penderfyniad.

Daethom i'r casgliad y byddai modd cyfiawnhau unrhyw effaith negyddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol oherwydd y gwerth cyhoeddus a fyddai'n cael ei ddarparu gan y cynnig, ac y gallai'r BBC fwrw ymlaen ag ef. Roeddem wedi pwysleisio mor bwysig oedd hi i'r BBC weithredu'r cynnig fel y cafodd ei nodi, ac wedi tynnu sylw at rôl Bwrdd y BBC, o ran monitro hynny, ac o ran ystyried unrhyw ehangu pellach gan y BBC. Lansiodd y BBC y sianel ym mis Chwefror 2019.

[200] Mae'r cynigion wedi'u grwpio yn ôl y flwyddyn y rhoddodd y BBC asesiad perthnasedd i ni neu y cyhoeddodd ei brawf budd y cyhoedd. Ni fwriedir i'r ffeithlun fod yn holl gynhwysfawr.

**Newidiadau i BBC iPlayer**

Ym mis Mehefin 2018, cyflwynodd y BBC gynigion i Ofcom er mwyn ychwanegu cyfresi cyfan at BBC iPlayer, ac nid oedd yn credu bod hyn yn newid perthnasol. Ar ôl asesiad, roeddem yn anghytuno â'r BBC, ac o'r farn y gallai ei gynigion gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Roeddem felly wedi mynnu bod y BBC yn cynnal prawf lles y cyhoedd ac roeddem wedi gosod cyfyngiadau dros dro ar gynnwys BBC iPlayer. Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd y BBC ganlyniad ei brawf lles y cyhoedd. Roedd ei newidiadau arfaethedig i BBC iPlayer yn cynnwys darparu pob rhaglen newydd ar BBC iPlayer am 12 mis fel mater o drefn. Dywedodd y BBC fod y cynigion yn bodoli'r prawf lles y cyhoedd, gan y byddai modd cyfiawnhau unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol drwy'r gwerth cyhoeddus y byddai'r newidiadau yn ei greu i gynulleidfaoedd.

Ar yr un pryd, roeddem wedi lansio Asesiad Cystadleuaeth gan ofyn am dystiolaeth gan randdeiliaid ynghylch sut byddai cynigion y BBC yn effeithio ar eu busnesau neu ar eu cynlluniau buddsoddi. Cafodd hyn ei ddilyn gan ail ymgynghoriad ym mis Mehefin pan wnaethom ymgynghori ynghylch ein casgliadau dros dro, gan roi cyfle olaf i randdeiliaid gyflwyno sylwadau. Ym mis Awst 2019 gwnaethom gwblhau ein Hasesiad Cystadleuaeth drwy gyhoeddi ein penderfyniad terfynol bod gwerth cyhoeddus cynigion y BBC ar gyfer BBC iPlayer yn cyfiawnhau'r effaith debygol ar gystadleuaeth ac felly y gallai'r BBC fwrw ymlaen â'r cynigion, yn ddarostyngedig i amodau a chanllawiau.

## Asesu effaith gystadleuol gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus presennol y BBC

Yn 2018, fe wnaethom ystyried cais gan Wireless Group i agor Adolygiad Cystadleuaeth y BBC ynghylch sut mae'r BBC yn caffael hawliau chwaraeon ar gyfer radio. Ym mis Rhagfyr, cyhoeddasom ein casgliad na fyddai'n briodol i ni arfer ein disgresiwn i lansio adolygiad, er ei bod hi'n bosibl y gallai'r BBC effeithio'n andwyol ar y gystadleuaeth rhwng y rheini sy'n ceisio cael hawliau chwaraeon.

Fel y nodwyd uchod, rydym wedi dod i'r casgliad, yn dilyn asesiad, nad oes gennym sail resymol i gredu bod BBC Sounds yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, ac felly nid ydym yn lansio Adolygiad Cystadleuaeth y BBC.

## Comisiynu

Fel yr eglurir uchod, mae'r Cytundeb yn nodi targedau penodol y mae'n rhaid i'r BBC eu cyrraedd mewn perthynas â chynyddu cyfran y cynnwys sy'n cael ei gomisiynu ar gyfer ei wasanaethau cyhoeddus drwy broses gystadleuol. Rydym wedi parhau i fonitro cynnydd y BBC o ran cyrraedd ei dargedau ers mis Ebrill 2017.

Hyd yma, yn ystod cyfnod y Siarter, mae'r BBC wedi bodloni'r gofynion canlynol:

- Cafodd y BBC wared ar y warant fewnol o ran rhaglenni teledu materion cyfoes sy'n ymwneud â phlant, chwaraeon a materion ar wahân i newyddion.
- Sicrhaodd y BBC bod 40% o'r rhaglenni teledu a oedd yn dod o dan y warant fewnol flaenorol o ran drama, comedi, adloniant a ffeithiol yn cael eu hagor i gystadleuaeth.

### Cwynion


Ers ysgwyddo ein rôl reoleiddio, wrth orfodi'r BBC i gydymffurfio â 'gofynion cystadleuaeth',[201] rydym wedi ystyried un gŵyn am weithgareddau masnachol y BBC, un gŵyn am gaffael gwasanaethau pleidleisio gan gynulleidfaoedd a sawl cwyn yn ymwneud â dosbarthiad gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU. Roedd y rhan fwyaf o'r cwynion yn ymwneud â dosbarthiad gwasanaethau cyhoeddus y BBC mewn cysylltiad â'i benderfyniad yn 2019 i dynnu'n ôl ei ffrydiau radio byw o TuneIn ar rai llwyfannau yn y DU. Gwnaethom ystyried pob cwyn a nodwyd uchod yn ofalus, gan ddod i'r casgliad nad oedd angen ymchwilio ymhellach i'r un ohonynt.[202]

## Gweithgareddau masnachol a masnachu

Yn 2017, bu i ni gyhoeddi reolau a oedd yn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch cystadleuaeth sy'n deillio o'r berthynas rhwng Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC a'i is-gwmnïau masnachol, er mwyn sicrhau nad yw gweithgareddau masnachol yn ystumio'r farchnad nac yn creu mantais gystadleuol annheg o ganlyniad i'w perthynas â Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC. Yn dilyn rhagor o waith yn y maes hwn, gan gynnwys edrych ar y prosesau a'r arferion sy'n ymwneud â gweithredu'r is-gwmnïau masnachol a'u perthynas â Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC, yn 2019 gwnaethom ddiweddaru ein rheolau.

Ers creu BBC Studios yn 2017, mae newid cyson wedi bod wrth i BBC Studios esblygu i ymateb i ddatblygiadau yn y farchnad, ac yn ein hadolygiad parhaus o BBC Studios rydym yn cydnabod y newidiadau hyn. Yn Ffigur 6, rydym wedi nodi'r newidiadau yn y fframwaith perthnasedd rydym wedi'u hasesu ers 2017. Roeddem wedi ystyried, ac wedi penderfynu, nad oedd y datblygiadau canlynol yn berthnasol o dan y fframwaith.

**Ffigur 6: Newidiadau i weithgareddau masnachol y BBC: 2018-2021**




[201] Mae 'gofyniad cystadleuaeth' yn unrhyw ofyniad a roddir ar y BBC gan Ofcom i reoleiddio effaith gweithgareddau'r BBC ar gystadleuaeth. Mae'r gofynion hyn wedi'u nodi yng Ngweithdrefnau Ofcom ar gyfer gorfodi gofynion cystadleuaeth y BBC.
[202] Cafodd y penderfyniadau eu gwneud yn unol â'n gweithdrefnau gorfodi.

## Astudiaeth achos:

**Ein hasesiad o BritBox yn 2019**

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd ITV a'r BBC lansiad BritBox, gwasanaeth fideo ar-alw drwy danysgrifiad.[203] Mae gan BritBox lawer iawn o gynnwys ITV a BBC, ynghyd â chynnwys gan Channel 4 a Channel 5 a'r BFI. Un o'r pethau pwysig i'n dadansoddiad oedd y ffaith bod y BBC yn rhoi mynediad i BritBox at gynnwys yn ffenestr unigryw 18 mis gwasanaeth cyhoeddus y BBC.

Yn ein hasesiad p'un a oedd hyn yn newid perthnasol i weithgareddau masnachol y BBC, roeddem wedi ystyried a oedd ymwneud y BBC â BritBox wedi creu risg sylweddol o ystumio'r farchnad, neu wedi creu mantais gystadleuol annheg o ganlyniad i berthynas y gweithgaredd hwn â gwasanaeth cyhoeddus y BBC.[204]

Roeddem o'r farn y byddai ein rheolau masnachu a gwahanu yn ddigon i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'n pryderon posibl. Roedd dau faes nad oedd ein rheolau presennol yn eu cwmpasu: mewn perthynas â pholisi'r BBC ar ryddhau rhaglenni (er mwyn caniatáu i gynnwys gael ei ddangos ar lwyfannau eraill o fewn cyfnod y ffenestr unigryw o 18 mis) a thrawshyrwyddo gan y gwasanaethau cyhoeddus. Ar ôl ymgynghori, daethom i'r casgliad nad oedd risg sylweddol o ystumio'r farchnad na mantais gystadleuol annheg, ond y byddem yn monitro datblygiadau'n ofalus ac yn camu i mewn pe bai pryderon yn codi yn y dyfodol.

Yn olaf, fel rhan o'n gwaith ar weithgareddau masnachol, rydym wedi ymgysylltu â'r Pwyllgor Masnachu Teg, is-bwyllgor Bwrdd y BBC sy'n gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiad y BBC â'i rwymedigaethau rheoleiddio o ran masnachu a gwahanu rhwng y gwasanaeth cyhoeddus a'r is-gwmnïau masnachol. Mae'r ymgysylltu hwn wedi ein helpu i ddeall yn well sut mae'r Pwyllgor Masnachu Teg yn helpu Bwrdd y BBC yn y maes hwn.

# Themâu allweddol sy'n deillio o'n gwaith dros gyfnod y Siarter hyd yma

### Tryloywder ac ymgysylltu â thrydydd partïon

Fel rydym wedi dweud mewn adroddiadau blynyddol blaenorol, mae'n bwysig bod y BBC yn ymgysylltu'n effeithiol ac yn dryloyw â thrydydd partïon ynghylch newidiadau arfaethedig i wasanaethau'r BBC. Bydd ymgysylltu gweithredol â'r diwydiant yn caniatáu i'r BBC addasu ei gynigion i osgoi effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth nad oes modd eu cyfiawnhau gan y gwerth cyhoeddus sy'n cael ei greu a bydd yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen ymyriad rheoleiddiol.

Yn ystod y pedair blynedd ers Adroddiad Blynyddol cyntaf Ofcom ar y BBC, rydym wedi gweld darlun cymysg o ran dull gweithredu'r BBC o safbwynt tryloywder ar draws ei wasanaethau cyhoeddus a'i weithgareddau masnachol. Rydym wedi gweld rhai enghreifftiau cadarnhaol o ymgysylltu â thrydydd partïon gan y BBC, fel ar ei strategaeth addysg. Fodd bynnag, mae amryw o randdeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch y ffordd mae'r BBC wedi ymgysylltu â nhw ynghylch newidiadau i'w

[203] Rheolir y fenter gan ITV gyda 90% o'r ecwiti yn cael ei ddal gan ITV a 10% gan y BBC.
[204] Roedd angen i ni hefyd ystyried a oedd hwn yn weithgaredd newydd neu'n newid perthnasol i'r gweithgareddau masnachol, ac roeddem yn cytuno â'r BBC ei fod yn weithgaredd newydd.

wasanaethau, ac rydym hefyd wedi nodi enghreifftiau lle gallai'r BBC fod wedi ymgysylltu â'r diwydiant yn fwy effeithiol, gan gynnwys mewn perthynas â datblygu BBC Sounds.

Mewn adroddiadau blynyddol blaenorol, roeddem wedi dweud y dylai Bwrdd y BBC wneud mwy i sicrhau mwy o dryloywder drwy sicrhau bod y BBC yn ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid. Rydym wedi tynnu sylw at yr angen i'r BBC ddefnyddio ei Gynllun Blynyddol – ochr yn ochr â llwybrau eraill – i roi gwybodaeth i randdeiliaid am ei gynlluniau a'i strategaeth ar gyfer y dyfodol. Rydym wedi nodi y byddai'n fuddiol pe bai'r BBC yn darparu mwy o eglurder yn ystod y broses perthnasedd gychwynnol i ganiatáu i randdeiliaid ymgysylltu'n briodol â'r BBC ynghylch yr effeithiau posibl ar gystadleuaeth.

Mae'r BBC wedi cymryd rhai camau i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Rydym wedi gweld cynnydd yn lefel y manylder yn y Cynllun Blynyddol, ac mae cynllun Ar Draws y DU yn enghraifft dda o'r BBC yn rhoi cipolwg cynnar i randdeiliaid o'i strategaeth. Mae hyn yn rhywbeth rydym yn credu y dylai'r BBC wneud mwy ohono. Fodd bynnag, rydym yn dal i feddwl bod mwy y gall y BBC ei wneud. Er enghraifft, rydym yn dweud yn ein datganiad ar BBC Sounds ein bod yn disgwyl i'r BBC ddarparu digon o wybodaeth i randdeiliaid allu rhoi sylwadau ystyrlon ar newidiadau pellach i BBC Sounds, fel cynulleidfaoedd targed a'r cyfraddau defnyddio disgwyliedig, ac i sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i wneud hynny. Fodd bynnag, nid ydym yn disgwyl i'r broses ymgysylltu fod yn benagored, ac rydym hefyd yn disgwyl i randdeiliaid ymgysylltu'n amserol â'r BBC.

O ran profion budd y cyhoedd (y bu tri ohonynt yn ystod cyfnod y Siarter hyd yma), rydym wedi clywed gan randdeiliaid nad yw'r BBC yn dangos yn ddigonol sut mae wedi ystyried yr effaith bosibl ar gystadleuaeth. Yn y gorffennol, rydym wedi beirniadu'r dadansoddiad y mae'r BBC wedi'i wneud yn ei brofion budd y cyhoedd, ond rydym wedi gweld gwelliannau yn ddiweddar. Mewn perthynas â'i gynlluniau ar gyfer BBC Three, darparodd y BBC fwy o wybodaeth a gwybodaeth gyfoethocach, er enghraifft, ar werth cyhoeddus. Rydym hefyd wedi gweld gwelliannau yn y ffordd mae'r BBC yn ymgysylltu â ni: ymgynghorwyd â ni gan y BBC yn ystod cam sefydlu'r ymchwil cynulleidfa a gomisiynwyd ganddo ar gyfer prawf lles y cyhoedd BBC Three, a chawsom gyfle i roi sylwadau ar agweddau fel y fethodoleg fwyaf priodol, yn enwedig o ystyried cyfyngiadau oherwydd cyfyngiadau Covid-19, cwestiynau ymchwil a gofynion samplu.

Yn ein barn ni, mae mwy y gallai'r BBC ei wneud i greu diwylliant o dryloywder ledled ei weithrediadau, a pharodrwydd i ailystyried ei gynlluniau yng ngoleuni adborth gan randdeiliaid. Ategwyd y farn hon yn Adolygiad Serota yn ddiweddar, a ddywedodd:

> ***"Byddai'r cyfleoedd a nodwyd gan gyfranwyr i'r Adolygiad hwn, o'r tu mewn a'r tu allan i'r BBC, yn golygu, ymysg pethau eraill:...llai o naws amddiffynnol a mwy o dryloywder o ran sut mae'r BBC yn ymateb i'r byd y tu allan"***
> ***Adolygiad Serota***

## Adolygiad Ofcom o reoleiddio'r BBC

Fel y nodir yn yr adran ar ein rhaglen waith, rydym ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC. Fel rhan o hyn, rydym yn ystyried yn fanylach sut orau i asesu effaith gystadleuol newidiadau i wasanaethau cyhoeddus y BBC, gan fod gennym bellach ddigon o brofiad o sut mae'r prosesau presennol yn gweithio'n ymarferol. Yn benodol, rydym yn ystyried y pryderon a godwyd gan randdeiliaid am ddiffyg tryloywder y BBC ynghylch newidiadau arfaethedig: sut mae'n ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch effaith newidiadau a sut mae'n ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid. Bydd ein hadolygiad yn edrych ar sut gellid datblygu'r fframwaith rheoleiddio i annog a galluogi'r BBC i ymgysylltu'n well â rhanddeiliaid, ond ochr yn ochr â hyn, rydym yn disgwyl i'r BBC barhau i ddatblygu ei ymgysylltu â thrydydd partïon. Byddwn hefyd yn ystyried sut dylid addasu'r fframwaith rheoleiddio i ystyried y newidiadau sylweddol yn y ffordd mae cynnwys cyfryngol wedi cael ei gynhyrchu, ei ddosbarthu a'i ddefnyddio ers cyflwyno'r fframwaith presennol. Rydym hefyd yn ystyried rôl gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn y gwaith o gynnal ei weithgareddau masnachol.



# Safonau o ran cynnwys

Yn yr adran hon rydym yn nodi ein gwaith o orfodi safonau o ran cynnwys ar wasanaethau'r BBC yn 2020/21 yn gyntaf, ac wedyn yn rhoi trosolwg thematig o waith yn y maes hwn dros bedair blynedd cyntaf cyfnod y Siarter presennol. Y mater allweddol rydym wedi rhoi sylw iddo hyd yma yw tryloywder y BBC o ran gwneud penderfyniadau a delio â chwynion; byddwn hefyd yn rhoi sylw i hyn fel rhan o'n hadolygiad o reoleiddio'r BBC eleni, yn arwain at adolygiad hanner ffordd trwy'r Siarter Llywodraeth y DU.

## Cyflwyniad

Mae'r cyhoedd wedi bod yn craffu ar gynnwys y BBC dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda chyhoeddi Adolygiadau Dyson a Serota a chynllun gweithredu didueddrwydd a safonau golygyddol y BBC ei hun (gweler Diben Cyhoeddus 1). Yn ystod y cyfnod hwn, sef ein pedwaredd flwyddyn yn rheoleiddio cynnwys y BBC, rydym wedi parhau i alw ar y BBC i gynnal y safonau uchel y mae ei gynulleidfaoedd yn eu disgwyl. Mae ein Fframwaith Gweithredu ar gyfer y BBC (ac Adroddiadau Blynyddol blaenorol) yn nodi ein rôl o ran rheoleiddio safonau y BBC o ran cynnwys.

Un o'n prif ffyrdd o sicrhau safonau yw drwy ddelio â chwynion gan gynulleidfaoedd. Yn wahanol i'r darlledwyr eraill rydym yn eu rheoleiddio, mae proses gwyno 'BBC yn Gyntaf' yn rhoi cyfle i'r BBC ddatrys cwynion yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, os bydd y sawl sy'n cwyno wedi mynd drwy'r broses hon ac yn anfodlon â phenderfyniad terfynol y BBC, mae modd cyfeirio'r mater at Ofcom.[205] Mewn amgylchiadau eithriadol, caiff Ofcom ymyrryd yn gynharach, a gall lansio ymchwiliadau i benderfynu ar gydymffurfiaeth fel y gwêl yn briodol.

## Gorfodi safonau y BBC o ran cynnwys yn 2020/21

### Cwynion am raglenni'r BBC

Mae ein Cod Darlledu yn nodi'r safonau rydym yn disgwyl i ddarlledwyr eu cyrraedd ac rydym wedi parhau i orfodi yn unol â'r rheolau hyn. Rydym o'r farn bod y BBC wedi cyrraedd y safonau hyn yn ei raglenni dros y 12 mis diwethaf. Nid ydym wedi cofnodi unrhyw achosion o dorri ein Cod Darlledu yn ystod y cyfnod hwn.

Mae ystadegau cwynion y BBC ar gyfer 2020/21 yn dangos nad yw'r rhan fwyaf o'r rheini sy'n cwyno yn cyfeirio eu cwyn at Ofcom ar ôl cael ymateb terfynol y BBC i'w cwyn. Mae'n bwysig deall y rhesymau dros y gyfradd uwchgyfeirio isel hon, a allai ddangos bod proses BBC yn Gyntaf yn gweithio'n dda, ond a allai hefyd fod yn berthnasol yn rhannol i ffactorau eraill. Rydym yn ymwybodol bod nifer o'r rheini sy'n cwyno yn dal i fynd ati'n anghywir i gyflwyno eu cwyn i Ofcom cyn cwblhau proses gwyno'r BBC. Felly, fel rhan o'n hadolygiad o reoleiddiad y BBC yn ystod y flwyddyn i ddod, byddwn yn cynnal ymchwil i ba mor dda mae proses gwynion 'BBC yn Gyntaf' yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd, o ran eu profiad o'r broses a pha mor fodlon ydynt â'r broses a'r canlyniad.

---

205 Nid yw hyn yn berthnasol i gwynion am Degwch a Phreifatrwydd, y dylid eu cyflwyno'n uniongyrchol i Ofcom.


Mae'r adroddiadau misol y mae'r BBC yn eu cyflwyno i Ofcom (yn unol â gofynion ein Penderfyniadau mewn perthynas â delio â chwynion y BBC – gweler isod) yn caniatáu i ni asesu a yw pob cwyn sy'n mynd ymlaen i Gam 2 proses y BBC yn cael ei hystyried a'i datrys yn brydlon. Yn yr un modd â phob blwyddyn, mae adegau prin wedi bod yn ystod y cyfnod perfformio hwn pan nad yw hyn wedi digwydd, ond nid yw hyn yn annisgwyl mewn system sy'n delio â chynifer o gwynion. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn nodi bod nifer cwynion cyffredinol y BBC wedi cynyddu yn 2020/21 ond bod yr amser ymateb ar gyfer ateb cwynion o fewn y targedau DPA a bennwyd gan Ofcom wedi gwella hefyd (gweler isod).

**Ffigur 7: Cwynion Cam 1 i'r BBC**

| | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|
| **Cwynion Cam 1 y BBC** | 368,377 | 462,255 |
| **Cwynion a gafodd eu hateb o fewn yr amserlen benodedig o 10 diwrnod gwaith (targed a osodwyd gan Ofcom 93%)** | 87% | 93% |

Rhan allweddol o system BBC yn Gyntaf yw'r gweithgarwch ymchwilio a wneir gan Uned Cwynion Gweithredol (UCG) y BBC yng Ngham 2 proses gwynion y BBC. Yn ystod 2020/21 deliodd yr UCG â 455 o gwynion am gynnwys darlledu ac ar-alw y BBC[206] ac fe gafodd 19 ohonynt eu cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol.

**Ffigur 8:Cwynion i Ofcom am y BBC yn 2020/21**




Yn yr un modd â'r BBC, gwelodd Ofcom gynnydd sylweddol yn nifer y cwynion a gafodd: rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 cawsom nifer fawr o gwynion am bob darlledwr. Fe wnaethom asesu 142,660 o gwynion am deledu a radio, cynnydd o 300% o'i gymharu â'r llynedd, pan aseswyd 34,545 o gwynion. Cafodd hyn ei ysgogi'n rhannol gan y pandemig a chwynion am faterion sy'n ymwneud ag ethnigrwydd.[207] O blith y cwynion hyn, fe wnaethom asesu 185 a oedd yn ymwneud â chynnwys y BBC ac a oedd wedi cwblhau proses gwynion y BBC, gyda'r achwynydd yn anfodlon â'r canlyniad.[208]

[206] Nid yw hyn yn cynnwys cwynion am BBC World Service (nad yw'n cael ei reoleiddio gan Ofcom).
[207] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Ofcom 2020/21 .
[208] Cawsom hefyd 5,244 o gwynion eraill nad oeddent wedi cwblhau proses gwynion y BBC cyn dod atom ni, bron i ddwbl cyfanswm y llynedd, sef 2,763.

Mae Ffigur 8 yn dangos y duedd mewn cwynion i Ofcom dros y blynyddoedd rydym wedi bod yn rheoleiddio’r BBC.

Mae hon yn gyfran fach iawn (0.04%) o gyfanswm y cwynion yr ymdriniwyd â nhw gan y BBC yn 2020/21 ac yn llai na nifer yr asesiadau o safonau’r BBC a gwblhawyd gennym y llynedd (233). Nid oeddem o’r farn bod unrhyw un o’r 185 o gwynion hyn yn codi materion o sylwedd o dan y Cod nac yn cyfiawnhau ymchwiliad pellach.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau mwy o dryloywder i gynulleidfaoedd, rydym wedi dechrau gwneud mwy o ddefnydd o’r penderfyniadau ‘heb eu canlyn’ a gyhoeddir fel arf rheoleiddio pwysig – er enghraifft, cyhoeddi ein penderfyniadau i beidio â mynd ar drywydd cwynion am *Points West* (gweler y blwch isod), *Newsnight* a *Scottish Government’s Coronavirus Updates* a amlinellir yn yr adran hon. Roedd y rhain yn achosion a oedd yn cynnwys trafod materion o bwysigrwydd cyffredinol ac sy’n destun pryder i’r cyhoedd; er enghraifft, gwybodaeth am iechyd y cyhoedd yn ymwneud â’r pandemig presennol. Felly, roeddem o’r farn ei bod er budd y cyhoedd i ni gyhoeddi ein rhesymau dros yr asesiadau hyn, yn ogystal â darparu canllawiau i’r BBC ac i ddarlledwyr eraill. Rydym yn monitro’n ofalus sut mae’r BBC wedi gweithredu ar ein canfyddiadau yn yr achosion hyn.

### ***Points West*, BBC One/Sianel BBC News, 28 Gorffennaf 2020, 18:30 a 22:30 a 29 Gorffennaf 2020, 10:00**

Am 18:30 ar 28 Gorffennaf 2020, roedd *Points West* yn cynnwys adroddiad am ymosodiad a sbardunwyd gan ffactorau hiliol ar weithiwr ifanc du yn y GIG ym Mryste, lle defnyddiodd y cyflwynydd y ‘gair n’ yn llawn fel rhan o’i disgrifiad o iaith hiliol a ddefnyddiwyd yn ystod y digwyddiad. Ailadroddwyd yr un fersiwn o’r adroddiad, a oedd yn cynnwys y gair hiliol sarhaus, mewn dwy raglen arall.

Cafodd y BBC dros 18,000 o gwynion am y defnydd o iaith hiliol dramgwyddus yn ystod yr adroddiadau. Ar 4 Awst 2020, rhyddhaodd y BBC ddatganiad ar ei wefan cwynion a oedd yn amddiffyn y darllediadau. Ar 10 Awst 2020, cyhoeddodd Uned Cwynion Gweithredol (UCG) y BBC grynodeb ac ymateb i’r cwynion. Roedd yr ymateb yn manylu ar e-bost a anfonwyd gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y BBC ar y pryd, yr Arglwydd Hall, at holl staff y BBC y diwrnod blaenorol, a oedd yn dweud: “Dylai pob mudiad allu cydnabod pan fydd wedi gwneud camgymeriad. Fe wnaethon ni un yma”.

Ni wnaeth yr UCG ymchwilio i’r cwynion a gafodd gan fod y Cyfarwyddwr Cyffredinol, fel Prif Olygydd y gorfforaeth, wedi esbonio’r camau yr oedd wedi’u cymryd a’r dyfarniad yr oedd wedi’i wneud.

Cafodd Ofcom 878 cwyn nad oeddent wedi cwblhau proses gwyno'r BBC. Yn unol â BBC yn Gyntaf, fe wnaethom gyfeirio’r cwynion hyn at y BBC. Yn dilyn hynny, cawsom un gŵyn am y darllediadau a oedd wedi cwblhau proses gwynion y BBC, a aseswyd gennym o dan y Cod Darlledu. Roeddem o’r farn nad oedd y cyd-destun yn cyfiawnhau’r potensial uchel iawn o dramgwyddo yn yr iaith benodol a oedd wedi’i chynnwys yn y darllediadau hyn. Roeddem hefyd yn bryderus mai ymateb cyntaf y BBC oedd amddiffyn darlledu’r iaith hon yn yr adroddiadau hyn.

Fodd bynnag, fe wnaethom ystyried bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol, fel Prif Olygydd, wedi datgan yn gyhoeddus y dylai’r BBC fod wedi mabwysiadu dull gwahanol ac ymddiheuro am y gofid a achoswyd. Yn dilyn hynny, cymerodd y BBC gamau i ddiweddaru ei ganllawiau ar ddefnyddio iaith

dramgwyddus a chyflwynodd atgyfeiriad gorfodol i Benaethiaid Is-adrannau ar gyfer pob penderfyniad ynghylch cynnwys iaith hiliol. Ar ôl ystyried yn ofalus y camau a gymerwyd a'r safbwynt terfynol y daeth y BBC iddo mewn ymateb i gwynion, roedd Ofcom o'r farn, er nad oedd y cyd-destun yn cyfiawnhau'r potensial uchel iawn o dramgwyddo yn y darllediadau hyn, nad oedd angen cymryd camau rheoleiddio pellach.

## Tryloywder y BBC o ran sut mae'n delio â chwynion

Nodwyd yn ein dogfen ymgynghori ar gyfer ein hadolygiad o reoleiddio'r BBC fod hyder y cyhoedd yng ngweithrediad ac effeithiolrwydd proses gwynion y BBC yn dibynnu ar y BBC yn bod yn ddigon tryloyw o ran sut mae'n delio â chwynion ac yn eu datrys. Tynnwyd sylw at y pwnc hwn hefyd yn Adolygiad Serota, a oedd yn nodi bod 'meddylfryd amddiffynnol' yn y BBC.

Mae Penderfyniadau Ofcom ar Gwynion yn amlinellu'r gofynion ar gyfer adrodd a chyhoeddi gwybodaeth am sut mae'r BBC yn delio â chwynion yng nghamau 1 a 2 Fframwaith Cwynion y BBC. Mae'r Penderfyniadau diweddaraf, a gyhoeddwyd gennym yn ystod 2020/21, yn cynnwys darpariaeth benodol sy'n mynnu bod y BBC yn cyhoeddi mwy o grynodebau o ganfyddiadau UCG y BBC yng ngham 2 trefn gwyno'r BBC. Mae'r Penderfyniadau'n gofyn am y canlynol:

- dylai'r BBC gyhoeddi'r holl ganfyddiadau sydd wedi'u cadarnhau, eu cadarnhau'n rhannol a'u datrys yng ngham 2; a
- "rhaid i rai canfyddiadau heb eu cadarnhau gael eu cyhoeddi yn unol â'r meini prawf y mae Ofcom wedi cytuno arnynt."

Fodd bynnag, rydym yn nodi nad yw'r BBC wedi cyhoeddi unrhyw un o'i ganfyddiadau 'heb eu cadarnhau' ers cyhoeddi ein Penderfyniadau diweddaraf ym mis Gorffennaf 2020. Gan ystyried ei bod yn bwysig i'r BBC fod mor dryloyw ag y gall fod wrth esbonio ei benderfyniadau ynghylch safonau golygyddol i gynulleidfaoedd, er mwyn cynnal ffydd y cyhoedd, byddwn yn trafod hyn â'r BBC.

Bydd ein Penderfyniadau ynghylch Cwynion am y BBC yn wynebu adolygiad pellach yng nghanol 2021. Fodd bynnag, fel y nodwyd gennym yn ein Dogfen Ymgynghori ym mis Gorffennaf 2021 *Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC*, rydym yn bwriadu ymgorffori'r adolygiad hwn o Benderfyniadau ar Gwynion y BBC yn ein hadolygiad ehangach o reoleiddio'r BBC y byddwn yn ei gyhoeddi yn 2022. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried y mesurau sydd wedi'u hamlinellu yng nghynllun gweithredu didueddrwydd a safonau golygyddol y BBC yn y maes hwn er mwyn bod yn fwy agored a thryloyw (gan gynnwys diwygio fframwaith cwynion y BBC).

## Sicrhau didueddrwydd dyladwy rhaglenni'r BBC

Roedd nifer y cwynion a gyflwynwyd i Ofcom am ddiffyg didueddrwydd dyladwy yn rhaglenni'r BBC yn dal yn uchel yn ystod 2020/21 (gweler Ffigur 12 isod). O'r cyfanswm o 5,429 o gwynion a gawsom am y BBC, roedd 1,530 ohonynt – neu 28% o'r holl gwynion i Ofcom am y BBC – yn ymwneud â didueddrwydd dyladwy, o'i gymharu â 29% y llynedd. O'r 185 o gwynion a aseswyd gennym, roedd 82 (44%) yn ymwneud â didueddrwydd dyladwy, gan gynnwys yr astudiaethau achos isod.

Yn y cyfnod adrodd presennol, nid ydym wedi gweld bod cynnwys y BBC wedi torri gofynion y Cod o ran didueddrwydd dyladwy na chywirdeb dyladwy.[209] Fodd bynnag, fel y trafodwyd eisoes, yn wahanol i ddarlledwyr eraill, un o nodweddion pwysig fframwaith BBC yn Gyntaf yw'r ffaith y gall y BBC wneud ei benderfyniadau ei hun ynghylch cynnwys golygyddol, gan gynnwys didueddrwydd dyladwy. Dim ond os yw'r sawl sy'n cwyno yn anfodlon â phenderfyniad terfynol y BBC y daw cwynion i Ofcom i'w hystyried. Yn ystod 2020/21, o'r 18 achos a gafodd eu cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol gan UCG y BBC, roedd pump yn ymwneud â didueddrwydd dyladwy. O blith y rhain, fe wnaeth un achwynydd uwchgyfeirio ei gŵyn at Ofcom ar ôl cwblhau proses gwyno'r BBC. Fe wnaethom asesu'r gŵyn hon ond nid oeddem o'r farn ei bod yn codi materion y gellid cyfiawnhau ymchwilio iddynt o dan ein rheolau.

Er na wnaethom agor unrhyw ymchwiliadau i ddidueddrwydd dyladwy eleni, fel y nodwyd uchod, er mwyn bod yn dryloyw fe wnaethom benderfynu cyhoeddi ein rhesymau dros beidio ag agor ymchwiliadau mewn dau achos (*Newsnight* a *Scottish Government's Coronavirus Updates* – gweler y blychau isod). Roedd y ddau achos yma o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd ac roedd ein penderfyniadau'n gosod canllawiau pwysig i'r BBC a darlledwyr eraill.

## Cwynion golygyddol difrifol (gan gynnwys cwynion am etholiadau)

Mae llawer o'r ffocws cyhoeddus ar safonau y BBC o ran cynnwys dros y flwyddyn ddiwethaf wedi ymwneud â sut aeth ati i ddelio â methiant golygyddol difrifol hanesyddol (ynglŷn â chyfweliad Martin Bashir gyda Diana, Tywysoges Cymru ar *Panorama* yn 1995). Cylch gwaith cyffredinol Ofcom o ran sicrhau safonau darlledu yw diogelu cynulleidfaoedd rhag niwed a thramgwydd mewn rhaglenni drwy orfodi ein Cod Darlledu. Dyna pam rydym bob amser wedi croesawu'r ffordd y mae'r BBC yn canolbwyntio ar gwynion golygyddol difrifol yn ei Adroddiad a'i Gyfrifon Blynyddol ei hun.

Fe wnaethom ddweud yn y ddogfen ymgynghori ar gyfer ein hadolygiad o reoleiddiad y BBC ein bod yn bwriadu craffu ar broses y BBC ar gyfer delio â chwynion difrifol a'u cyflymu. Mae hyn hefyd wedi bod yn un o brif elfennau Adolygiad Serota, a oedd yn argymell y *"dylai'r BBC sefydlu a chyhoeddi gweithdrefn syml a chymesur ar gyfer ei ymchwiliadau ei hun (mewnol) i achosion posibl o dorri'r Canllawiau Golygyddol".* Mae'r BBC wedi mabwysiadu'r argymhelliad hwn ac wedi ymrwymo yn ei gynllun gweithredu ar ddidueddrwydd a safonau golygyddol i weithdrefn a fydd *"yn annibynnol ar is-adrannau gwneud cynnwys, gyda'r achosion mwyaf difrifol yn galw am ymchwiliad sy'n cynnwys ffigwr nad yw'n perthyn i'r BBC neu'n cael ei arwain ganddo."*

Rydym yn croesawu ymrwymiad y BBC i wella atebolrwydd a dilyn cynnydd o ran cyflawni pob cam gweithredu yn ei gynllun gweithredu ar ddidueddrwydd a safonau golygyddol yn dilyn Adolygiad Serota, a byddwn yn monitro cynnydd y BBC yn ofalus yn y maes hwn.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi delio â dwy gŵyn uchel eu proffil sy'n ymwneud yn benodol ag etholiadau: cwyn gan blaid Alba mewn perthynas â darllediad y BBC o Etholiad Senedd yr Alban, a chŵyn gan Reform UK mewn perthynas ag *Election Wales 2021: Leaders' Debate* ar BBC One ar 29 Ebrill 2021.

Y llynedd, fe wnaethom ddechrau trafod gyda'r BBC ynghylch sut mae'n delio â chwynion difrifol, gan gynnwys cwynion sy'n ymwneud ag etholiadau. Mae tryloywder y BBC yn y maes hwn yn arbennig o bwysig, oherwydd gall canlyniad unrhyw fethiant golygyddol fod yn sylweddol a gall yr

[209] Fodd bynnag, rydym wedi agor un ymchwiliad i gynnwys y BBC sy'n ymwneud â didueddrwydd dyladwy hyd yma yn 2021/22.

amserlen ar gyfer datrys materion fod yn fyr iawn. I'r perwyl hwn, rydym yn croesawu argymhelliad Adolygiad Serota (a fabwysiadwyd gan y BBC yn ei gynllun gweithredu ar ddidueddrwydd a safonau golygyddol) *"y dylid diweddaru Fframwaith Cwynion y BBC i gyfeirio'n benodol at, ac esbonio sut, mae'r BBC yn delio â chwynion brys am gynnwys sy'n cael ei ddarlledu neu ei gyhoeddi lle mae'n rhaid dod i benderfyniad yn gyflym, mewn mater o oriau o bosibl."*

Rydym eisiau sicrhau bod y system BBC yn Gyntaf yn parhau i ennyn hyder cynulleidfaoedd yn ystod cyfnodau arwyddocaol fel etholiadau. Byddwn yn parhau i ymgysylltu ymhellach â'r BBC ynghylch delio â chwynion golygyddol difrifol, gan gynnwys cwynion am etholiadau, fel rhan o'n hadolygiad o reoleiddiad y BBC.

### *Newsnight,* BBC Two, 26 Mai 2020, 22:45

Yn ystod rhan agoriadol rhifyn o Newsnight, soniodd y cyflwynydd Emily Maitlis am y digwyddiadau diweddaraf a oedd yn cynnwys Prif Gynghorydd Llywodraeth y DU ar y pryd, Dominic Cummings. Yn ei sylwadau, dywedodd fod:

- Mr Cummings wedi “torri’r rheolau” yn ystod cyfnod clo cyntaf Covid-19;
- ei fod wedi “gwneud i’r rheini a oedd yn ei chael yn anodd cadw at y rheolau deimlo fel ffyliaid”;
- bod “anesmwythyd cenedlaethol dwfn” wedi bod ynghylch y digwyddiad; a
- bod ymateb Llywodraeth y DU wedi dangos “ffyddlondeb dall” i Mr Cummings.

Cafodd y BBC gwynion bod sylwadau agoriadol y cyflwynydd yn rhagfarnllyd ac yn anghywir. Cyhoeddodd Uned Cwynion Gweithredol (UCG) y BBC ei chanfyddiad ar 3 Medi 2020 fod y cwynion wedi cael eu ‘datrys’, gan ddweud, er nad oedd y cyflwyniad “yn bodloni’r safonau gofynnol o ran cywirdeb neu ddidueddrwydd”, nad oedd angen cymryd camau pellach oherwydd bod BBC News wedi cyfaddef nad oedd y cyflwyniad yn cyrraedd y safonau gofynnol o ran cywirdeb neu ddidueddrwydd.

Cafodd Ofcom bum cwyn a oedd wedi cwblhau proses BBC yn Gyntaf. Roedd Ofcom o’r farn bod y rhaglen yn cael ei hystyried yn newyddion a’i bod yn delio â mater gwleidyddol neu ddiwydiannol dadleuol mawr a mater o bwys sy’n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Felly, fe wnaethom asesu’r cynnwys yn erbyn Adran 5 y Cod, sy’n mynnu bod newyddion, ar ba ffurf bynnag, yn cael ei ohebu gyda chywirdeb dyladwy a’i gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy.

Fe wnaethom gydnabod bod yr adran o’r rhaglen yn dilyn y cyflwyniad, a oedd yn para tua 20 munud, wedi trafod y stori’n fanylach ac wedi cynnwys ymateb cyhoeddus Llywodraeth y DU yn ogystal â safbwyntiau gwahanol eraill. Felly, roeddem o’r farn bod ystod briodol o safbwyntiau pwysig ar y pwnc wedi cael eu cynnwys a chael sylw dyladwy.

Fodd bynnag, roeddem hefyd o’r farn bod gan sylwadau agoriadol y cyflwynydd y potensial i gael eu gweld gan rai gwylwyr fel mynegiant o’i barn bersonol ar fater gwleidyddol dadleuol o bwys a mater pwysig sy’n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol.

O ystyried y camau a gymerwyd gan y BBC, gan gynnwys BBC News, ar ôl cydnabod nad oedd y rhaglen yn bodloni Canllawiau Golygyddol y BBC o ran cywirdeb a didueddrwydd, a chanfyddiad ‘datryswyd’ gan UCG y BBC, roedd Ofcom o'r farn nad oedd angen cymryd unrhyw gamau rheoleiddio pellach.

Fodd bynnag, fe wnaethom atgoffa darlledwyr y dylai cyflwynwyr, wrth baratoi cyflwyniadau mewn rhaglenni newyddion, sydd wedi’u dylunio i ddal sylw’r gynulleidfa – yn enwedig mewn materion gwleidyddol dadleuol o bwys – sicrhau nad ydynt, yn anfwriadol, yn rhoi’r argraff eu bod yn mynegi barn neu eu safbwyntiau personol.

### Darlledu diweddariad coronafeirws Llywodraeth yr Alban: rhaglenni amrywiol ar BBC One Scotland a BBC Scotland, Medi-Rhagfyr 2020

Roedd pedwar achwynydd i Ofcom o'r farn nad oedd y darllediadau o ddiweddariadau rheolaidd Llywodraeth yr Alban am y coronafeirws yn ddigon diduedd, gan eu bod yn rhoi llwyfan i Blaid Genedlaethol yr Alban (SNP) a'i harweinydd, y Prif Weinidog Nicola Sturgeon, i hyrwyddo eu safbwyntiau ar faterion polisi parhaus yn yr Alban heb roi unrhyw gyfle i bleidiau gwleidyddol eraill yn yr Alban fynegi eu barn.


Fe wnaeth y BBC wrthod y pedair cwyn ar y sail nad oedd y cynnwys yn torri eu canllawiau golygyddol ar ddidueddrwydd dyladwy. Roedd y cwynion yn cyfeirio at nifer o ddarllediadau ac fe wnaethom ddefnyddio dull cymesur yn ein hasesiad. Yn ein barn ni, ar draws y darllediadau y gwnaethom eu hasesu, roedd sawl datganiad y gellid eu dehongli naill ai fel safbwynt y Prif Weinidog a'i phlaid ar faterion polisi dadleuol, neu fel beirniadaeth o Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, fe wnaethom ystyried bod datganiadau'r Prif Weinidog yn gymharol fyr a bod bron pob un ohonynt mewn ymateb i gwestiynau gan newyddiadurwyr, a oeddent eu hunain yn ei herio hi a pholisïau Llywodraeth yr Alban ar ddelio â'r argyfwng. Fe wnaethom hefyd ystyried bod y Prif Weinidog yn cydnabod yn rheolaidd y berthynas waith gydweithredol a'r trafodaethau adeiladol rhwng Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau yng Nghymru a Gogledd Iwerddon; a bod gohebwyr y BBC, ar BBC One Scotland, wedi mynd ymlaen i ddarparu dadansoddiad pellach o'r hyn a drafodwyd yng nghyfarfodydd briffio diweddaraf Prif Weinidog yr Alban mewn rhaglenni dilynol ar y diwrnodau hynny.

Ar ôl ystyried hawliau'r darlledwr a'r gynulleidfa i ryddid mynegiant, a'r holl ffactorau cyd-destunol a'r technegau golygyddol perthnasol fel y nodir yn ein penderfyniad, roedd Ofcom o'r farn bod didueddrwydd dyladwy wedi'i gynnal. Fodd bynnag, fe wnaethom atgoffa pob darlledwr o'r gofal y mae angen ei gymryd wrth gynnwys yn eu rhaglenni ymgeiswyr a gwleidyddion eraill sy'n darparu gwybodaeth am iechyd ac am gyfyngiadau'r coronafeirws ar draws gwledydd y DU.

## Covid-19

Cafwyd cynnydd mewn cwynion yn ymwneud â chynnwys a allai fod yn niweidiol yn gyffredinol yn 2020/21, wedi'i sbarduno gan nifer fawr o gwynion yn ymwneud â'r sylw i Covid-19.

**Ffigur 9: Cwynion i Ofcom am y BBC a Covid-19 yn 2020/21**




Mae Ffigur 9 yn dangos ein bod wedi cael 1,104 o gwynion yn 2020/21 am y sylw a roddwyd i Covid-19 ar y BBC. Cafodd 1,051 o'r rhain eu cyfeirio'n ôl at y BBC gan nad oeddent wedi cwblhau proses BBC yn Gyntaf. O'r 185 o gwynion a gawsom am y BBC a oedd wedi cwblhau proses BBC yn Gyntaf, fe wnaethom benderfynu peidio â mynd ar drywydd 82 (44%). Roedd y cwynion hyn yn ymwneud â materion a oedd yn cynnwys: 'codi bwganod'; diffyg didueddrwydd dyladwy honedig yng nghyswllt pynciau sy'n ymwneud â Covid-19 (fel gwisgo masg a brechlynnau); a gwybodaeth sy'n ymddangos yn anghywir neu gamarweiniol. Fe wnaethom asesu'r holl gwynion a gawsom am y BBC a Covid-19 yn rhagofalus i chwilio am ddeunydd a allai fod yn niweidiol. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r cwynion hyn yn codi materion y gellid cyfiawnhau ymchwilio iddynt o dan y Cod.

## Mae Ofcom hefyd yn ystyried cwynion ynghylch tegwch a phreifatrwydd

Mae gan Ofcom ddyletswydd i ddyfarnu ynghylch cwynion sy'n cael eu gwneud gan unigolion neu sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni a ddarlledir, neu a oedd yn rhan o wneud rhaglenni, neu y mae'r rhaglenni hynny'n effeithio arnynt yn uniongyrchol. Gelwir y rhain yn gwynion Tegwch a Phreifatrwydd. Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, fe wnaethom ddelio â 48 o gwynion yn erbyn rhaglenni'r BBC am honiadau o drin pobl neu sefydliad yn anghyfiawn neu'n annheg, neu am dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad, o'i gymharu â 50 y llynedd. O'r rhain, cafodd pum cwyn eu cyfeirio ar gyfer ymchwiliad i benderfynu a oedd y Cod wedi cael ei dorri. Os yw'r Cod wedi cael ei dorri, rydym yn cadarnhau'r gŵyn. O blith y cwynion y dyfarnwyd yn eu cylch yn ystod y cyfnod hwn, cadarnhawyd dau (o'i gymharu â dim y llynedd).[210]

## Cwynion am ddeunyddiau ar-lein

Ym mis Mai 2017, ymrwymodd Ofcom a'r BBC i drefniant lle mae Ofcom yn gallu ystyried a rhoi 'Barn' annibynnol ynghylch a wnaeth y BBC lynu wrth Ganllawiau Golygyddol perthnasol y BBC yn ei ddeunyddiau ar-lein. Mae deunydd ar-lein yn cynnwys testun, delweddau, fideo a sain ar wefan ac apiau'r BBC. Nid yw'n ymestyn i gynnwys cyfryngau cymdeithasol y BBC. Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, cawsom 599 o gwynion am ddeunyddiau ar-lein y BBC, o'i gymharu â 231 y llynedd.

[210] *Reporting Scotland* (a ddarlledwyd ar 6 Mai 2020) ac unwaith ar gyfer *Newsnight* (a ddarlledwyd ar 5 Tachwedd 2019).

O'r cwynion hyn, cafodd 514 eu cyfeirio at y BBC o dan BBC yn Gyntaf, a chafodd 61 eu cau yn dilyn asesiad gan Ofcom. Ni chawsom unrhyw gwynion er dibenion darparu Barn Ofcom.

## Themâu allweddol sy'n deillio o'n gwaith yn gorfodi safonau y BBC o ran cynnwys ers mis Ebrill 2017

O dan y System BBC yn Gyntaf mae amrywiaeth o offerynnau rheoleiddio y gall Ofcom eu defnyddio i sicrhau safonau y BBC o ran cynnwys

**Ffigur 10: Cwynion i'r BBC ac achosion yr UCG ers mis Ebrill 2017**

| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|
| **Cwynion** | | | | |
| **Cwynion a gafwyd gan y BBC** | 223,500 | 218,352 | 368,377 | 462,255 |
| **Achosion yr ymdriniwyd â hwy gan yr UCG** | | | | |
| **Cadarnhawyd yn llawn neu'n rhannol gan yr UCG** | 26 | 37 | 31 | 18 |
| **Datryswyd gan yr UCG**[211] | 6 | 6 | 4 | 15 |

**Ffigur 11: Cwynion i Ofcom am gynnwys y BBC ers mis Ebrill 2017**

| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|
| **Cwynion i Ofcom am gynnwys y BBC** | 1,673 | 1,539 | 3,059 | 5,429 |
| **Achosion heb eu canlyn** | 136 | 233 | 230 | 182 |
| **Achosion heb eu canlyn gyda rhesymeg wedi'i chyhoeddi'n llawn** | 0 | 1 | 2 | 3 |
| **Ymchwiliadau** | 3 (1 tor-amod[212], 2 heb dorri amod[213]) | 2 (1 tor-amod[214], 1 heb dorri amod) | 1 `(heb dorri amod) | 0 |

### Rydym wedi mynnu mwy o dryloywder ynghylch delio â chwynion

Yn 2017, fe wnaethom osod cyfres o ofynion, drwy ein Penderfyniadau ar Gwynion y BBC, i'r BBC gyhoeddi data manwl am ei swyddogaeth cwynion. Bwriad hyn oedd meithrin a chynnal hyder y cyhoedd yng ngweithrediad fframwaith BBC yn Gyntaf. Ers hynny, rydym wedi adolygu a diwygio'r Penderfyniadau hyn i wella tryloywder y ffordd mae'r BBC yn delio â chwynion. Mae'r BBC bellach yn cyhoeddi gwybodaeth bob pythefnos am gwynion golygyddol, sef:

- cyfanswm y cwynion am raglenni, gyda gwybodaeth ychwanegol am y rhaglenni a gafodd fwy na 100 o gwynion;
- gwybodaeth am gwynion golygyddol sy'n cael eu cyfeirio at Uned Cwynion Gweithredol (UCG) y BBC a chanlyniadau rhai o'r cwynion hynny; a
- chanran y cwynion yr ymatebwyd iddynt o fewn y cyfnod perthnasol.

---

211 Mae fframwaith cwynion y BBC yn nodi, os yw'r UCG yn credu bod digon wedi'i wneud i fynd i'r afael ag achos o dorri safonau golygyddol cyn iddo gael eich cwyn, y gall benderfynu bod hyn wedi'i ddatrys.
212 *Panorama*, BBC One.
213 Yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC ar gyfer 2017/18, adroddwyd ein bod wedi ymchwilio i dair cwyn, a oedd yn gyfystyr â dau achos. Mewn gwirionedd, fe wnaethom ymchwilio i bedair (a oedd yn gyfystyr â thri achos).
214 *The Today* programme, BBC Radio 4.

Fe wnaeth achos safonau yn ymwneud â *BBC Breakfast* yn 2019 beri pryder difrifol i ni ynghylch tryloywder y BBC o ran ei brosesau cwynion, a gwnaethom weithredu i fynd i'r afael â hyn fel mater o frys. Ar ôl i ni dynnu sylw at ein pryderon yn gyhoeddus:

- adolygodd y BBC ei broses gwyno ac ymgynghorodd ar newidiadau i'w Fframwaith Cwynion, a gyflwynwyd wedyn ym mis Mehefin 2020; a
- fel y nodwyd uchod, fe wnaethom ddiwygio ein Penderfyniadau Cwynion i annog y BBC i fod yn fwy tryloyw yn ei benderfyniadau ar gwynion golygyddol, yn enwedig mewn perthynas â chyhoeddi canlyniadau cwynion sy'n symud ymlaen i gam 2 ei broses cwynion golygyddol. Mae'r BBC nawr yn cyhoeddi manylion ei holl benderfyniadau a gadarnhawyd, a gadarnhawyd yn rhannol ac a gafodd eu datrys yng ngham 2.

Mae meysydd lle mae modd gwella tryloywder o hyd; er enghraifft, fel yr eglurir uchod, byddwn yn cwrdd â'r BBC i drafod pam na wnaeth gyhoeddi unrhyw benderfyniadau 'heb eu cadarnhau' yng ngham 2 yn ystod 2020/21. Rydym yn cydnabod bod y BBC wedi ymrwymo i esbonio rôl y Cyfarwyddwr Cyffredinol ym mhroses gwynion y BBC yn ei gynllun gweithredu ar ddidueddrwydd a Safonau Golygyddol, yn dilyn yr argymhelliad yn Adolygiad Serota bod *"y fframwaith cwynion yn adlewyrchu rôl y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn gyffredinol"*. Rydym yn nodi bod Adolygiad Serota hefyd yn argymell: y dylai'r BBC gyhoeddi canfyddiadau unrhyw ymchwiliadau i achosion difrifol o dorri Canllawiau Golygyddol y BBC, gan roi rhesymau digonol; ac y dylid diweddaru Fframwaith Cwynion y BBC i esbonio sut mae'r BBC yn delio â chwynion brys am gynnwys sy'n cael ei ddarlledu neu ei gyhoeddi lle mae'n rhaid dod i benderfyniad yn gyflym. Fel rhan o'n hadolygiad parhaus o reoleiddio'r BBC, byddwn yn ymgysylltu â'r BBC ynghylch y diwygiad diweddaraf o'n Penderfyniadau ynghylch Cwynion er mwyn gwella tryloywder y BBC yn y maes hwn ymhellach ac esbonio'n well ei benderfyniadau terfynol ynghylch cwynion i gynulleidfaoedd, yn enwedig ym maes didueddrwydd dyladwy.


### Mae didueddrwydd dyladwy yn dal yn bryder i gynulleidfaoedd

- Mae didueddrwydd dyladwy yn dal yn bryder i gynulleidfaoedd, ac mae cwynion ynghylch didueddrwydd yn cynrychioli cyfran fawr o gwynion a ddaw i law am y BBC (gweler Ffigur 12 isod).
- Fel y trafodwyd eisoes, mae cynulleidfaoedd yn parhau i fod yn llai ffafriol ynghylch didueddrwydd y BBC, ond gall amrywiaeth o ffactorau sy'n mynd y tu hwnt i raglenni ddylanwadu ar eu safbwyntiau. O ystyried cymhlethdod y mater hwn, yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn adeiladu ar yr ymchwil fanwl a wnaethom fel rhan o'n Hadolygiad o newyddion a materion cyfoes y BBC. Byddwn yn siarad â chynulleidfaoedd o amrywiaeth eang o gefndiroedd i ddeall y dylanwadau presennol ar eu canfyddiadau o ddidueddrwydd y BBC. Rydym yn bwriadu cyhoeddi hyn ochr yn ochr â'n hadroddiad i Lywodraeth y DU ar reoleiddio'r BBC yn ystod gwanwyn 2022.
- Bydd gennym ddiddordeb arbennig hefyd mewn edrych ar ganlyniadau'r ymrwymiadau i ddidueddrwydd dyladwy a amlinellwyd yn ddiweddar yng nghynllun gweithredu didueddrwydd a safonau golygyddol y BBC. Mae'r rhain yn cynnwys: ehangu hyfforddiant mewnol a chryfhau dealltwriaeth o ganllawiau golygyddol a rheolau cyfryngau cymdeithasol; defnyddio ymchwil cynulleidfaoedd i gyfrannu at broses o adnewyddu creadigol a chomisiynu yn y dyfodol; dechrau cyfres o adolygiadau thematig rheolaidd a gyhoeddir ynghylch didueddrwydd dyladwy allbwn mewn meysydd allweddol o drafodaeth gyhoeddus (y cyntaf i ddechrau ym mis Ionawr 2022); a chryfhau prosesau llywodraethu mewnol ac

atebolrwydd ym maes didueddrwydd, gan gynnwys cychwyn cyfres o raglenni mewnol ac adolygiadau o gynnwys newyddion a materion cyfoes allweddol (a rhaglenni ffeithiol perthnasol).

- Byddwn hefyd yn cadw golwg fanwl ar gydymffurfiad y BBC â rheolau didueddrwydd dyladwy y Cod drwy ein gwaith gorfodi parhaus ar safonau o ran cynnwys. Mae sawl ffordd o orfodi safonau didueddrwydd dyladwy ar wasanaethau'r BBC o dan y system BBC yn Gyntaf. Er enghraifft, yn ystod cyfnod y Siarter, mae Uned Cwynion Gweithredol y BBC wedi cadarnhau cwynion neu eu cadarnhau'n rhannol mewn 22 achos (allan o gyfanswm o 112), lle canfu nad oedd y safon briodol ar gyfer didueddrwydd dyladwy wedi cael ei bodloni.[215] Yn y cyd-destun hwn, yn yr un cyfnod, nid yw Ofcom o'r farn ei bod yn angenrheidiol nac yn gymesur agor unrhyw ymchwiliadau ein hunain hefyd o dan ein rheolau didueddrwydd dyladwy. Fodd bynnag, ar rai achlysuron, er nad ydym wedi agor ymchwiliad llawn, rydym wedi cyhoeddi ein rhesymeg yn esbonio pam, yn ogystal â rhoi canllawiau pwysig i'r BBC i'w helpu i gydymffurfio â'r rheolau didueddrwydd dyladwy.

**Ffigur 12: Cwynion am y BBC i Ofcom dros gyfnod y Siarter**




---

[215] Roedd y dadansoddiad blynyddol ar gyfer achosion a gafodd eu cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol gan yr UCG fel a ganlyn:
- 2017/18: 26 achos, tri ohonynt yn ymwneud â didueddrwydd dyladwy.
- 2018/19: 37 achos, pedwar ohonynt yn ymwneud â didueddrwydd dyladwy.
- 2019/20: 31 achos, deg ohonynt yn ymwneud â didueddrwydd dyladwy.
- 2020/21: 18 achos, pump ohonynt yn ymwneud â didueddrwydd dyladwy (o'r 15 a gafodd eu datrys, roedd pump yn ymwneud â didueddrwydd dyladwy).

# Trosolwg o'n dyletswyddau

Mae Siarter y BBC yn mynnu ein bod yn cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi sut rydym wedi cyflawni ein prif swyddogaethau o dan Erthygl 46 o'r Siarter. Mae'r rhain yn ymwneud â sicrhau bod perfformiad y BBC yn cael ei reoleiddio'n effeithiol, diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol a sicrhau bod safonau o ran cynnwys yn cael eu dilyn. Rhaid i'r adroddiad gynnwys asesiad o gydymffurfiad y BBC â'i ofynion rheoleiddio penodol. Roedd yn ofynnol i ni hefyd adrodd o leiaf yn flynyddol ar berfformiad y BBC o ran y mesurau rydym ni wedi eu pennu ochr yn ochr â'r Drwydded Weithredu. Mae'r rhain yn monitro cyflawniad y BBC o'i Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Mae trosolwg o'r dyletswyddau hyn i'w weld isod.

## Adolygiad Cyfnodol

Yn ogystal â chyhoeddi asesiad blynyddol o gydymffurfiad y BBC â'i ofynion rheoleiddio ac o'i berfformiad yn erbyn ein mesurau perfformiad, o dan Erthygl 51 y Siarter, mae'n rhaid i ni gynnal o leiaf ddau adolygiad cyfnodol manwl o berfformiad y BBC yn ystod cyfnod y Siarter, a gallwn gynnal adolygiadau ychwanegol lle teimlwn ei bod yn briodol gwneud hynny. Rhaid cyhoeddi'r adolygiad cyntaf mewn digon o amser i gyfeirio adolygiad hanner ffordd trwy'r siarter Llywodraeth y DU.[216]

## Sut rydym yn dal y BBC i gyfrif am ei berfformiad

O dan y Siarter, mae'n rhaid i ni osod Fframwaith Gweithredu sy'n cynnwys darpariaethau sy'n ein galluogi i reoleiddio gweithgareddau'r BBC yn effeithiol, a Thrwydded Weithredu sy'n cynnwys yr amodau rheoleiddio rydym ni'n credu sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn:

a) cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;

b) sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a

c) sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu gwasanaethu'n dda.

Gallwn roi sancsiynau i'r BBC os nad yw'n llwyddo i fodloni'r amodau rheoleiddio hyn. Gallwn hefyd osod set o fesurau perfformiad er mwyn cael darlun gwell o ba mor dda mae'r BBC yn cyflawni ei gylch gwaith, y tu hwnt i'r amodau rheoleiddio. Mae ein hasesiad o berfformiad y BBC yn defnyddio'r fframwaith mesur a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017.

## Sut rydym yn rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth

Mae gan Ofcom ddyletswydd i reoleiddio'n gadarn, yn deg ac yn annibynnol er mwyn diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y Deyrnas Unedig. O dan y Siarter, mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod pryderon ynghylch cystadleuaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn cael eu hystyried yn briodol. Fel rhan o'r Fframwaith Gweithredu, rydym wedi llunio fframwaith rheoleiddio i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y meysydd y mae'r BBC yn gweithredu ynddynt:

[216] Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cyfrannu at Adolygiad Cyfnodol cyntaf Ofcom, y cyfeirir ato fel "ein hadolygiad o reoleiddio'r BBC" ac mae'n ystyried perfformiad y BBC dros gyfnod y Siarter hyd yma.

- Mae dyletswydd arnom i ystyried a yw gwerth cyhoeddus unrhyw newid sylweddol i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei gynnig gan y BBC yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Rydym yn ystyried hyn drwy Asesiad Cystadleuaeth y BBC (BCA).
- Mae'n bosibl i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus parhaus y BBC gael effaith ar gystadleuaeth. Os bydd gennym bryderon bod ei wasanaethau yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, gallwn adolygu ei wasanaethau presennol o dan Adolygiad Cystadleuaeth y BBC (BCR).
- Mae'n bosibl i'r ffordd mae'r BBC yn dosbarthu ei gynnwys gwasanaeth cyhoeddus effeithio ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau ar sut rydym yn sicrhau bod y BBC yn trafod trefniadau dosbarthu ar sail deg, resymol heb wahaniaethu, gan ystyried ei rwymedigaethau i gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus hefyd.
- Mae'n ofynnol i'r BBC sicrhau bod ei weithgareddau gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu gweithredu ar wahân i'w is-gwmnïau masnachol ac nad yw'r is-gwmnïau yn cael mantais gystadleuol annheg nac yn ystumio'r farchnad oherwydd eu cysylltiad â'r gwasanaethau cyhoeddus. Ym mis Chwefror 2019, fe wnaethom gyhoeddi gofynion a chanllawiau wedi eu diweddaru ynghylch gweithredu is-gwmnïau masnachol y BBC a'r berthynas â'i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus.
- Yn ystod cyfnod y Siarter, mae'n rhaid i'r BBC gomisiynu cyfran gynyddol o gynnwys drwy broses gystadleuol. Rhaid iddo sicrhau mai FRNDT yw'r broses gomisiynu. Rydym yn monitro cydymffurfiad y BBC ac yn gorfodi'r gofynion hynny. Ym mis Chwefror 2019 fe wnaethom gyhoeddi canllawiau yn nodi'r ffactorau y byddem yn eu hystyried wrth asesu a oedd y BBC wedi diwallu ei ddyletswyddau o ran comisiynu mewn ffordd deg, resymol, dryloyw a heb wahaniaethu petai ymchwiliad.

Mae gan Fwrdd y BBC rwymedigaeth hefyd i ystyried effaith gweithgareddau'r BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Mae'n rhaid iddo ymdrechu'n barhaus i atal ei wasanaeth cyhoeddus a'i weithgareddau masnachol rhag ystumio cystadleuaeth. O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae Bwrdd y BBC yn gyfrifol, yn y lle cyntaf, am ystyried effaith newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC ar gystadleuaeth yn y Deyrnas Unedig. Yn benodol, mae'n rhaid iddo ystyried a yw'r newidiadau arfaethedig yn sylweddol ac a ddylai gynnal prawf lles y cyhoedd (PIT).

Mae Prawf Lles y Cyhoedd yn ystyried a fyddai newid sylweddol arfaethedig yn cynhyrchu digon o werth cyhoeddus i gyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth. Os caiff Prawf Lles y Cyhoedd ei fodloni, rhaid i'r BBC gyhoeddi'r cynnig a'i gyfeirio at Ofcom ar gyfer asesiad. Pan fydd y BBC yn penderfynu nad yw newid yn sylweddol, caiff fwrw ymlaen â'r newid hwnnw. Fodd bynnag, mae gan Ofcom y pŵer i ymyrryd os yw o'r farn bod newidiadau i'r gwasanaeth yn sylweddol, a mynnu bod y BBC yn rhewi'r gweithgaredd a/neu yn cynnal Prawf Lles y Cyhoedd.

## Sut rydym yn sicrhau safonau y BBC o ran cynnwys

O Dan y Siarter a'r Cytundeb, rydym yn dal y BBC i gyfrif yn erbyn rheolau'r Cod Darlledu (y Cod) i sicrhau bod cynulleidfaoedd y BBC yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag deunyddiau a allai achosi niwed a thramgwydd yn ei raglenni. Mae'r Cod yn rhoi sylw i feysydd sy'n cynnwys diogelu'r rhai sydd dan 18 oed; niwed a thramgwydd; trosedd; crefydd; didueddrwydd a chywirdeb; a chyfeiriadau masnachol. Mae'r rheolau tegwch a phreifatrwydd yn sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag cael eu trin yn anghyfiawn neu'n annheg mewn rhaglenni, ac nad oes unrhyw darfu ar eu preifatrwydd

mewn rhaglenni heb gyfiawnhad. Mae’r Cod yn berthnasol i wasanaethau teledu a radio’r BBC a, phan fo'n briodol, i wasanaethau rhaglenni ar-alw’r BBC.

Rydym yn sicrhau cydymffurfiad â'r Cod drwy ystyried cwynion yn bennaf. Rydym hefyd yn chwilio am achosion posibl o dorri’r rheolau ac yn ymchwilio iddynt pan fydd hynny’n briodol, drwy waith monitro wedi ei dargedu. Mae hyn yn cyd-fynd â sut rydym yn gorfodi safonau o ran cynnwys ar gyfer yr holl ddarlledwyr rydym yn eu rheoleiddio.

Mae cwynion am raglenni'r BBC yn cael eu hystyried o dan fframwaith cwynion BBC yn Gyntaf. Y BBC sy'n delio â chwynion yn y lle cyntaf [217], a gall achwynwyr gyfeirio’u cwynion at Ofcom os byddant yn anfodlon ar ymateb terfynol y BBC neu os na fydd y BBC yn ymateb yn ddigon prydlon. I sicrhau effeithiolrwydd y fframwaith BBC yn Gyntaf ac er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu diogelu’n briodol, rydym yn defnyddio peirianweithiau goruchwylio, fel adroddiadau rheoleiddio gan y BBC ar ddelio â chwynion. Mae gennym y pŵer hefyd i gamu i mewn ac ymyrryd mewn achos safonau o ran cynnwys gan y BBC ar gam cynharach, neu i lansio ymchwiliad yn niffyg cwyn, os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol.

Rydym yn cyhoeddi canlyniadau'r holl gwynion am raglenni'r BBC (a darlledwyr eraill) bob pythefnos yn ein Bwletin Broadcast and On Demand. Rydym yn cyhoeddi canlyniad pob cwyn am ddeunyddiau ar-lein y BBC bob dau fis yn ein Bwletin ar gyfer cwynion am ddeunyddiau ar-lein y BBC.

[217] Ac eithrio cwynion tegwch a phreifatrwydd y mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i’w derbyn yn uniongyrchol gan achwynwyr.